ECO'R WYDDFA

RHIF 347 MEDI 2007 PRIS 40c

NGLYNRHONWY

DYNA'R newyddion a ddaeth i law ychydig ddyddiau cyn i'r *Eco* fynd i'r wasg. Dyma siom i ambell un yn y fro, a rhyddhad i amryw o rai eraill.

Roedd y teimladau ynglŷn â'r datblygiadau arfaethedig yng Nglynrhonwy wedi codi cryn dipyn o ddadleuon – amryw o blaid y datblygiad chwyldroadol, ac amryw eraill yn ei wrthwynebu'n chwyrn.

Roedd y cais yn gofyn am *'Adfer cyn-chwareli i ddatblygiad cymysg cynhwysfawr hamdden sy'n cynnwys canolfan sgïo ac eira mewnol ac allanol, gwesty, cyfleusterau cynhadleddau, pwll hamdden, defnyddiau dosbarth A3 (Bwyd a diod), manwerthu, manwerthu arbennig, maes parcio i geir a bysus, gwelliannau i fynedfeydd newydd ynghyd ag adfer ac ailddylunio'r safle a thirweddu.'*

Mewn datganid gan Gyfadran yr Amgylchedd, Cyngor Gwynedd, cadarnhawyd fod y cais bellach wedi ei dynnu'n ôl ac *'ni fydd gweithrediad pellach arno.'*

Band Deiniolen yn Paratoi Cyngerdd i'w Ffrind, IWAN



MAE dros flwyddyn bellach ers i'r athro a'r cerddor, Iwan Williams, sy'n enedigol o Ddeiniolen, gael ei daro gyda thiwmor ar yr ymennydd, a nawr mae ei ffrindiau o Fand Deiniolen, ynghyd â thrigolion y pentref arbennig hwn, wedi dod ynghyd i drefnu cyngerdd i'w gefnogi a'i gynorthwyo.

Tyfodd Iwan i fyny yn Neiniolen gan gychwyn chwarae'r cornet ym mand y pentref pan yn 8 oed. Datblygodd gyrfa gerddorol Iwan wedi iddo symud i Fanceinion i astudio Cerddoriaeth, gyrfa a goronwyd yn 2005 pan ryddhawyd ei gryno ddisg cyntaf fel unawdydd ar y corn flugel. Bryd hynny roedd Iwan yn aelod o'r Band Pres enwog, y 'YBS Band', ac yn athro Cerdd mewn ysgol ym Manceinion.

Dechreuodd Iwan deimlo'n wael ym mis Ionawr 2006 pryd darganfuwyd ei fod yn dioddef o epilepsi. Ond parhau wnaeth y gwaeledd nes cael cadarnhad, ym mis Mehefin 2006, ei fod yn dioddef o diwmor ar yr ymennydd. Mae ar hyn o bryd yn dilyn cwrs o driniaeth, ac o ganlyniad mae wedi gorfod rhoi'r gorau i'w waith ac i'w le ym mand YBS.

Penderfynodd ei ffrindiau ym Mand Deiniolen ddod at ei gilydd i drefnu cyngerdd i gefnogi Iwan a'i deulu.

'Bwriad y cyngerdd hwn yw, nid yn unig i roi cymorth ariannol i Iwan a'i deulu, ond i ddatgan ein cefnogaeth iddynt ar adeg anodd fel hyn. Mae pawb sy'n gysylltiedig â'r band a'r pentref yn falch iawn o gael y cyfle yma i ddangos ein cefnogaeth i Iwan,' meddai Dylan Williams ar ran y band.

Cynhelir y cyngerdd yn Theatr Seilo, Caernarfon, ar nos Wener Hydref y 6ed. Yr artistiaid sy'n cymryd rhan yw Band Deiniolen (dan arweiniad Gavin Saynor), Tudur Owen (Arweinydd y noson), Sheona White a Stuart Lingard (unawdwyr pres a oedd yn gyd-aelodau gydag Iwan ym mand YBS), Annette Bryn Parri, John Eifion Jones, Siân Wyn Gibson ac Emyr Wyn Gibson. Noddir y cyngerdd gan gwmni Advent Project Management o Fangor, ac mae busnesau sy'n lleol i Ddeiniolen wedi cytuno i gyfrannu at y noson drwy noddi'r rhaglen. Mae cyn-arweinydd Iwan ym mand YBS, a'i gyn-diwtor yn y Coleg, Professor David King, hefyd wedi gaddo bod yn bresennol.

'Mae'r noson yn siŵr o fod yn noson dda, yn noson lawen, gyda holl ffrindiau Iwan yn dod ynghyd i ddangos eu cefnogaeth iddo, ac mae'r band yn ddiolchgar dros ben i'r artistiaid a'r noddwyr am gytuno i gefnogi'r noson. Mae 'na rywbeth arbennig iawn am y ffordd y mae trigolion Deiniolen yn tynnu at ei gilydd ar adegau caled, ac mae'r noson yma yn dyst i hynny. Wedi dweud hynny, rydym yn gobeithio cael cefnogaeth ehangach i'r apêl, felly os oes rhywun yn dymuno cyfrannu tuag at yr achos, cysylltwch â mi ar 07793 679492 neu dyl_73@hotmail.com os gwelwch yn dda.'

Mae tocynnau'r 'Noson Lawen' ar werth gan Meirion Jones (Ysgrifennydd y Band) ar (01286) 870452. Pris y tocynnau yw £10 (oedolyn) a £5 (plentyn). Ymwelwch â: http://www.deiniolenband.org.uk neu http://www.adventpm.co.uk am fwy o fanylion.

CYDNABOD DRAMODYDD

AM 11.00 fore Sadwrn, 25 Awst, daeth cynulleidfa deilwng o deulu, cyfoedion, cydweithwyr, cyn-ddisgyblion a ffrindiau lu i'r Neuadd Gymuned i dalu eu teyrngedau i Huw Lloyd Edwards, Athro a Dramodydd, a anwyd yn Siop Gron yn 1916. Estynnwyd croeso cynnes i bawb gan y Cynghorydd Huw Price Hughes, Cadeirydd y Cyngor Cymuned, a llywiwyd y cyfarfod gan Phyllis Elis.

Bu'r Parchg Tegid Roberts, J. O. Roberts, William Lewis, Rol Williams, Idris Thomas a Beti Williams yn adrodd eu hatgofion melys a doniol amdano, a chafwyd teyrnged ysgrifenedig gan Richard Morris Jones, cyn-ddisgybl iddo.

Profiad hyfryd i Ann ac Eleri a'r teulu oll oedd clywed y teyrngedau aruchel hyn am eu tad a'u taid – pob un yn sôn am ei ddiriedi a'i ddylanwad fel Athro Saesneg yn Ysgol Uwchradd Pen-y-groes, ac wedyn fel Darlithydd dylanwadol yn y Coleg Normal.

Yn y llyfr, *Tri Dramaydd Cyfoes* (sef, Saunders Lewis, John Gwilym Jones a Huw Lloyd Edwards) dyma ddywed yr awdur, J. Ellis Williams:

'Roedd gan Huw Lloyd Edwards y ddawn gynhenid i greu difyrrwch a adlonai gynulleidfa, ac fe sylweddolodd y gellid defnyddio'r ddawn hon, nid yn unig i gyffroi cynulleidfa i chwerthin, ond hefyd i'w chyffroi i feddwl drosti ei hun.'

A dyna a wnaeth yn ei gomedïau ysgafn, a'i ddramâu radio a llwyfan.

Wedi'r teyrngedau fe ddadorchuddiwyd cofeb, o waith Gwilym Williams, Crefft Elidir, ar wal Siop Gron gan Ann ac Eleri, ei ddwy ferch. Paratowyd lluniaeth ysgafn i bawb a ddymunai ddod yn ôl i'r Neuadd i gael sgwrs a hel atgofion

Gwireddwyd breuddwyd y Sadwrn hwn a diolchir i aelodau'r Cyngor Cymuned a fu'n ddiwyd yn cysylltu, hysbysebu, gwneud y paratoadau trylwyr i sicrhau cydnabyddiaeth haeddiannol ein pentref, cymuned a'n gwlad i un o'r 'Tri Dramaydd Cyfoes'.

Dadorchuddio'r gofeb ar dalcen Siop Gron, Penisarwaun. (O'r chwith i'r dde): Alan, Elfyn, Ann (merch), Eleri (merch), Catrin (wyres) ac Euros.

ECO'R WYDDFA

RHIF 347
MEDI 2007

Argraffwyd gan Wasg Gwynedd Cibyn, Caernarfon

Cydnabyddir cefnogaeth Bwrdd yr Iaith Gymraeg i'r cyhoeddiad hwn.

DYDDIAD A LLEOLIAD PLYGU'R ECO

Trefnydd Plygu: Mrs Shioned Griffith, Pantafon, Waunfawr. (01286) 650570

Rhifyn	Dyddiad Copi	Dyddiad Plygu	Ble	Cysylltu â	Rhif Ffôn
Hydref	17 Medi	27 Medi	Penisarwaun	Ann Evans	872407

SWYDDOGION A GOHEBWYR

Tim Golygyddol
Erthyglau a newyddion at ohebwyr pentref neu i
Penarth
Ffordd yr Orsaf
LLANRUG LL55 4BA
Straeon ac erthyglau ar e-bost
storiau@ecorwyddfa.co.uk

CADEIRYDD Y PWYLLGOR GWAITH
Geraint Elis

GOLYGYDD CHWARAEON
Richard Ll. Jones, 5 Y Ddôl, Bethel. (01248) 670115

FFOTOGRAFFWR
Gwyndaf Hughes, Glasgoed, Llanrug (677263)

TREFNYDD HYSBYSEBION
Eifion Roberts, Sŵn-y-Gwynt, Llanberis (870740)
eifion@eifionroberts9.wanadoo.co.uk

TREFNYDD ARIANNOL
Goronwy Hughes, Eithinog, 14 Afon Rhos, Llanrug (674839)

TREFNYDD GWERTHIANT POST
Olwen Hughes, Eithinog, 14 Afon Rhos, Llanrug (674839)

TREFNYDD PLYGU
Shioned Griffith (650570)

TREFNYDD BWNDELU
Marian Jones, Minallt, 7 Bro Elidir, Dinorwig (870292)

GOHEBWYR PENTREFI

DEINIOLEN: Nia Gruffudd (872133)
BETHEL: Geraint Elis, Cilgeran (01248) 670726
BRYNREFAIL: Mrs Lowri Prys Roberts-Williams, Godre'r Coed (870580)
CAEATHRO: Clive James, Hafan, Bryn Gwna (677438)
CEUNANT: Trystan a Sioned Larsen, Bodafon, Ceunant (650799)
CWM-Y-GLO: Mrs Iris Rowlands, Glanrafon (872275)
DINORWIG: Marian Jones, Minallt, 7 Bro Elidir, Dinorwig (870292)
LLANBERIS: Gwyneth ac Eifion Roberts, Sŵn-y-Gwynt (870740)
LLANRUG: Eryl Roberts, 3 Bryn Moelyn (675384)
NANT PERIS: Llinos Jones, 6 Nant Ffynnon (871820)
PENISARWAUN: Mrs Ann Evans, Sycharth (872407)
TAN-Y-COED: Miss Anwen Parry, Ael-y-Bryn (872276)
WAUNFAWR: Mrs Nan Roberts, Pantafon, Waunfawr (650570)

Cefnogwch ein Hysbysebwyr

Y RHIFYN NESAF
Deunydd i law'r golygyddion perthnasol
NOS LUN, 17 MEDI
Os gwelwch yn dda
Daw'r rhifyn nesaf o'r wasg
NOS IAU, 27 MEDI

Annwyl Olygydd,

Darlith Goffa Aled Eames

Hoffwn dynnu sylw eich darllenwyr at ddigwyddiad nodedig yng nghalendr Cymru.

Roedd Aled Eames yn un o brif haneswyr morwrol ei gyfnod ac yn adnabyddus drwy Gymru ac yn rhyngwladol. Llwyddodd ei frwdfrydedd a'i agosatrwydd i ysbrydoli ei gydwladwyr i ymddiddori yn hanes morwrol eu cenedl.

Bwriad Darlith Goffa Aled Eames yw coffáu ei gyfraniad drwy gyfrwng darlith gan hanesydd morwrol o'r radd flaenaf.

Dr Adrian Jarvis, cyn Gyd-Gyfarwyddwr Canolfan Hanes Morwrol a Phorthladd Lerpwl, fydd yn traddodi'r ddarlith sy'n dwyn y teitl 'A complex relationship: North Wales, Liverpool and the Sea' ar ddydd Sadwrn, 27 Hydref 2007, ym mhentref treftadaeth morwrol Moelfre, Ynys Môn. Traddodir y ddarlith yn Saesneg ond fe'i cyhoeddir yn ddwyieithog.

Cost mynychu'r achlysur fydd £10 y pen, sy'n cynnwys mynediad i'r cyflwyniad agoriadol a'r arddangosfa, mynediad i'r ddarlith, copi o'r ddarlith a chinio. Os am archebu lle neu am fwy o fanylion, ffoniwch (01248) 410816 neu (01248) 851062.

Diolch yn fawr iawn

ROBIN EVANS
Cydlynydd

TŶ AR OSOD
yn Llanberis
gyda 2 lofft
wedi ei ddodrefnu
£475 y mis + biliau
(01286) 871782

Blodau Racca
(ALWYN AND SARAH JONES)
Ffôn **870605**

- Basgedi Planhigion, Blodau Ffres a Silc
- Danfon blodau 7 diwrnod yr wythnos drwy'r fro
- Gwasanaeth Tudalennau Siarad/*Talking Pages* 118 247
- Planhigion Gardd a Basgedi Crog

RHODD O'R GALON YW BLODAU

Ffidlo i Bawb!

Ydach chi erioed wedi breuddwydio am chwarae offeryn? Erioed wedi meddwl am chwarae'r ffidil? Dyma'ch siawns...

Mae Clwb Ffidil yr Wyddfa yn cychwyn dosbarth dechreuwyr newydd ar 11 Medi ac mae croeso i bawb! Ffidlwyr lleol, Cass Meurig a Nial Cain sy'n dysgu'r grŵp, sydd yn cwrdd ers 5 mlynedd yn Caban, Brynrefail. Dysgu alawon wrth y glust ydy'r pwyslais ac mae pob oedran yn cymryd rhan, o blant i bensiynwyr. Does dim eisiau unrhyw brofiad cerddorol blaenorol, ac mae gan y clwb ambell ffidil sbâr os nad oes gennych chi un.

Yn ogystal â'r clwb dechreuwyr mae 'na grŵp hefyd i chwaraewyr mwy profiadol, sydd yn rhoi siawns i wella techneg a dysgu sgiliau eraill, megis harmonïo. Mae hyn yn addas ar gyfer pobl sydd wedi bod yn chwarae ers blwyddyn neu ddwy, neu sydd efallai wedi gwneud ambell i radd yn yr ysgol a dim wedi chwarae ers blynyddoedd. Mae croeso i aelodau newydd.

'Cael hwyl ydan ni,' meddai Cass Meurig. 'Does dim arholiadau na chystadlaethau, ac mae unrhyw un yn gallu ymuno. Chwarae ar y cyd a datblygu sgiliau cerddorol sy'n bwysig. Mae'n ffordd ymlaciedig o ddysgu ond mae'n gweithio. Mae rhai o'n haelodau ni wedi cychwyn o'r cychwyn gyda ni bum mlynedd yn ôl ac erbyn hyn maen nhw'n swnio'n dda.'

Mae'r clwb yn cwrdd ar nos Fawrth yn ystod tymor yr ysgol yn Caban, Brynrefail: dechreuwyr o 6 tan 6.30 a'r rhai mwy profiadol o 6.30 tan 7.30. Y gost ydy £4 yr wythnos. Cysylltwch â Cass am fwy o wybodaeth ar (01286) 871042.

GwalltGo
Stryd Goodman, Llanberis
(Tu ôl i'r Bistro)

Siop trin gwallt Merched, Dynion a Phlant

Cysylltwch â Dilys neu Ffion
01286 872414

Oriau agor:
Mawrth – Iau: 9am – 5.30pm
Gwener: 9am – 7.30pm
Sadwrn: 9am – 4pm

RHODDION

£100: Roedd gan y teulu er cof am y ddiweddar Mrs Annie Jones,, Eilionwy, Llanrug.

£20: Teulu Bet Williams, Erw Fair, Llanberis, gynt; John Arfon a Pat Owen, Cefn Cynrig, Bethel; Margaret Druce, 9 Tan y Cae, Bethel; Ann Ellis Williams, Y Ddolwen Fach, Bethel; Nerys Owen, Wern Las, Bethel.

£10: Bert Jones, 12 Ffordd Glanffynnon, Llanrug; Mr a Mrs J. Owen, Hafod y Rhos, Llanrug; Er cof am Huw Berwyn Jones, Cwmbrân, gynt o Lanberis; Mr a Mrs Andrew ac Alice Griffith, Tan y Bwlch, Dinoriwg; Alwyn a Verona Morris, Merddyn, Ceunant, Waunfawr; Mrs Megan Williams, Bron Eryri, Llanrug.

£5: Elizabeth Ellis Evans, Pen Parc, Bethel; Ann Parry, 3 Y Rhos, Bethel; Eddie a Moreen Lennon, Plas Tirion, Llanberis; Teulu'r diweddar Clifford Williams, Fferm Penbwlch, Mynydd Llandegai; Amy Lambert, Glandŵr, Brynrefail; Mrs Kathleen Williams, 1 Glanrafon, Tŷ Du Road, Llanberis; Heulwen Lewis, 13 Stryd Ceunant, Llanberis.

£3: Mrs Beti Roberts, 25 Rhydfadog, Deiniolen.

£2: Rhianwen Jones, Deiniolen.

BWRDD YR IAITH GYMRAEG · WELSH LANGUAGE BOARD

Noddir gan Lywodraeth Cynulliad Cymru

Perchnogion Newydd!
yn parhau'r traddodiad gwych
WAVELL'S
Bryn ac Angela Williams
London House, LLANRUG
Ffôn:
(01286) 673574
PEN CIGYDDION Y FRO
Yr ŵyn lleol mwyaf blasus,
Selsig cartref
Cigoedd parod i'w bwyta
Archebion ar gyfer y rhewgist
MYNNWCH Y GORAU
DEWCH ATOM NI!

Colofn y Plant

Clwtyn Criw Triw

Hanes Smonach Bach ar ei Wyliau mewn Gwlad Bell

Annwyl blant bach annwyl a mawr, tal a byr, llydan a chul, Ydach chi'n gwenu? Da iawn chi! Tybed a gawsoch chi wylia hapus dros yr haf?

Tra'n sôn am wylia, dyma fi, dwbridwrdibidw, yn Awstralia, y wlad sy ar ei phen i lawr! Pan gyrhaeddais i yno i roedd gen i dwbridrw! ofn disgyn ar fy nhraed, gan fy mod i – ar fy mhen i lawr! Edrychwch chi ar fap o'r byd, ac mi welwch be rydw i'n ei feddwl. Dyna chi wlad, fy mhlant i! Ew! mae yno'n byw bobl ac anifeiliaid tu hwnt dwbridwrdibidw! o ddiddorol.

Creadur rhyfedd iawn iawn iawn ydy'r cangarŵ! Un sy hefo coesau rhyfedd iawn ydy o! Pedair ohonynt! A wyddoch chi bod ei goesau ôl yn ofnadwy iawn iawn o fawr? Y mae ganddo fo gynffon hefyd, un ofnadwy o hir. A phan fydd o'n symud mi fydd y cangarŵ'n neidio o gwmpas ac, ar adegau, yn medru rhoi naid sy'n naw metr o hyd!

Hylô, Mistar Llam a Herc!
Hylô Smonach Bach. Be wyt ti'n ei wneud yma'n Awstralia?
Gweld y byd, Mistar Llam a Herc. Be ydach chi'n ei wneud yma?
Byw yma rydw i. Ac er mwyn cael byw mi fydda i'n bwyta llond fy mol.
Bol? Dwbridwrdibidw! Be ydach chi'n ei fyta, Mistar Llam a Herc?
Gwair wsti. Blasu. Cnoi, Bwyta llond fy mol o wair! Ym! Ym!
Bol? Hessg-iesgyb-hesgush-odwch fi, Mistar Llam a Herc, Pam fod pocad yn sownd ym mol y cangarŵ acw?
Musus Llam a Herc ydy hi! Yn y bocad sy ynghlwm yn ei bol mi fydd Musus Cangarŵ'n cadw'n ddiogel Twtsi, y cangarŵ bach (joey), sy newydd ei eni neithiwr yng nghanol y glaswellt, tra roedd y sêr yn wincian ar y lleuad yn yr awyr uwchben. Yli, dos draw at Lima-Mila sy'n byw yng Ngwlad y Freuddwyd Fawr, ac mi ddywedith o'r holl hanes wrthat ti pam fod poced gan genod cangarŵ.
'Hylô Lima-Mila.'
'Hylô Smonach Bach! Isio gwybod sut y cafodd Musus cangarŵ'r bocad wyt ti?'
'Os gwelwch yn dda, Lima-Mila.'
'Un tro, pan oedd y Byd yn cael ei greu ac yn rhan o'r Freuddwyd Fawr, mi roedd 'na deulu cangarŵ yn byw ynghanol glaswellt y Tir Mawr yn Awstralia. Yr adeg honno doedd yr un cangarŵ hefo poced!'
'Mam,' ebe un eneth gangarŵ bach, 'Mi hoffwn i gael poced.'
'Poced?'
'Ia, Poced.'
'Ond i be, Del bach?'
'Wedyn mam, mi alla i godi gwellt yn fwyd a'i gadw fo'n y boced ar gyfer ei fwyta pan nad oes gwellt yn tyfu'n unman.'
'Syniad ardderchog!' ebe'r fam. 'Ond ble rydw i'n mynd i gael poced iti?'
'Gwau un, mam!'
'Gwau poced, Del bach?'
'Ia! hefo nodwydd a gwelltyn.'
A'r noson honno aeth Mam Cangarŵ ati fel slecs i wau poced o flew, gwellt a dail. Ond mi roedd hi'n siarad cymaint ac yn edrych mewn rhyfeddod ar y sêr a'r lleuad yn yr awyr uwchben nes iddi yn ddifeddwl, ar ôl gorffen gwau'r boced, sticio'r boced hefo selotêp yn sownd i fol Del bach, a phan welodd y genod cangarŵ bach eraill y boced oedd ganddi, wel, wel – roedd pob un ohonynt isio pocedi wedi eu gwau gan eu mamau, a'u sticio ar eu bolia hefo selotêp.
A byth ers hynny, er mwyn cofio Del Bach y joey cangarŵ y mae holl Fusus cangarŵod hefo – hefo – hefo pocedi!
Ia! Wir! Dwbidrwbdi Dwbidw!
Y tro nesa bydd Smonach Mawr yn ei ôl hefo chi, ac mi fydda inna, Snmonach Bach, yn crwydro mewn gwlad bell arall!
Iesgybraethus!
Dwbridwbridirwbdidw!

Harddwch eich cartref gyda
FFENESTRI CELTIC WINDOWS
FFENESTRI • DRYSAU • CONSERFATERIS
CYFLENWYR AWDURDODAU LLEOL
Busnes teuluol gyda blynyddoedd o brofiad
Ffoniwch – 'dio'n costio dim i gael pris
HEN YSGOL GLANMOELYN
LLANRUG LL55 2RG
NHBC
(01286) 678618 (dydd)
(01248) 670081 (nos)

ARVONIA cpt
• Gwyliau cerbyd Prydeinig a Chyfandirol.
• Rhaglen Tripiau Dyddiol.
• Cerbydau moethus ar gael ar gyfer llogi preifat.
• Cerbyd 7 ac 14 sedd ar gael ar gyfer teithwyr maes awyr ac ar gyfer logi preifat.
• Adran teithiau grŵp – yr holl drefniadau wedi'u gwneud: archebiadau gwesty a llong, teithiau, archebiadau theatr a digwyddiadau.
Y Sgwâr, Llanrug, Caernarfon, Gwynedd LL55 4AA
Ffôn: 01286-675175 Ffacs: 01286-671126 E-bost: info@arvonia.co.uk
Gwefan: www.arvonia.co.uk

H. E. HUGHES
A'I FEIBION
Bwthyn Gadlys
LLANBERIS
FFôn: 870444
• Gwerthwyr Glo ac
• Olew Gwres Canolog i'ch cadw'n gynnes ac yn glyd!

Cefnogwch ein hysbysebwyr

• Priodasau • Dathliadau
• Achlysuron Arbennig • Cynadleddau
• Pwyllgorau • Bwydlen Bar
• Cinio Dydd Sul
Quality Hotel Llanberis
(Gwesty'r Fictoria gynt)
– rhan o CHOICE HOTELS
wrth droed yr Wyddfa
Ffôn: Llanberis (01286) 870253

DEINIOLEN

Mrs Nia Gruffudd Ffôn: (872133)

Mae teulu o redwyr o Ddeiniolen wedi bod yn llwyddianus iawn yn ddiweddar mewn cystadlaethau rhedeg gwahanol, o fynydd i draws gwlad.

Mae Owain Llŷr James wedi bod yn llwyddianus yng nghyfres Nos Fawrth Clwb Rhedwyr Eryri – daeth yn ail o dan 14 oed. Roedd o hefyd yn 3ydd yn y ras 800m ym Mhencampwriaeth Gogledd Cymru; ac yn Ras y Gader ar ddiwedd mis Mai, cafodd ail. Yn ddiweddar, cafodd ail hefyd yng nghystadleuaeth genedlaethol Acwathlon (nofio a rhedeg) yr Urdd yn Aberystwyth, ac ail mewn Triathlon ym Mae Colwyn.

Mae ei chwaer, Elin, hefyd wedi bod yn brysur: daeth yn ail ym Mhencampwriaeth Traws Gwlad Gogledd Cymru dan 13 oed. Fel ei brawd roedd Elin yn ail o dan 12 yng nghyfres rhedeg mynydd Nos Fawrth Clwb Rhedwyr Eryri. Hefyd cafodd gyntaf yn y ras 800m yn erbyn timau athletau Gogledd Cymru yng Nglannau Dyfrdwy yn ddiweddar, a hi enillodd ei ras yn Ras y Gader yn Nolgellau.

Yr ieuengaf o'r tri yw Rhys Llywelyn. Mae Rhys wedi bod yn llwyddiannus ym mhob un o'i rasus, gan gyrraedd y safle cyntaf yn ras trwas gwlad Yr Urdd yn Treborth; cyntaf yn rasus 80m a 600m pencampwriaeth Athletau Gogledd Cymru. Roedd o hefyd yn fuddugol yn y gyfres Nos Fawrth Clwb Rhedwyr Eryri o dan 12. Fo yw pencampwr Traws Gwlad Gogledd Cymru ac enillodd yn Ras y Gader yn Nolgellau.

Yn ddiweddar mae'r tri wedi cael gwahoddiad i redeg yn ras mynydd Smarna Gora yn Slovenia yn mis Hydref!

DIOLCH. Dymuna Iwan a Lorraine, (Rhes Faenol gynt) ddiolch yn fawr iawn i bawb wnaeth noddi Lorraine yn ddiweddar i abseilio oddi ar adeilad uchel ym Manceinion, gyda'r arian yn mynd i Nyrsus Macmillan.

NOSON ARWERTHIANT. Nos Wener, 14 Medi, am 6.30 o'r gloch yn Festri Capel Coch, Llanberis, cynhelir Noson Goffi gyda stondinau llyfrau, bric a brac, tombola, cacennau ac amryw gystadlaethau.

Bydd yr elw i'w rannu rhwng Ymgyrch Cristnogol Sierra Leone a Chynllun Efe (Efengyl Dros Fro Eco'r Wyddfa) – i gael gweithiwr ieuenctid Cristnogol i'r ardal.

Croeso cynnes i bawb o'r ardal.

DYMUNA Mrs Beti Roberts, 25 Rhydfaadog, ddiolch i'w theulu, ffrindiau a chymdogion am y cardiau a galwadau ffôn tra yn Ysbyty Llandudno mis Mai ac ar ôl dod adref.

DIOLCH. Hoffwn ddiolch i'm teulu, ffrindiau a chymdogion am y cardiau, anrhegion, arian a galwadau ffôn a gefais ar fy mhen-blwydd ym mis Mehefin. Hefyd i Gwen ac Eileen am drefnu'r *Surprise Party* a gefais gyda phlant yr ysgol Sul. Unwaith eto, diolch o galon. Rhianwen Jones

DIOLCH. Dymuna teulu y diweddar Clifford Wiliams, Fferm Penbwlch, Mynydd Llandegai, ddiolch am bob arwydd o gydymdeimlad a ddangoswyd tuag atynt yn eu profedigaeth o golli un annwyl iawn. Casglwyd y swm anrhydeddus o £1,320 tuag at Ymchwil Cancr.

MARIE CURIE. Casglwyd £43 tuag at yr elusen Marie Curie yn Hafod Oleu a'r Bwthyn ym mis Mehefin. Diolch i bawb a gyfrannodd.

RAS YR WYDDFA. Llongyfarchiadau i bawb o'r ardal a gymerodd ran yn y ras eleni, a gorffen! Dipyn o gamp! a'r cannoedd eraill a gymerodd ran.

CANLYNIADAU ARHOLIADAU. Llongyfarchidau i bawb o'r ardal a dderbyniodd ganlyniadau arholiadau yn ddiweddar, a dymuniadau gorau i'r dyfodol.

SALWCH. Da iawn yw gweld Aerwyn Williams, Hafod Olau yn gwella yn dilyn salwch diweddar, a dymuniadau gorau i bawb arall o'r ardal sydd wedi bod yn cwyno yn ddiweddar.

CRONFA YMDDIRIEDOLAETH DEINIOLEN. Cyfarfu aelodau'r gronfa ar 16 Gorffennaf 2001. Derbyniwyd 5 cais am gymorth a dyfarnwyd y cyfraniadau fel a ganlyn: Clwb Snwcer Deiniolen: £200; Merched y Wawr: £250; Eisteddfod Gwaun Gynfi: £250; Clwb Pêl-droed Ieuenctid Deiniolen: £300; Seindorf Deiniolen: £300.

LANSIO LLYFR. Ar nos Fercher, 19 Medi, am 7.00 caiff y llyfr *Gwynfyd Gwaun Gynfi* ei lansio yn Eglwys Llandinorwig. Llyfr sy'n croniclo yn llawn 150 mlynedd Eglwys Crist Llandinorwig ydyw a'r awdur yw'r Canon Idris Thomas, Trefor. Mae dros ddau gant o dudalennau yn y llyfr a nifer o luniau. Sonnir am sefydlu'r Achos yn Neiniolen, yr holl Ficeriaid, Curadiaid, yr Offeiriaid a godwyd yn yr Eglwys, yr Organyddion, cyfnodau y ddau Ryfel Byd, hynt a helynt bywyd yr Eglwys, atgofion gan lawer a llawer mwy. Pris y llyfr fydd £10 a bydd yn gofiant i'w drysori am 150 mlynedd yn hanes difyr a diddorol Eglwys Llandinorwig.

Cyhoeddir y llyfr gan Wasg y Bwthyn, Caernarfon, a Swyddog Golygyddol y wasg, sef Geraint Lloyd Owen, fydd yn llywio'r noson lansio gyda Band Deiniolen yn brsennol. Bydd amryw yn darllen detholiadau o'r llyfr, a chyflwynir y copi cyntaf i'r awdur gan Esgob Bangor a bydd paned ar y diwedd. Croesewir pawb i'r noson. Dewch oll i gefnogi, bydd yn noson i'w chofio.

CYDMDEIMLO. Anfonwn ein cofion at Gillian, Barry, Iwan ac Anest, Stad Hafod, Clwt y Bont, a gollodd Fam a Nain yn ddiweddar.

LLWYDDIANT TEULUOL. Llongyfarchiadau i'r teulu James, Rhes Faenol, ar eu llwyddiant diweddar yn ras gyntaf y Great Wales Run. Daeth Rhys yn gyntaf yn y ras 2k i blant dan 11, ac Elin ac Owain yn gorffen mewn safleoedd derbyniol iawn yn y ras i bobl ifanc dan 15 oed. I wneud yn siŵr nad oedd y plant yn cael y clod i gyd fe gymerodd eu mam, Wendy, ran yn y ras fawr 10k.

TRIP YSGOL FEITHRIN. Aeth plant yr Ysgol Feithrin i'r Gelli Gyffwrdd eleni ar eu trip blynyddol. Cafwyd diwrnod yn llawn hwyl, er gwaetha'r glaw!

TRIP YSGOL SUL. Aeth plant Ysgol Sul Ebeneser i Gullivers' World, ger Warrington, eleni, ble cafwyd diwrnod hwyliog iawn. Mae'r Ysgol Sul yn ailddechrau ar 9 Medi am 10.15 y bore, ac estynnir croeso cynnes i bawb.

CYSTADLEUAETH PÊL-DROED YR ECO. Llongyfarchiadau i ddau dîm y pentref a wnaeth mor dda yn y gystadleuaeth i blant dan 9 oed ar ddechrau'r haf. Er gwaethaf y tywydd gwlyb, cafwyd perfformiadau da iawn, gyda Thîm B yn cyrraedd y rownd gyn-derfynol a'r Thîm A yn curo'r gystadleuaeth.

Llongyfarchiadau mawr i dimau'r oedrannau eraill a gymerodd ran hefyd, ac i'r rhai a fu mewn cystadlaethau eraill yn ddiweddar.

'Teulu o redwyr' sef Elin, Owain a Rhys.

Y CLWB PÊL-DROED. Rydym yn falch iawn o weld y clwb wedi ei atgyfodi yn ddiweddar. Wedi tymor cyfan heb bêl-droed ar bnawn Sadwrn ar y Bwthyn, mi fydd tîm o'r pentref yn cystadlu yng Nghynghrair 2 Caernarfon a'r Cylch yn ystod tymor 2007/08.

Mae'r hogiau angen cefnogaeth y pentref yn ystod y tymor. Diffyg cefnogaeth oedd y rheswm dros beidio â chystadlu y tymor dwytha, felly mae angen i'r pentref ddangos eu cefnogaeth drwy ddod i wylio'r gemau ac mewn unrhyw ffyrdd eraill dros y tymor newydd. Pob llwyddiant iddynt.

Cofiwch ymweld â safle we'r clwb, a sefydlwyd yn ddiweddear i gael yr hanes diweddaraf, sef www.cpddeiniolenfc.co.uk

CYMDEITHAS GOLFF DEINIOLEN. Braf iawn yw gweld sefydlu'r gymdeithas yma yn ddiweddar. Mae prysurdeb nifer o unigolion i'w sefydlu i'w ganmol ac mae'n dangos bod egni a brwdfrydedd yn y pentref. Pob llwyddiant i'r aelodau i'r dyfodol.

CLWB WU SHU KWAN. Mi fydd dosbarthiadau dysgu Bocsio Tseineaidd yn cychwyn yn Ysgol Dinorwig ar 28 Medi, rhwng 7.00 a 9.00 o'r gloch. Maent yn cael eu cynnal gan John Jones, ac mae croeso i unrhyw un dros 8 oed fynychu. Cysylltwch â John ar 871694 i drefnu.

CYMDEITHAS UNDEBOL DEINIOLEN.

Cynhelir cyfarfod cyntaf y tymor, nos Fawrth 25ain o Fedi, 2007. Cawn ein diddanu gan Sian ac Emyr Gibson a mae rhaglen amrywiol wedi ei threfnu inni. Croeso cynnes i bawb.

Am Offer Tŷ a Gardd...

FORMAG

41A STRYD FAWR, LLANBERIS
Ffôn: **(01286) 872501**

Hywel Williams
Aelod Seneddol

Alun Ffred Jones
Aelod Cynulliad

Etholaeth Caernarfon

CYMORTHFEYDD

Os oes gennych fater yr hoffech ei drafod gyda'r A.S. neu'r A.C. mewn cymhorthfa, ffoniwch **01286 672076** i wneud apwyntiad

neu

ysgrifennwch atynt:

Swyddfa Etholaeth
8, Stryd y Castell, Caernarfon LL55 1SE

neu

e-bost: **williamsgw@parliment.uk**

NANT PERIS

Llinos Jones, 6 Nant Ffynnon. Ffôn: (01286) 871820

NOSON ARWERTHIANT. Nos Wener, 14 Medi, am 6.30 o'r gloch yn Festri Capel Coch, Llanberis, cynhelir Noson Goffi gyda stondinau llyfrau, bric a brac, tombola, cacennau ac amryw gystadlaethau.

Bydd yr elw i'w rannu rhwng Ymgyrch Cristnogol Sierra Leone a Chynllun Efe (Efengyl Dros Fro Eco'r Wyddfa) – i gael gweithiwr ieuenctid Cristnogol i'r ardal.

Croeso cynnes i bawb o'r ardal.

DYMUNA holl deulu'r diweddar Nancy Closs Williams, Tan y Bryn, ddiolch yn ddiffuant am yr holl garedigrwydd a phob arwydd o gydymdeimlad tuag atynt yn eu profedigaeth o golli Mam mor annwyl.

Diolch am y llythyrau, y cardiau a'r arian tuag at eglwys St. Peris. Diolch yn arbennig i'r Parchedig Robert Townsend, i Iwan am chwarae'r organ ac i Gwynfor am y trefniadau gofalus.

Diolch i staff Cerrig yr Afon am y gofal arbennig a gafodd Mam ganddynt. Diolch o galon i bawb.

Er Cof am Nain

Ar ran y teulu mi hoffwn ddiolch i bawb sydd wedi dod yma heddiw i dalu eu terynged olaf i Nain, ac am yr holl eiriau caredig tuag atom ni fel teulu.

Ganwyd Nain yn y flwyddyn 1916, yn ystod y Rhyfel Byd Cyntaf, yn un o 5 o blant i Owen a Jane Closs, 4 Tan y Bryn, Nant Peris. Pan oedd hi ond megis deg oed, cafodd golled enfawr, bu farw ei brawd, Tommy, yn bymtheg mlwydd oed. Yn fuan wedyn, prin ddeunaw mis, bu farw ei mam, Jane Closs. Er coffadwriaeth am ei briod a'i fab, adeiladodd Owen Closs, fy hen daid, glwyd y fynwent o flaen Eglwys Sant Peris ac yn y flwyddyn 1929 agorodd Nain y glwyd yn swyddogol.

Roedd fy Nain yn agos iawn at ei thad, ac ar ôl i'w chwaer hynaf, Anti Maggie, briodi a gadael cartref, hi oedd yn gyfrifol am edrych ar ôl y teulu, sef ei thad a'i chwaer fach, Anti Gaynor. Priododd, pan oedd yn ddeunaw oed, efo William John Williams, ac mi gafodd o groeso mawr gan Owen Closs ac Anti Gaynor pan ymunodd â'r teulu yn rhif 4 Tan y Bryn.

Chwarelwr, fel fy hen daid, oedd William, fy nhaid, a chafodd ef a Nain saith o blant – tri mab a phedair merch. Erbyn hyn, roeddent wedi symud i dŷ mwy, i 1 Tan y Bryn.

Roedd Nain yn byw i'w theulu, ac er iddi gael bywyd eitha caled, gyda'r arian yn brin gan amlaf, cafodd fywyd llawn a hapus iawn. Roedd wastad yn dweud pa mor lwcus oedd hi o gael gŵr mor ffeind â William.

Roedd Nain yn unigryw. Roedd hi wastad yn rhoi pawb arall o'i blaen ei hun ac roedd yn hynod o groesawgar. Roedd y tŷ wastad yn llawn o blant y pentref ac roedd ei chalon yn llawn cariad. Yn fwy na hyn, efallai, roedd ganddi *sense of humour*, y gallu i chwerthin, ac roedd hyn ar ei amlycaf yng nghwmni'r ifanc. Roedd hi wrth ei bodd efo plant a phobl ifanc ac mi dorrodd hi a Taid eu calonnau pan gollon ni Graeme.

Ar ôl i Taid farw, symudodd Nain i fyw i Newton Street, Llanberis, cyn colli ei hiechyd ei hun a mynd adref yn ôl i Dan y Bryn. Treuliodd ei blynyddoedd olaf dan ofal tyner a charedig staff Cerrig yr Afon, y Felinheli. Roedd hi'n ymfalchïo yn ei theulu, ei phlant a'u plant hwythau, ac roedden ninnau wrth ein boddau efo hi.

Ar garref fedd fy hen daid, Owen Closs, mae'r geiriau hyn:

'Hyn a allodd hwn
Efe a'i gwnaeth.'

Ac mae'r geiriau hyn yr un mor wir am Nain.

LLONGYFARCHIADAU i Caron Jones ar ennill Gradd M.Phys. gydag Anrhydedd ym Mhrifysgol Manceinion. Pob lwc i ti,Caron, i'r dyfodol.

DYMUNA Caron Jones ddiolch i'w deulu a'i ffrindiau am yr holl gardiau ac anrhegion yn dilyn ei lwyddiant ym Mhrifysgol Manceinion.

CLWB CANT EGLWYS SANT PERIS. Enillwyr Gorffennaf oedd: £25: Rhian Pritchard, Nant Peris; £10: Gaynor Jones, Llanberis; £5: Helen Roberts, Llundain.

DYMUNA Wendy Jones ddiolch i'w theulu a'i ffrindiau oll am y cardiau, yr anrhegion a'r parti bendigedig yn Ty'n Llan i ddathlu ei phen-blwydd yn drigain oed. 'Cefais ddiwrnod bythgofiadwy. Diolch o galon.'

TAITH NODDEDIG. Ar 4 Mehefin, aeth criw dewr o ffrindiau Ty'n Llan ar daith noddedig i fyny'r Wyddfa i godi arian ar gyfer achos Clefyd MotorNeurone.

Mae Anne Cymberton a'i chyfeillion eisoes wedi casglu dros £3,000 at yr achos hwn ac yn ddiolchgar iawn i bawb am eu cyfraniad a'u cefnogaeth. Gobeithia'r criw barhau i godi mwy o arian tan ddiwedd y flwyddyn.

Os hoffech gyfrannu cysylltwch ag Anne, (01286 870 284).

Amgueddfa Lechi Cymru

O'r Graig i'r To

Lansiad arddangosfa newydd yn Amgueddfa Lechi Cymru Llanberis

Lansiwyd arddangosfa newydd yn Amgueddfa Lechi Llanberis ar 18 Gorffennaf 2007. Mae'r arddangosfa – **O'r Graig i'r To** – yn dilyn taith y lechen o'r graig wreiddiol i'w chartref gorffenedig ar doau'r byd, ac mae wedi'u ffurfio o gyfres o ffotograffau a chreiriau wedi'u cymryd o gasgliadau archifau cenedlaethol a phersonol.

Esboniodd Cadeirydd yr arddangofa, Tudur Jones, ymhellach:

'Mae'r arddangosfa yn cychwyn gyda'r broses chwarelyddol ac yn dangos rhai o'r dulliau gwahanol sydd wedi'u defnyddio mewn gwahanol ardaloedd dros y blynyddoedd, o bonciau anferth Chwareli Dinorwig i grombil y ddaear yn ardaloedd Blaenau Ffestiniog, er enghraifft. Mae nifer o wrthrychau diddorol i'w gweld hefyd, fel yr injan dyllu 'Kellow', sef dril pwerus a ddyfeisiwyd gan Moses Kellow – rheolwr yn Chwarel Croesor o 1893 i 1930. Roedd yn defnyddio grym dŵr i dyllu'r graig ar gyfer ffrwydron, ac roedd yn llawer llai niweidiol i iechyd y Chwarelwyr na'r injan dyllu oherwydd bod y dŵr yn

cael ei yrru drwy'r ebill i glirio'r gwastraff a gâi ei greu wrth wneud y twll – golygai hyn bod llai o lwch yn yr awyr.

'Mae nifer o eitemau eraill i'w gweld hefyd, megis tocynnau trenau, offer iechyd a diogelwch ac hefyd fodel o Gwalia, a wnaethpwyd rai blynyddoedd yn ôl nawr gan Mr W. T. Roberts – cyn-Chwarelwr yma yn yr Amgueddfa.'

Mae ail ran yr arddangosfa wedi'i ffurfio o ffotograffau a gasglwyd gan yr amgueddfa yn sgil apêl i bapurau bro Cymru yn gynharch yn y flwyddyn.

Injan dyllu 'Kellow', sef dril pwerus a ddyfeisiwyd gan Moses Kellow.



LLEUFER O. ac N. PRITCHARD
CANOLFAN CARPEDI

WAUNFAWR

Ffôn/Ffacs: (01286) 650291

Ar Agor
9-7 pm
9-5 pm Sadwrn
Ar Gau
Sul a Mercher

Dewis eang o Welyau a *3P/Suites.*
Llenni *Venetian* a Llenni *Roler.*
5,000 llathen sgwâr o garpedi mewn stoc – allwch chi fforddio prynu o batrymau?

GLANHAU CARPEDI GYDA STIMVAK

Cloriannu Canrifoedd o Ferched Cymru

Marged uch Ifan, Betsi Cadwaladr, Catrin o Ferain... enwau sy'n gyfarwydd i'r rhelyw ohonom hwyrach, ond faint wyddwn ni am yr unigolion hynny yn fwy na'u henwau?

Bwriad y gyfrol newydd, *Merched Gwyllt Cymru / Wild Welsh Women* (Gwasg Gwynedd, £7.95) yw darparu cyfeirlyfr cynhwysfawr ond diddorol, sy'n rhoi'r cyfle i ganfod rhagor am rai o ferched mwyaf blaengar a beiddgar ein hanes, ac i wneud hynny naill ai yn y Gymraeg neu'r Saesneg, gan fod y testun wedi ei osod ochr yn ochr yn y ddwy iaith.



Faint wyddoch chi mewn gwirionedd am Buddug, Siwan, Nest a Gwenllian? Glywsoch chi erioed am Farged uch Ifan, rhwyfwraig Llyn Padarn, oedd yn reslo'n llwyddiannus yn erbyn dynion a hithau yn ei 70au? A beth am y bardd 'masweddus', Gwerfyl Mechain, a Mary Lewis, y lleidr o Langelynnin

Dyma gyfrol sy'n crynhoi hanesion merched o Gymru a lwyddodd i dorri'r mowld, i dorri'r rheolau – merched drwg yn ogystal ag arwresau ac ambell santes. Ond maen nhw i gyd yn ferched â bywydau hynod ddifyr!

Merched Gwyllt Dyffryn Peris

Wedi darllen llyfr diddorol Beryl H. Griffiths, *Merched Gwyllt Cymru*, fe ddaeth hanes tair merch go adnabyddus o Ddyffryn Peris i'm cof. Hwyrach nad oedd dwy o'r rhain yn wyllt, ond roeddent yn wahanol iawn.

Mae'r llyfr yn sôn am Farged a gafodd ei geni a'i magu yn Llwyn y Forwyn, ar lan Llyn Dywarchen ac mae un hanes amdani sy'n dod â gwên pob tro y clywaf hi.

Un prynhawn Llun y Pasg fe fu angen i Marged rwyfo cwch etifedd y Faenol – bachgen un ar hugain oed oedd yn meddwl ei fod yn berchen ar bawb a phopeth yn Nyffryn Peris. Gyda'r sefyllfa fel roedd hi yn yr oes honno nid oedd wedi cael ei wrthod ar unrhyw achlysur. Ond, pan roddodd ei ddwylo mewn man nad oedd wedi cael caniatád gan Marged, fe'i cafodd ei hun yn nyfroedd oer Llyn Padarn mewn llai o amser na chwincied chwanen. Ac, fel y gwyddoch, nid yw'r llyn yn lle braf i ddrochi ynddo ym mis Ebrill. I ddychwelyd i'r cwch bu raid iddo dalu hanner sofren, a gaddo ar ei lw ei fod am fihafio wedyn.

* * *

Un arall oedd Catrin Tomos, neu ar lafar gwlad, Cadi Cwmglas. Roedd yn chwaer i Abram Williams, sef Bardd Du Eryri, ac roedd eu cartref yng nghanol Bwlch Gorffwysfa, neu fel y'i gelwir heddiw, Bwlch Llanberis, oddeutu ganllath yn is na Phont y Gromlech.

Dynes fer a locsyn trwchus ganddi oedd Cadi, a gwisgai bob amser yn yr hen ddull Cymreig. Ond ei hynodrwydd mwyaf oedd ei llais. Roedd fel corn niwl, neu fel y disgrifiodd un hen fachgen ef flynyddoedd yn ddiweddarach, 'fel corn niwl y Mauritania'. Roedd yn dispedain trwy greigiau Bwlch y Saethau a Chwm Glas pan fyddai Cadi yn annog y defaid a'r geifr i ddod i lwr y cwm. Mae un hanes am Thomas Pennant wedi cael braw aruthrol pan oedd yn crwydro ym mhen pellaf y cwm a Cadi yn gweiddi ar y defaid. Credai fod holl gythreuliaid uffern yn dod ato. Gadawodd y fuchedd hon ar 23 Ionawr 1837 a chladdwyd ei gweddillion, yn ôl ei dymuniad, wrth ochr yr allor yn hen Eglwys Sant Peris.

* * *

Tybed sawl un ohonoch chwi drigolion y Nant a Llanberis a wyddai fod gwrach o'r enw Ganthrig wedi bod yn byw yng nghreigiau Mur Mawr ar Fwlch Llanberis. Yr hanes oedd ei bod yn dwyn plant a'u cuddio mewn ogof yng Nghwm y Wrach cyn eu lladd a'u bwyta. Roedd yn byw yng nghysgod y gromlech a elwir yn Gromlech Ganthrig Bwt, wrth ymyl lle mae Pont Gromlech heddiw.

Fe gafodd ei darganfod gyda phlentyn oedd wedi diflannu gan gi un o'r gweision oedd yn chwilio amdano. Pan ddaeth Ganthrig allan o'i chuddfan fe dorrodd y gwas ei phen gyda chryman. Cafodd ei chladdu yn Tir Coch, Llanberis ac fe gafodd plant Dyffryn Peris lonydd wedyn.

* * *

Stori arall y byddaf yn hoff iawn o feddwl amdani wrth ddreifiio i fyny'r Bwlch yw honno am y ddwy leian, a glywais lawer blwyddyn yn ôl erbyn hyn,

Roedd dwy leian yn mynd i fyny'r Bwlch pan redodd eu car allan o betrol ger Pont Gromlech. Wedi mynd i Lanberis i gael cyflenwad i'r car, doedd dim can i'w gario gan y garej. Cawsant fenthyg pot dan gwely!

Wedi cario'r petrol yn ofalus at y car a dechrau ei roi i mewn pwy ddaeth i lawr y Bwlch yn ei Ostin Sefn ond un o weinidogion y Methodistiaid yn Llanberis. Edrychodd ar y ddwy leian a dywedodd,

'Wel, nid wyf yn meddwl fawr o'ch crefydd chwi, ond diawl, mi rwyf yn edmygu eich ffydd.'

R. Elwyn Griffith

Pwyllgor Merched y Wawr er budd yr Anabl yn Rhanbarth Arfon

Swyddogion y Pwyllgor yn cyflwyno siec o £2,800 i John Hughes, Ward Alaw, Ysbyty Gwynedd. (O'r chwith i'r dde): Glenys Griffiths, John Hughes, Dilys Parry, Mary Wyn Jones, Heulwen Evans a'r Uwch Nyrs, Manon O. Williams.

Problem gyda'ch cyfrifiadur?

Am wasanaeth cyfeillgar i ddatrys a gwella eich cyfrifiadur cysylltwch
â **Gomer Roberts**
Ffôn : **01286 870462**
Symudol : **07962 712368**

Cymorth a hyfforddiant amyneddgar i bob oedran er mwyn i chi fedru mwynhau defnyddio eich cyfrifiadur!

Byddwch yn llawer gwell allan hefo Ni!

AUDI SEAT PORSCHE VOLKSWAGEN
SKODA BMW PEUGEOT FIAT
IMPORTS GERMAN SWEDISH

Y Dewis arall Dibynadwy i Wasanaeth Y Prif Ddeliwr. Beth bynnag rydych yn ei yrru, o Audi i VW...

Shell HELIX
MOT
Ceir Benthyg AM DDIM
Cibyn Ind. Est., Caernarfon, Gwynedd LL55 2BD
(01286) 673559 www.a-v-w.co.uk
AVW Advanced Vehicle Workshop Car Service
BOSCH Service
VOLVO MERCEDES SAAB

SNOWDONIA PARC
WAUNFAWR
•Tŷ Rhydd • Bwyd Cartref • Prydau Plant
• Ystafell Deulu • Cinio Dydd Sul Traddodiadol
• Cerddoriaeth Fyw • Cwrw Go lawn
Ffôn: 650218

BRYNREFAIL

Mrs Lowri Prys Roberts-Williams, Godre'r Coed. Ffôn: 870580

NOSON ARWERTHIANT. Nos Wener, 14 Medi, am 6.30 o'r gloch yn Festri Capel Coch, Llanberis, cynhelir Noson Goffi gyda stondinau llyfrau, bric a brac, tombola, cacennau ac amryw gystadlaethau.

Bydd yr elw i'w rannu rhwng Ymgyrch Cristnogol Sierra Leone a Chynllun Efe (Efengyl Dros Fro Eco'r Wyddfa) – i gael gweithiwr ieuenctid Cristnogol i'r ardal.

Croeso cynnes i bawb o'r ardal.

DIOLCH. Dymuna Amy Lambert, Glandŵr, ddiolch i'w theulu, ei chyfeillion a'i chymdogion am yr holl gardiau, yr anrhegion a'r arian a dderbyniodd yn dilyn ei llwyddiant yn cwblhau ei chwrs gradd yn y coleg ym Manceinion. Diolch yn fawr.

PROFEDIGAETH. Ar 21 Mehefin yng Nghartref Nyrsio Penisarwaun, bu farw Grace Ellen Pritchard, yn 94 mlwydd oed, priod y diweddar Elwyn a mam Alwyn a'r ddiweddar Eurwen. Yn enedigol o 'Rallt, yma yn y pentref hefyd y treuliodd y rhan helaethaf o'i hoes, ym Mod Eilian, 5 Minffordd a 3 Ffrwd Madog, cyn symud at ei mab yn ei blynyddoedd olaf.

Bu ei harwyl yn Eglwys y Santes Helen, Penisarwaun, ddydd Mercher, 27 Mehefin, ac yn dilyn ym mynwent yr Eglwys. Cydymdeimlwn yn ddwys ag Alwyn a'r teulu ym Mlaenau Ffestiniog a'r cysylltiadau oll yma ym Mrynrefail.

YN YR YSBYTY. Dymunwn wellhad buan i Helen Maud Jones, 5 Trem Eilian, sydd wedi bod dan ofal dwys yn Ysbyty Gwynedd. Da deall ei bod yn gwella yn raddol y dyddiau hyn. Gobeithiwn y bydd yn cryfhau yn fuan i gael dychwelyd gartref.

LLONGYFARCHIADAU i Rhian George, Sŵn yr Engan; Caryl ac Awen Jones, Na Nog; Ceri Jones, 9 Trem Eilian; Huw Roberts, Tai Orwig a Bethan Williams, Meini Gleision, ar eu llwyddiant yn eu harholiadau TGAU. Pob dymuniad da i'r dyfodol.

YR EGLWYS BRESBYTERAIDD.

Y GYMDEITHAS. Nos Iau, 12 Gorffennaf, cynhaliwyd cyfarfod o'r Gymdeithas yn y Ganolfan. Llywyddwyd y noson gan Lowri Roberts Williams a chafwyd myfyrdod agoriadol pwrpasol o dan ei harweiniad. Yn dilyn, croesawyd y siaradwr gwadd, sef yr Archdderwydd Selwyn Iolen, Penisarwaun. Cafwyd darlith ganddo ar gymeriadau diddorol hen ac ieuanc. Roedd hyn yn adlewyrchu y cysylltiadau lleol, addysgol ac eisteddfodol fu ganddo dros nifer o flynyddoedd.

Diolchwyd yn gynnes iddo gan y Cadeirydd a, thros Iuniaeth a baratowyd gan Bethan Lambert a Dwynwen Williams, cafwyd cyfle i nifer o'r aelodau hefyd ddangos eu gwerthfawrogiad.

Bydd y cyfarfod nesaf nos Iau, 13 Medi, pryd y disgwylir Anna Jane Evans, Caernarfon, i roi sgwrs yn gysylltiedig ag Apêl 2007 yr Elgwys Bresbyteraidd i dlodion Sierra Leone.

OEDFAON MEDI/ Cynhelir yn oll o'r oedfaon am 5.30 yr hwyr.

2: Parchg Dafydd Lloyd Hughes, Caernarfon;
9: Parchg Marcus Wyn Robinson, Bethel
16: Mr Merfyn Jones, Caernarfon, Gweinyddir y Sacrament o Swper yr Arglwydd;
23: Parchg Eric Jones, Bangor;
30: Parchg Reuben Roberts, Bontnewydd.

CWM Y GLO

Mrs Iris Rowlands, Glanrafon. Ffôn: (01286) 872275

NOSON ARWERTHIANT. Nos Wener, 14 Medi, am 6.30 o'r gloch yn Festri Capel Coch, Llanberis, cynhelir Noson Goffi gyda stondinau llyfrau, bric a brac, tombola, cacennau ac amryw gystadlaethau.

Bydd yr elw i'w rannu rhwng Ymgyrch Cristnogol Sierra Leone a Chynllun Efe (Efengyl Dros Fro Eco'r Wyddfa) – i gael gweithiwr ieuenctid Cristnogol i'r ardal.

Croeso cynnes i bawb o'r ardal.

MARWOLAETH. Yn dawel dydd Iau, 9 Awst, yn Ysbyty Eryri, Caernarfon, bu farw Mrs Hannah Mary Roberts, 1 Bryn Gro, yn 96 mlwydd oed. Treuliodd Mrs Roberts ei phlentyndod cynnar yn Lerpwl ac yna dychwelyd i'r Cwm a chartrefu gyda'i thaid a nain. Ar ôl gadael yr ysgol aeth i weithio i Gartref Henoed yn Llandudno. Wedi priodi â Mr Emrys Hughes, ymgartrefodd y ddau yng Nghlwt-y-Bont. Daethant yn ôl i fyw i'r Cwm ond bregus iawn oedd iechyd Mr Hughes a bu farw. Aeth Mrs Roberts i weithio am flynyddoedd wedyn i Gartref Henoed Maesincla, Caernarfon, ac yna i Westy Victoria, Llanberis. Priododd gyda Mr Richard Roberts, a adnabyddid fel 'Dick Lein' gan iddo weithio ar y rheilffyrdd. Arferai'r ddau fynd ben bore yn ystod tymor yr haf: Mrs Roberts i Westy Victoria a Mr Roberts i Lein y Wyddfa, gan mai ei waith oedd gofalu am Stesion Hebron. Bu farw Mr Roberts yn 1989.

Wedi ymddeol aeth Mrs Roberts i weithio yn wirfoddol i siop Dr Barnado, Caernarfon, lle y derbyniodd fathodyn o werthfawrogiad am ei gwaith am dros ddeng mlynedd. Bu'n aelod ffyddlon yn Eglwys Sant Gabriel.

Bu ei llys-ferched yn gofalu amdani nes iddi ymgartrefu ym Mhlas Pen Gwaith, Llanberis. Cynhaliwyd ei hangladd yn Amlosgfa Bangor ddydd Llun, 20 Awst, gyda Mr Derek Jones yn gwasnaethu. Estynnwn ein cymdeimlad â'r teulu yn eu profedigaeth a'u hiraeth.

ADREF O'R YSBYTY. Anfonwn ein cofion, gan ddymuno gwellhad buan, i Mrs Elizabeth Hughes, 17 Dôl Afon, ar ôl derbyn triniaeth lawfeddygol yn Ysbyty Gobowen.

LLONGYFARCHIADAU i Cathrine ac Elwyn Foulkes, Rhes Bryn, ar enedigaeth wyres fach, Emma Louise, merch David a Dawn a chwaer fach i Liam ac Adam. Llongyfarchiadau i'r ddau hefyd ar achlysur dathlu eu Priodas Ruddem.

GENEDIGAETH.

Llongyfarchiadau a phob dymuniad da i Karrah ac Andrew, Aran, Stryd Llyn, ar enedigaeth eu mab bach, Ceirion.

PENISARWAUN

Mrs Ann Evans, Sycharth. Ffôn: (01286) 872407

NOSON ARWERTHIANT. Nos Wener, 14 Medi, am 6.30 o'r gloch yn Festri Capel Coch, Llanberis, cynhelir Noson Goffi gyda stondinau llyfrau, bric a brac, tombola, cacennau ac amryw gystadlaethau.

Bydd yr elw i'w rannu rhwng Ymgyrch Cristnogol Sierra Leone a Chynllun Efe (Efengyl Dros Fro Eco'r Wyddfa) – i gael gweithiwr ieuenctid Cristnogol i'r ardal.

Croeso cynnes i bawb o'r ardal.

YR YSGOL GYMUNED. Dymunir pob llwyddiant i'r rhai sy'n trosglwyddo i'r Ysgol Uwchradd a chroesewir y newydd-ddyfodiaid yn gynnes i'n plith, gan obeithio y byddant yn setlo'n fuan iawn.

PWYLLGOR NEUADD. Tynnwyd Clwb Cant Gorffennaf ac Awst. Dyma'r enillwyr lwcus:

Gorffennaf: Megan Jones, Perthi; Dafydd Williams, Meini Gleision; Elinor Jones, Gwyrfai, 2 Bron y Waen.

Awst: Osian Dafydd, Caernarfon; Ron Hughes, 1 Bryn Hyfryd; Eurgain Haf, Rhiwen, Pontypridd.

Gobeithir trefnu gweithgareddau ar gyfer tymor y gaeaf a hyderir y ceir yr un gefnogaeth ac arfer.

YSGOL SUL BOSRA. Fe fwynhaodd nifer o aelodau eu hymweliad â Gelli Gyffwrdd ddydd Sadwrn, 7 Gorffennaf. Bu'n ddiwrnod addysgiadol a chofiadwy dros ben. Bydd yr Ysgol Sul yn ailddechrau fore Sul, 9 Medi, am 10.00 o'r gloch.

GWIBDAITH I'R WYBRNANT. Dydd Sadwrn, 15 Medi, trefnir gwibdaith i Tŷ Mawr, Wybrnant, ym Mhenmachno i ymweld â chartref yr Esgob William Morgan. Bydd cyfle i gael picnic cyn symud ymlaen i'r Bala, ble gobeithir cael ymweld â Chapel Tegid a gweld cofgolofn Thomos Charles. Os yn bosibl ceir cyfle i ymweld â thref y Bala a chael pryd o fwyd cyn dychwelyd adref.

Mae croeso i unrhyw un sydd â diddordeb ymuno â ni. Cost y trip yw £10 i oedolion; £5 i blant nad ydynt yn aelod o Ysgol Sul Bosra. Trefnir raffl ar y bws a chyflwynir yr elw at Apêl y Capel. Enwau rhag blaen i Liz Jones (872421) neu Ann Ifans (872407).

APÊL Y CAPEL. Sadwrn y Carnifal, 14 Gorffennaf, gwnaed elw da drwy werthu nwyddau am £1 neu 50c y ticed. Roedd gwobr felly i bawb.

Diolchir i Mrs Jones, Marian, a Bethan, Cae Corniog, am eu gwaith caled yn paratoi'r nwyddau ar fyfer y byrddau gwerthu. Diolchir i'r Pwyllgor a gyfrannodd ac i bawb a gefnogodd y weithgaredd hon.

LLONGYFARCHIADAU i Sioned Wyn Jones, 17 Bryn Tirion, ar gael ei hethol yn Ddirprwy Brifathrawes Ysgol y Wern, Y Felinheli. Da iawn chdi, Sioned, a phob dymuniad da i ti.

EISTEDDFOD GENEDLAETHOL

Bu Eisteddfod Fflint a'r Cyffiniau yn un i'w chofio i Lois Eifion a Siôn Elwyn o Fethel. Cipiodd y ddau y wobr gyntaf gyda'u *ensemble* canmoladwy ar y piano. Hysbys y dengys y ddau o ba radd y bo'u gwreiddiau!

LLONGYFARCHIADAU hefyd i Urien Deiniol, Bryn Eglwys, ar ddathlu ei ben-blwydd yn un ar hugain yn ddiweddar ac am ei lwyddiant yng Ngholeg y Drindod, gan ennill Gradd Anrhydedd 2.1 a Gwobr Stuart Burrows. Pob dymuniad da yn dy swydd newydd gyda'r BBC.

ARHOLIADAU. Llongyfarchiadau mawr i bob un ohonoch ar eich llwyddiannau yn yr amrywiol arholiadau a phob dymuniad da i bawb fydd yn mynd i'r chweched, i'r coleg, neu'n cychwyn mewn swydd newydd.

SIOEAU. Yn flynyddol daw llwyddiannau di-ri i'r pentref hwn ym mhrif sioeau amaethyddol Cymru. Llongyferchir Michael a Siôn Jones, Tyddyn Perthi ar eu llwyddiant ysgubol gyda'r Gwartheg Du Cymreig ac i Dilwyn Green gyda'i ieir.

POB LWC. Dymunir pob bendith i Dafydd Du a Rhianydd ar eu priodas yn ne Cymru; i Huw Tegid

JOHN EIFION
a
Chôr y Brythoniaid
Ysgol Brynrefail
14 Medi
am 7.30 yr hwyr
Tocynnau: **£4;** Plant: **£2**
Raffl £1.00: nifer o wobrau
Elw at Apêl Capel Bosra

Pryd i Bawb
Bwffe blasus o safon at bob achlysur
Priodas
Parti
Te Angladdau
Cinio Busnes
CERID MACKINNON
Plas Tirion, Llanrug, Caernarfon, Gwynedd LL55 4PY
(01286) 673190

ac Eirian ar Ynys Môn ac i Tracey a Terry, Deiniolen.

GWELLHAD. Anfonir ein cofion cynhesaf at bawb sydd yn sâl neu wedi derbyn triniaeth yn yr ysbyty. Brysiwch wella i gyd. Efallai y cawn Ha' Bach Mihangel i godi eich calon. Gobeithio wir, ar ôl haf mor wlyb!

CARNIFAL: 9–19 Gorffennaf. Bu'r Bingo, yr Yrfa Chwist, y Mabolgampau, y Disgo a'r Helfa Drysor yn llwyddiant mawr.

Dydd Sadwrn y Carnifal, fe fentrodd yr haul allan a sicrhau diwrnod cynnes a difyr i bawb. Cychwynnodd yr orymdaith o'r Cartref Nyrsio am 1.30 gyda Seindorf Arian Deiniolen yn arwain. Coronwyd Cerin Willims yn frenhines y Carnifal a chafwyd arddangosfa arbennig gan John Lynn's Black Belt Academi', Caernarfon.

Arweinydd y Carnifal oedd Mr Arwel Jones a'r Beirniaid oedd Mr a Mrs Huw Davies, Hendre, ac aelod amlwg o'r gyfres deledu boblogaidd *Rownd a Rownd*. Diolchir i bawb a drefnodd, a gyfrannodd mewn unrhyw fodd ac a gefnogodd yr holl weithgareddau a'r Carnifal. Edrychir ymlaen am fwrlwm y Carnifal eto y flwyddyn nesaf.

I gloi'r wythnos, nos Sul, 15 Gorffennaf, cafwyd Cymanfa Ganu fywiog yn Eglwys Santes Helen am 6.30 dan arweiniad Arwel Jones. Cymerwyd rhan gan y Parchg Tegid Roberts, Dr William Munro, yr Organydd, ac eitemau clodwiw gan Côr yr Ysgol Gymuned a Chôr Meibion Dyffryn Nantlle.

Dymuna'r Pwyllgor ddiolch i bawb am eu cydweithrediad a'u cefnogaeth.

PÊL BONWS LOTERI. Yr enillydd oedd Mrs Elen Williams, 2 Bryn Tirion. Rhif 33. Llongyfarchiadau i chi.

PRIODAS YN YR HAUL. Pob bendith i Arwel Jones, 11 Bryn Tirion, fydd yn priodi â Jemma Orlick o Lanberis ar 29 Awst, a hynny yng ngwres godidog gwlad Groeg. Pob hwyl ar y dathlu i'r ddau deulu a'r ffrindiau.

PRIODAS AUR. Llongyfarchiadau gwresog i John a Mary Hughes, Gwynfryn, Racca, ar ddathlu eu Priodas Aur ar 24 Awst.

SIOE DINBYCH. Llongyfarchiadau i Rhys Griffith, Tros y Waen, gyda'i geffyl gwedd a ddaeth yn ail yn y gystadleuaeth 'Tywysydd Ifanc' yn Sioe Dinbych a Fflint.

'Spice Girls' Penisarwaun.

Jean a Janet, genod rhadlon y Becws.

Cerin Williams, Brenhines y Carnifal.

'Cat in the Hat', sef Kate o Lanrug. Hi hefyd enillodd y cymeriad gorau yn y Carnifal.

CAEATHRO

Clive James, Hafan, Bryn Gwna.
Ffôn: (01286) 679501 (gwaith). 677438 (cartref)

NOSON ARWERTHIANT. Nos Wener, 14 Medi, am 6.30 o'r gloch yn Festri Capel Coch, Llanberis, cynhelir Noson Goffi gyda stondinau llyfrau, bric a brac, tombola, cacennau ac amryw gystadlaethau.

Bydd yr elw i'w rannu rhwng Ymgyrch Cristnogol Sierra Leone a Chynllun Efe (Efengyl Dros Fro Eco'r Wyddfa) – i gael gweithiwr ieuenctid Cristnogol i'r ardal.

Croeso cynnes i bawb o'r ardal.

BARNADOS. Llongyfarchiadau i gwsmeriaid Tafarn Bryngwna am gasglu £135.00 tuag at anghenion plant Barnados.

PRIODAS. Llongyfarchiadau i Debbie a David, 1 Bryn y Gof, ar eu priodas ym mis Mehefin yn Eglwys Llanbeblig. Treuliwyd y mis mêl yn Sbaen.

SEFYDLIAD PRYDEINIG Y GALON. Diolch i bawb sydd wedi cyfrannu cyfanswm o £83.34 i gynorthwyo gwaith y Sefydliad. Diolch hefyd i Vera Roberts am gasglu'r arian.

CYDYMDEIMLWN yn ddwys â Jill Thomas, Stad Glandw^r ar farwolaeth ei mam ddechrau mis Gorffennaf.

BEDYDD. Ar ddydd Sul, 21 Gorffennaf, bedyddiodd y Parchg Trefor Jones, blant Jacqueline a Neil Griffith, sef Leon David, Dylan Cadwaladr a Lili Mai.

TYNFA MISOL. Enillwyr diweddaraf Tynfa Cymdeithas Cae Chwarae Caeathro oedd:

Gorffennaf: £40: (10) Dafydd Morris, Frondeg; £25: (96) Norman Evans, Llecyn Clyd; £15: (22) Leti Williams, 'Refail; £5: (90) Vernon ac Yvonne Jones, Gilfach.

Awst: £40: (41) Lora Jones, 18 Tai Glangwna; £25: (75) Mary Jones, Crud yr Awel; £15: (97) Dewi Jones, 13 Erw Wen; £5: (104) Alwyn Jones, Y Dderwen.

MIRI HAF. Yn anffodus, oherwydd y tywydd gwael iawn ym mis Gorffennaf, nid oedd yn bosib cynnal y Miri Haf eleni. Hefyd, yn anffodus, nid oedd dyddiad arall addas ar gael chwaith. Felly, 2008 amdani!

CYDYMDEIMLWN yn ddwys â theulu Plas Glanrafon, yn arbennig Arthur a Moira, ar farwolaeth Mrs Wendy Davies yng nghanol mis Gorffennaf.

PEN-BLWYDD HAPUS i Tim Lloyd, Tyddyn Cae, ar ddathlu ei ben-blwydd yn 40 oed gyda pharti mawr yn yr ysgubor ganol mis Gorffennaf.

GWASANAETHAU'R CAPEL. Cynhelir yr oedfaon canlynol yn ystod gweddill mis Medi:

9: 11.00 Ysgol Sul
16: 11.00 Ysgol Sul
23: 11.00 Ysgol Sul;
2.00 Mr Dafydd Iwan
30: 11.00 Ysgol Sul

COFION. Hoffai Bryn Griffiths, Delfryn, weld y penillion canlynol yn ymddangos yn *Eco'r Wyddfa* er cof am ffrind annwyl, Iolo Huws Roberts, Bodrida, a fu farw Awst 2001. Ysgrifennwyd y penillion ar achlysur arbennig iddo.

Atgofion Hen Chwarelwr

Beth weli di wrth syllu draw dros drum
Yr hen domenydd a'r clogwyni llym
Sy'n lleithio'r hiraeth yn dy lygaid di
Am rywbeth nad yw'n bod i'n golwg ni?

'Fe welaf – pe baent ar gael o hyd –
Hen hogia'r fargan a fu'n llenwi 'myd,
A chlywaf hwyl yr holl ffraethineb gynt
Yn dal i wau ei hud ar frig y gwynt.

Ac wrth im droedio yma linc-di-lonc,
Daw'r hen ysbrydion oll yn ôl i'r bonc
A'r sinc, i chwyddo cyfoeth gŵr y Plas
A'u celfi'n atsain yn y cerrig glas.

A gwelaf 'Harriet' eto yn ei bri
A chriw partneriaeth lew ein bargen ni –
Fy nhad â'i wên uwch cerrig rhywiog hael
Neu'n bwrw'i felltith ar hen glytiau gwael.

Gweld yno gyda llygaid craff y co'
Emlyn a Stan ac Idwal Bach Cwm-Glo,
A John a Sadie eto megis cynt
A harmoni eu cân yn llenwi'r gwynt.

A dyna pam mae'r llygaid braidd yn llaith
Wrth weld segurdod lle bu miri gwaith,
Ac er na welaf neb na chlywed si,
Nid gwag mo'r sinc na'r clogwyn glas i mi.'

IOLO HUWS ROBERTS

ARHOLIADAU TGAU. Llongyfarchiadau i bawb fu'n sefyll arholiadau uwch eleni – sef Kelly, Iolo, Hannah a Caio.

CYMDEITHAS CAE CHWARAE. Cynhelir cyfarfod blynyddol y Gymdeithas am 8.00 yr hwyr nos Lun, 17 Medi, yn Nhafarn Bryngwna. Derbynnir adroddiadau ar gyfer 2006/07. Bydd cyfle hefyd i sefyll am a phleidleisio dros swyddogion ac aelodau'r Pwyllgor yn 2007/08. Mae'r cyfarfod yn agored i holl aelodau'r Tynfa Misol (Clwb 100) ac unrhyw oedolyn arall dors 18 oed yn ardal Caeathro a Rhos-bach. Dewch yn llu!

HEL ACHAU. Mae Glenys Lloyd (Jones gynt) o 4 Granton Close, Formby, yn ceisio darganfod hanes ei theulu. Ganwyd un hen nain iddi, sef Elizabeth Williams, yng Nghaeathro yn 1847. Roedd yn ferch i Robert Williams, crydd a anwyd yn Llanddeiniolen yn 1803, a Catherine Griffiths, a anwyd yn 1811 yn Pant-yr-ychain, Beddgelert. Bu iddynt briodi yn Eglwys Santes Fair, Beddgelert, yn 1834. Symudodd y teulu o Feddgelert i Gaeathro cyn 1851 ac yr oeddynt yn dal i fyw yno yn 1871. Symudodd Elizabeth, un o 9 o blant, i Awstralia lle priododd hi efo William Ellis Williams (o Landwrog) yn Victoria yn 1865. Ganwyd 4 o blant iddynt yn Awstralia a chawsant 5 arall ar ôl dychwelyd i Landwrog yn 1870/71. Pwy sy'n perthyn iddi?

Sychlanhau • Altro
Ailwnïo
Gwasanaeth
Casglu a Danfon
54 Stryd Fawr
Llanberis
Ffôn: **870088**
SWIGOD A SEBON

GWASANAETH GOLCHI A SMWDDIO

Lansio
Gwynfyd Gwaun Gynfi

Ar nos Fercher, 19 Medi, am 7.00 o'r gloch caiff y llyfr *Gwynfyd Gwaun Gynfi* ei lansio yn Eglwys Crist, Llandinorwig, Deiniolen. Yr awdur yw'r Canon Idris Thomas, Trefor, brodor o Ddinorwig. Yn dilyn llwyddiant mawr ei lyfr *Pêl Goch ar y Dŵr*, yn 1999,. sef hanes trasiedi trip Ysgol Sul Eglwys Dinorwig ym Mhwllheli mae *Gwynfyd Gwaun Gynfi* yn ymwneud â chanrif a hanner Eglwys Llandinorwig.

Saif yr eglwys ar erwau Gwaun Gynfi ac, ar 24 Medi mae'n dathlu 150 mlynedd ers ei chysegru ar 24 Medi, 1857.

Mynegodd y Canon Thomas: 'Nid hanes Eglwys yn unig sydd yn y llyfr ond hanes Eglwys a oedd yn rhan annatod o'r gymdeithas a daeth i fodolaeth oherwydd y gymdeithas chwarelyddol.' Yn y llyfr ceir hanes llawn ac anhygoel prysurdeb yr Eglwys, yn grefyddol, diwylliannol, addysgol, cerddorol a chymdeithasol, gyda'r Gymraeg yn flaenaf yn ei gwaith, ei gweinyddiaeth a'i chenhadaeth. Cafodd ardal Deiniolen, yn Eglwys Llandinorwig, offeriaid unigryw a lleygwyr ymroddedig.

Sonnir yn y llyfr am yr ardal cyn codi Eglwys Llandinorwig, yr arloeswyr cynnar, yr holl offeiriaid a'r curadiaid; yr offeiriaid a godwyd yn y plwyf; yr organyddion; cofnodau y ddau Ryfel Byd a cheir atgofion diddorol gan amryw. Ceir lluniau diddorol a chyfarchion barddonol arbennig gan yr Archdderwydd Selwyn Griffith, ymysg eraill.

Mae *Gwynfyd Gwaun Gynfi* yn gofnod difyr a llawn o hanes Eglwys,, ardal a phobl plwyf Llandinoriwg.

Geraint Lloyd Owen, Swyddog Golygyddol Gwasg y Bwthyn fydd yn llywio'r noson a bydd Seindorf Arian Deiniolen yn bresennol. Bydd amryw yn darllen rhannau o'r llyfr a chyflwynir y copi cyntaf i'r awdur gan Esgob Bangor. Bydd y llyfr ar werth am ddeg punt a cheir lluniaeth ysgafn.

Gwasg y Bwthyn yw'r cyhoeddwyr a bydd croeso mawr i bawb yn Eglwys Llandinorwig ar nos Fercher, 19 Medi. Cofiwch ddod.

Diolchir i'r Canon Idris Thomas am ei gymwynas eto yn dod â hanes ei blwyf genedigol i'n sylw.

Wele ddelaf le i addoli – a gaed
Ar gedyrn glogwyni;
Ni wêl iach ei harddach hi
Trwy oror tir Eryri.

YR IAITH AR WAITH

Da gweld bwrdd Llwybr Treftadaeth, wedi ei leoli ar ymyl y Stryd Fawr ym mhentref Llanberis, a'r Gymraeg yn cael sylw haeddiannol arno. Un a fu'n gyfrifol, ac a frwydrodd yn ddygn am flynyddoedd dros sicrháu bod bwrdd hysbys o'r fath ar gael, a hynny hefo cefnogaeth lwyraf yr hen Gyngor Plwyf, ydyw'r cyfaill Bert Parry, Sycharth, un o gymeriadau twymgalon y pentref. Diolch iti Bert 'r hen halen gorau'r ddaear a dŵr, ac eraill, am ofalu bod arwyddion o'r fath bellach yn rhan o'r pentref!

Rhywbeth yn wir ydyw hyn y gallai llawer man arall ei efelychu er mwyn codi ymwybyddiaeth y trigolion ac ymwelwyr o'n treftadaeth werthfawr. Tua diwedd mis Gorffennaf eleni bu i *Eco'r Wyddfa* dynnu llun Bert, yn sefyll wrth ymyl y bwrdd hysbys, ac yn cadw cwmni iddo mae perthynas teuluol, sef gwraig ifanc hynod annwyl, a ddaeth adref ar wyliau hefo'i merch i Lanbêr. Ym Milton Keyes, Lloegar, y mae hi bellach yn byw, ond nid anghofiodd mai un o'r pentref ydyw. Roedd yn werth i chwi glywed yr iaith Gymraeg ystwyth o naturiol a lifai o'i genau.

Yn ystod yr un bore tarawyd ar ymwelydd arall, sef merch hawddgar a arferai fyw ym mhentref Llanbêr, a'r Gymraeg o'i heiddo yn byrlymu oddi ar ei thafod. Collwyd gyfle da i'w ffotograffu hi a'i dwy ferch. Ymddiheurwn yn fawr i chwi am hynny. Roeddem oll welwch chi yn llawer rhy brysur yn siarad a chwerthin yn iach. Yn Antrim Gogledd Iwerddon y mae hi'n byw ar hyn o bryd, a'r plant a'i gŵr yn gefnogol i bopeth a ddigwydd adra'n Llanberis a Chymru. Yn Antrim y mae Cymry Cymraeg a di-Gymraeg sy'n gweithio yno wedi closio at ei gilydd, ac yn cynnal gweithgareddau drwy gyfrwng yr iaith Gymraeg. Clod yn wir ydyw coffáu hynny, a gweld iaith Gymraeg 'hen bentra bach Llanbêr' yn dal ar dir y byw.

CÔR Y WAUN ARWEINYDD CYNORTHWYOL

Mae Côr y Waun yn chwilio am Arweinydd Cynorthwyol i gefnogi'r Arweinydd mewn ymarferion a chyngherddau. Telir cydnabyddiaeth i'r Arweinydd Cynorthwyol.

Os oes gennych ddiddordeb cysylltwch â'r Arweinydd, Mrs Gwenda Griffith,

ar **01286 650347.**

Mae Côr y Waun yn gôr cymysg sy'n cynnwys rhyw 30 o leisiau, mae'n perfformio gweithiau clasurol a modern yn Gymraeg. Ar hyn o bryd mae'r Côr yn dysgu Er Hwylio'r Haul ar gyfer ei berfformio yn gynnar yn 2008.

Byddai'r Côr yn croesawu rhagor o aelodau, ac yn arbennig baswyr, i ymuno yn y gân.

Y BWTHYN TÉ
pen y ceunant isaf
LLWYBR YR WYDDFA LLANBERIS

PEN Y CEUNANT ISAF-
BWTHYN A ADEILADWYD AR WAELODION LLWYBR YR WYDDFA (O LLANBERIS) YN YSTOD Y 18ed. GANRIF CEWCH GROESO ARBENNIG , YMA, YN OGYSTAL A GOLYGFEYDD GWYCH DROS LLYN PADARN A DYFFRYN PERIS

AR AGOR 9am.- 9pm. BOB DYDD DRWY'R FLWYDDYN
DIODYDD GYDA SCON NEU DEISEN (Dim prydiau o gwbwl)
MAN PARCIO O FLAEN Y BWTHYN • YN ADDAS I'R ANABL
Oriel arbennig o luniau Syr Kyffin Williams
a llu o arlunwyr Cymreig eraill
(01286)872606 www.ceunant.co.uk steven@ceunant.co.uk

Silver STAR
GWYLIAU SEREN ARIAN
- PECYNNAU GWYLIAU YM MHRYDAIN, EWROP AC YMHELLACH.
- TEITHIAU I GYNGHERDDAU A THEATRAU.
- TREFNU PECYNNAU GWYLIAU I GRWPIAU A MUDIADAU AM BRISIAU RHESYMOL.
- BWSIAU MODERN A MOETHUS
- GWESTAI O SAFON
- CWMNI TEULUOL
- MANNAU CODI YN CYNNWYS: LLANBERIS, CWM Y GLO A LLANRUG.

Am fwy o fanylion am ein teithiau, ffoniwch ein swyddfa ar y Maes yn Nghaernarfon ar 01286 672333

Gosodwr Teils
Arbenigwr mewn waliau a lloriau
Gwaith bach neu fawr
Gwaith da bob amser
Ffoniwch Lloyd ar
01286 830 805



BWS BACH AR LOG
Bws 22 sedd ar gael ar gyfer pob math o logi preifat – nosweithiau allan, partïon, tripiau ac ati.
Gwasanaeth personol a thelerau rhesymol gan

(01248) 361044
D. P. OWENS RHIWLAS

LLANRUG

Eryl Roberts, 3 Bryn Moelyn. Ffôn: (01286) 675384

SEFYDLIAD COFFA. Enillwyr y Clwb 100 am fisoedd Gorffennaf ac Awst oedd:
£20: Mr A. Parry, Bryn Heli; £7: Mrs M. Williams, 35 Nant y Glyn; £5: Mrs E. Roberts, London House (gynt).
£20: Mrs B. Roberts, Glanfa; £7: Mr K. Evans, 24 Nant y Glyn; £5: Mrs L. Jones, Bryn Eden.

DIOLCHIADAU. Dymuna Mrs Megan Williams, Bron Eryri, ddiolch i bawb a gyfrannodd mewn unrhyw fodd i wneud ei phen-bwydd, yn ddiweddar, mor bleserus. Diolch yn fawr.

LLONGYFARCHIADAU mawr i Dion Siôn Owen, Hafod y Rhos, ar

dderbyn Diploma Cenedlaethol Uwch mewn Technoleg Fecanyddol (H.N.D.) ym mis Gorffennaf.

Hefyd i Meilir Siôn Owen, Hafod y Rhos, ar dderbyn NVQ 2 mewn Gosodwaith Trydan.

Llongyfarchiadau a phob dymuniad da i chi eich dau oddi wrth Dad, Mam, Eluned a'r teulu oll.

LLONGYFARCHIADAU i Morys Williams, Treflan, ar ennill yr ail wobr yn yr Eisteddfod Genedlaethol ar yr Unawd Chwythbrennau dan 16 oed. Y sacsoffôn yw offeryn Morys, ac mae'n aelod o Grŵp Offerynnol Ysgol Tryfan, a ddaeth yn drydydd yn yr Eisteddfod.

DYMUNIADAU GORAU a llongyfarchiadau i holl blant a phobl ifanc yr ardal ar eu canlyniadau ysgol a choleg.

BABIS NEWYDD
Llongyfarchiadau i Trystan a Melanie Parry, Caerdydd, ar enedigaeth Eleri Haf, chwaer fach i Megan, ac i Taid a Nain, sef Myfyr a Wendy Parry, Nant y Glyn; Hefyd i Dylan a Portia Williams, Canterbury (Bryn Moelyn) ar enedigaeth eu mab bach, Nate, brawd i Lucas ac ail ŵyr i Maureen ac Alun;
I Wendy a William, Tanycoed, ar enedigaeth Cadi, chwaer fach i'w thri brawd mawr ac wyres i Richard a Meirwen Thomas (Foelas gynt);
Ac hefyd i David a Sarah, yn Warrington, ar enedigaeth gefeilliaid, Chloe a Sam. Mae Oliver wedi gwirioni, fel mae Taid a Nain, Angela ac Eifion, Nant y Glyn.

NOSON ARWERTHIANT. Nos Wener, 14 Medi, am 6.30 o'r gloch yn Festri Capel Coch, Llanberis, cynhelir Noson Goffi gyda stondinau llyfrau, bric a brac, tombola, cacennau ac amryw gystadlaethau.

Bydd yr elw i'w rannu rhwng Ymgyrch Cristnogol Sierra Leone a Chynllun Efe (Efengyl Dros Fro Eco'r Wyddfa) – i gael gweithiwr ieuenctid Cristnogol i'r ardal.

Croeso cynnes i bawb o'r ardal.

PROFEDIGAETHAU. Estynnwn ein cydymdeimlad diffuant i Gwilym Griffiths, Teras Plastirion, a Megan Jones, Glanffynnon, brawd a chwaer Mrs Bet Williams, Foelas a Llanberis gynt. Bu farw Mrs Williams yn y Foelas ar ôl gofal tyner iawn y staff.

Bu farw Alun Wyn Griffiths, Tan y Fron, Lôn Groes, yn 72 mlwydd oed. Roedd wedi brwydro yn galed yn erbyn ei salwch ac roedd i'w weld o amgylch y pentref ar ei 'buggy' bach trydan wedi i'r coesau beidio â'i gario hyd yr hen lwybrau. Cafodd ofal tyner iawn gan Catherine a'r plant, John, Ken a Carol, a bydd chwith mawr iddynt oll, a'r wyrion a'r teulu i gyd. Derbyniwch ein cydymdeimlad llwyraf.

BRYSIWCH WELLA Mrs Joan Mathers, Brookfield, Ffordd Glanffynnon,ar ôl eich damwain ar y ffordd. Da deall fod Mrs Megan Pritchard, Bryn Moelyn, wedi gwella yn dilyn ei damwain hithau.

MRS ANNIE JONES. *Rhan o deyrnged a roddwyd gan Megan Roberts yng Nghapel Y Bryngwyn, 2 Awst, yn angladd Mrs Jones, Eilionwy, a fu farw ar 29 Awst yn 102 mlwydd oed.*

Annie Wilias fyddai 'nhad yn ei galw ond fel Mrs Inigo Jones y byddai fy mam, gyda'i hacen Seisnigaidd, yn cyfeirio ati. I mi, bron i drigain mlynedd yn ôl, roedd i rywun gael dau enw mor wahanol yn hynod unigryw, os nad yn gymhleth i blentyn bach.

Y tri pheth pwysicaf yn ei bywyd oedd y Cartref, y Capel a'r Coparet. Ar yr aelwyd yn Eilionwy, roedd hi'n berson croesawgar, caredig a chymwynasgar, ac yn y Coop roedd ei sgwrs yn ffraeth a hwyliog.

Bedyddiwyd Mrs Jones yng nghapel Y Bryngwyn yn 1907 a bu yn aelod am dros gan mlynedd. Ni fyddai'n colli'r un oedfa na'r Ysgol Sul a byddai ei llais wrth ganu yn swyno pob pregethwr. Cofiai rif pob emyn yn y *Caniedydd*, cofiai destun a chynnwys pob pregeth ac, oherwydd ei gwybodaeth drylwyr o'r Beibl, byddai ganddi adnod at bob achlysur. Wrth sôn am ei phen-blwydd yn 102 eleni mi ddwedodd wrthyf y diwrnod cynt: 'Nac ymffrostia o'r dydd yfory, canys ni wyddost beth a ddigwydd mewn diwrnod,' ac ar ôl ei thriniaeth ddiweddar yn yr ysbyty dyfynnodd adnod o lyfr Job, 'a hyn hefyd a â heibio,' gan ei gadarnhau yn y Saesneg, '*and this too shall pass*'.

Fel canlyniad i ofal tyner y teulu, y '*carers*', y meddygon, nyrsus a ffrindiau, bu'n ffodus o gael aros yn Eilionwy, ei chartref, bron hyd y dyddiau olaf, a hynny am gyfnod o dros gan mlynedd. Mawr oedd ei diolch a'i pharch bob amser i'r rhai a fu'n ffyddlon iddi.

Y diwrnod cyn iddi ein gadael – a minnau yn trio rhoi ychydig o fwy llwy iddi – dyma hi'n dweud 'digon yw digon', a rhag ofn nad oeddwn wedi ei deall, '*enough is enough*'. Edrychodd arnaf yn hir ac mi ges yr argraff mai nid cyfeirio at y bwyd yr oedd hi ond at ei bywyd o dros gan mlynedd, a'i bod bellach wedi cael digon.

Diolch am gael adnabod aelod cadarn a chymeriad hoffus yng nghapel Y Bryngwyn a



CASGLU ARIAN. Bu Malcolm Pitts yn beicio a nofio pelter sylweddol, yng nghwmni Alwena, i godi arian er cof am ei wraig, Yvonne, a gollodd ei bywyd ar 22 Mehefin 2006 i gancr.

Roedd yn bleser mawr ganddo gyflwyno siec o £800 i Dr Huw Roberts, Meddygfa Waunfawr, a siec o £1,725 i Professor Nick Stuart o Ward Alaw, Ysbyty Gwynedd, i ddiolch am eu gwaith arbennig o dda yn trio helpu Yvonne. Mae'r clod yn gorfod mynd i'r holl bobl sydd wedi ei gefnogi ac wedi cyfrannu i wneud y swm bendigedig yma yn bosibl. Felly, ar ran Yvonne, hoffai Malcolm a'r plant, Mark a Fiona, ddiolch o galon i bawb.

HELFA DRYSOR PLAID CYMRU. Trefnwyd yr Helfa Drysor gan Islwyn, Eryl, Berwyn ac Einir ac fe gafwyd noson o hwyl. Doedd y daith ddim yn hir, er mwyn cael amser i'r profion dreifio ym maes parcio y Gors Bach cyn cael bwyd. Roedd y criw ifanc yn disgleirio yn y profion yma, ac felly wedi cael y marciau uchaf o'r noson.

Llongyfarchiadau i Iwan Machno, Eifion, Jonti a Phil ac i bawb a gymerodd ran ac am y gefnogaeth. Diolch yn arw i Wil Davies, Gors Bach, am y trefniadau a'r bwyd da ac am y rhoddion tuag at y raffl. Diolch hefyd i Cliff Williams am gasglu'r enwau, fel arfer, ac am ei rodd yntau at y raffl.

chydymdeimlwn â'r merched, Rhiannon a Megan, yn eu galar. 'Ail i Dduw yw mam dda.'

PLAID CYMRU. Cynhaliodd Cangen Llanrug o Blaid Cymru eu Cyfarfod Cyffredinol Blynyddol nos Iau, 11 Gorffennaf, yn y Sefydliad Coffa. Cafwyd adroddiadau gan y swyddogion ar waith y flwyddyn, blwyddyn o lwyddiant arbennig gyda'r Aelod Cynulliad, Alun Ffred Jones, yn ennill sedd newydd Etholaeth Arfon, a Phlaid Cymru erbyn hyn yn rhan o Lywodraeth Cymru. Braf oedd gorffen y tymor gyda Helfa Drysor hwyliog, a diolchwyd i Eryl ac Islwyn am ei threfnu mor effeithiol.

Ailetholwyd y swyddogion a phenodwyd cynrychiolwyr i'r Pwyllgor Etholaeth, i'r Cyngor Cenedlaethol ac i'r Gynhadledd Flynyddol, a gynhelir yn Llandudno ym mis Medi. Cafwyd amryw o awgrymiadau diddorol am gyfarfodydd y flwyddyn nesaf. Bydd cyfarfod cyntaf y tymor nos Fercher, 12 Medi, a byddwn yn croesawu Alun Ffred Jones AC, llefarydd y Blaid ar Gyllid a Chyflenwi Gwasanaethau Cyhoeddus, i sôn am y datblygiadau diweddaraf yn y Cynulliad. Croeso cynnes iawn i bawb i'r Sefydliad Coffa am 7.30 o'r gloch.

CAPEL Y RHOS. Fore Sul, 1 Gorffennaf, cafwyd gwasanaeth arbennig i rannu tystysgrifau i blant yr Ysgol Sul am lwyddo yn yr Arholiad Llafar. Yr oedd y gwasanaeth yng ngofal ein Gweinidog, Y Parchedig Marcus Robinson, a Mrs Meirwen Lloyd. Cyflwynwyd yr emynau a'r darlleniadau i gyd gan y plant, a chafwyd unawd gan Gwern Brookes. Croesawyd Megan Jones, Llys Eryri, yn ôl ar ôl cael triniaeth yn yr ysbyty. Diolchwyd i athrawon yr Ysgol Sul am eu llafur ac i Mrs Maureen Pierce am arholi'r plant.

Tristwch oedd deall bod Mrs Meirwen Lloyd yn dymuno cael seibiant haeddiannol iawn ar ôl gwasanaethu'r Ysgol Sul am 25 mlynedd. Bydd colled enfawr ar ei hôl, a chyflwynodd y Gweinidog anrheg iddi i ddangos gwerthfawrogiad yr Eglwys o'i llafur diflino. Un arall sydd wedi rhoi oes o wasanaeth i'r Ysgol Sul yw Mrs Beryl Thomas, a dderbyniodd Fedal Gee yn ddiweddar ym Mhorthmadog. Cyflwynwyd blodau ac anrheg iddi hithau, a diolchwyd i'r ddwy am eu gwaith gyda'r plant.

Braf oedd cael croesawu teulu ifanc newydd i'r eglwys fore Sul, 22 Gorffennaf, sef Llion a Ffion Williams a'u merch fach, Lili. Derbyniwyd Ffion yn aelod llawn o Capel y Rhos gan y Gweinidog a chroesawyd Llion o Gapel Berea Newydd, Bangor, cyn y gwasanaeth i fedyddio Lili. Mae croeso cynnes iawn iddynt fel teulu i'n plith.

MERCHED Y WAWR. Nos Fawrth, 11 Medi, am 7.30 yn y Sefydliad Coffa, cychwynnir y tymor gydag Arddangosfa o Waith Llaw Amrywiol gyda Eira Huws, chwaer Megan Roberts, ein Llywydd. Gellir eich sicrhau y bydd gwledd o'n blaenau a noson hwyliog yn sgil hynny. Darperir y te a'r raffl gan genod Penisarwaun. Anogir pob aelod i geisio dod â ffrind gyda hwy gan fod rhaglen amrywiol a rhywbeth at ddant pawb wedi'u trefnu gan y pwyllgor.

DIOLCH. Dymuna Rhiannon a Megan a'r ddau deulu ddiolch yn ddiffuant am bob arwydd o gydymdeimlad a dderbyniwyd ganddynt yn eu profedigaeth o golli Mam, Nain, Hen Nain a Hen-hen Nain annwyl iawn, sef Annie Jones, Eilionwy, a fu farw yn gant a dwy oed ar 23 Gorffennaf. Casglwyd y swm anrhydeddus o £600 at achos Ymchwil i rwystro colli golwg, yng Nghaerdydd.

Cafwyd gwasanaeth gwahanol, teimladwy ac arbennig iawn yn y Bryngwyn gan y Parchg Richard Jones (a ddaeth, er llawer o anhawsterau personol, o Gwm Gors) ar y cyd â'r Parchg Gwilym Parry. Diolch i chwi.

Carwn ddiolch hefyd i Mrs Megan Roberts am chwarae'r organ ac am ei hanerchiad am fywyd Mam. Hefyd i Mrs Olwen Hughes am osod y blodau. Diolch i'r Bedol am eu croeso arferol ac i'r ymgymerwyr angladdau, Mr Gwyn Jones, Caernarfon, a Mr Gwynfor Pritchard, Llanberis, am eu cwrteisi a'u cymorth ar amser trist.

Mae ein diolch yn ddibendraw i bawb ym Meddygfa Llanberis ac i'r holl ofalwyr cartref sydd wedi rhoi blynyddoedd o ofal tyner iddi i'w galluogi i aros yn ei chartref yn Eilionwy yn ôl ei dymuniad.

Yn olaf, ond yn bennaf, ein gwir ddiolch i Megan a Gareth Roberts, i Eirianwen a Dyfydd Whiteside Thoms ac i Maureen Brierley am eu cefnogaeth tu hwnt i bob disgwyliad tuag at eu cymdoges oedrannus.

FFAIR GREIRIAU YNYS MÔN

Maes Sioe Môn
Mona (ar yr A5)
Sadwrn a Sul
6/7 Hydref 2007
o 10.00am – 5.00pm

Mynediad: **£2.50**
Parcio am ddim
Lluniaeth ardderchog

Arwerthwyr Creiriau a Hen Bethau o bob rhan o Brydain yn arddangos a gwerthu hynafion o ansawdd da



GWYNANT PIERCE

Cynyrchion Coed:
Gatiau, Ffensus ac ati
am brisiau cystadleuol

Uned 1, Fferm Bryn Afon
LLANRUG
Ffôn: (01286) 674183
(0589) 899901

Cyngor Cymuned Llanrug

Ar nos Fawrth, 19 Mehefin, cynhaliwyd cyfarfod o'r Cyngor Cymuned yn y Sefydliad Coffa Llanrug. Y cadeirydd oedd y Cyngh. Dafydd Whiteside Thomas a chroesawodd pawb i'r cyfarfod. Cadarnhawyd cofnodion 15 Mai yn gywir. Cyflwynodd y Cyngh. Goronwy Hughes adroddiad ariannol cyfredol a diolchwyd iddo gan y cadeirydd.

Pwyllgor Cynllunio Arfon

Wedi caniatáu y ceisiadau canlynol:

- Estyniad i Fferm Ceunant, Ceunant;
- Codi 4 tŷ fforddiadwy ar lain o dir cyfagos i Teras Bryngwyn, Llanrug;
- Estyniad cefn a phorth yn 4 Teras Bryn Coch, Llanrug.

Mae'r ceisiadau canlynol wedi eu gwrthod ganddynt:

- Cais amlinellol am un tŷ ar lain o dir cyfagos i 1 Bryn Gro, Cwm y Glo;
- Adeiladu tŷ ger Erw Gain, Llanrug;
- Cais ôl-weithredol am gadw adeilad ar gyfer defnydd amaeth / storio, sydd wedi ei godi tu allan i gwrtil ym Mur Moch, Cwm y Glo;

Ni thrafodwyd y ceisiadau uchod gan y Cyngor Cymuned gan fod y penderfyniadau wedi dod i law cyn y cyfarfod.

Ceisiadau Cynllunio newydd o flaen y Cyngor.

Doedd dim gwrthwynebiad i'r canlynol:

- Creu man yfed cysgodol yn y Glyntwrog, Llanrug;
- Estyniad deulawr ar 2 Tŷ Crwn, Cwm y Glo.

Roedd gwrthwynebiad i'r canlynol:

- Codi modurdy a storfa gyda chyfleusterau maes carafanau teithiol yng Nghil y Bont, Crawia, ar y sail ei fod yn gam tuag at sefydlu'r safle yn faes carafanau parhaol yn hytrach na maes carafanau symudol. Mae hefyd yn ddatblygiad sydd tu allan i'r ffin presennol.
- Dymchwel y tŷ presennol ac adeiladu tŷ newydd yn Afon Rhos, Llanrug, ar y sail ei fod yn adeilad newydd yng nghefn gwlad ac ar sail ei faint a'i edrychiad. Teimlid y gellid bod wedi edrych ar gais fyddai'n cadw'r hen fwthyn a'i ehangu drwy addasu. Dyma enghraifft arall o golli bwthyn traddodiadol trwy ei ddymchwel.
- Dymchwel Capel Hermon, Llanrug, a chodi dau dŷ ar y safle. Gwrthwynebwyd ar y sail y byddai'n creu problemau parcio a byddid yn dymchwel hen adeilad hanesyddol i greu anned newydd. Roedd y Cyngor yn gefnogol i gadw'r capel a'i droi yn dŷ.

Gofynnwyd i'r clerc gysylltu â'r Adran Gynllunio hefyd i ofyn am ymateb i'r cais a gyflwynwyd gan Gymdeithas Pysgotwyr i godi hafan bysgota yn y Crawia. Roedd Pwynt 6 (defnydd presennol) yn dweud fod annedd yno ar hyn o bryd, a does dim un yno; hefyd roedd Pwynt 10 (hawliau tramwy'r cyhoedd) yn aneglur iawn, gan fod ateb cadarnhaol a negyddol wedi ei ddefnyddio i'r un cwestiwn. Mae angen holi hefyd a yw adeiladau Cae Rhydau yn cael eu dymchwel, gan fod cyfnod y rhybudd wedi dod i ben bellach.

Gwneir cais i gael torri'r coed ar gongl Llys Derwen ar groeslon y Bryngwyn, a hefyd i drwsio'r clawdd cerrig ar y gongl, ochr Tan y Coed, ar yr un groesffordd.

Daeth cwynion i law fod Llwybr Cyhoeddus Rhif 68 (rhwng Cae Siencyn a Thyddyn Rhyddid) yn anodd iawn ei gerdded erbyn hyn ac mae hi'n wlyb iawn yno hefyd. Y clerc i gysylltu â'r adran berthnasol.

Mae'r heddlu wedi gofyn i yrrwyr beidio parcio ar Lôn Crawia dros y ffordd ag Ysgol Brynrefail. Gofynnwyd i'r clerc anfon at yr Adran Trafnidiaeth i ofyn am gael rhoi llinellau melyn i wahardd parcio yno.

Mae'r cyngor wedi cefnogi cais Mrs Gwawr Owen (sy'n tywys plant Ysgol Gynradd Llanrug ar draws y ffordd) i gael 'railings' ar ochr y palmant lle mae'r groesfan. Mae hi'n bryderus iawn am y sefyllfa beryglus fel ag y mae ar hyn o bryd. Bydd y clerc yn cysylltu ag Adran Priffyrdd Gwynedd.

Daeth dau gais i law i gael prynu tir sy'n eiddo y Cyngor Cymuned. Mae un yn arwain at dŷ Ganllwyd, wrth fynedfa cae chwarae Pwll Moelyn, lle mae hawl tramwy ar hyn o bryd. Cytunodd y Cyngor i werthu y tir a'r giât mochyn at y tŷ. Pasiwyd fod yn rhaid cadw'r fynedfa fawr a'r giât fach i'r cae fel ag y maent.

Gwnaed cais gan berchnogion Tan y Buarth i gael prynu y rhan ochr arall i'r un cae chwarae – sef y llain o dir sy'n rhedeg gyda'r ardd gefn, yr iard lo ac sy'n ffinio gyda thir Ffenestri Celtig. Cytunodd y Cyngor i hyn ac mae cais wedi ei wneud i gael pris gan y prisiwr dosbarth.

Cynheir y cyfarfod nesaf ar nos Fawrth, 17 Gorffennaf yn Ysgol Gymuned Cwm y Glo.

Cefnogwch
ein Hysbysebwyr

WAUNFAWR

Mrs Nan Roberts, Pantafon. Ffôn: (01286) 650570

CLWB 300. Enillwyr mis Mehefin oedd £40±: Mr Garry Davies, GAllt y Bont; £25: Mrs Rhian Ellios, Ty'n Llidiart; £10: Mr Wilf Jones, Treflys. Enillwyr mis Gorffennaf oedd £40: Mr Aeron Jones, 9 Croes y Waun; £25: Mr Elfyn Griffith, Blaen y Nant; £10: Mrs Pearl Williams, Parc.

HOFFAI Tom a Iona Wiliams, Llwydiarth, ddiolch i'w teulu a'u ffrindiau i gyd am y cardiau ac anrhegion a ddebyniwyd ganddynt ar achlysur eu Priodas Aur yn ddiweddar. Diolch yn fawr iawn.

DRAENOG

I Drefor i sgota un bora
Aeth dau o Waunfawr ar eu siwrna
Ond syrthio i'r cae
Wnaeth y tewaf o'r ddau
A galwyd ar Wylwyr y Glanna'.

NOSON ARWERTHIANT. Nos Wener, 14 Medi, am 6.30 o'r gloch yn Festri Capel Coch, Llanberis, cynhelir Noson Goffi gyda stondinau llyfrau, bric a brac, tombola, cacennau ac amryw gystadlaethau.

Bydd yr elw i'w rannu rhwng Ymgyrch Cristnogol Sierra Leone a Chynllun Efe (Efengyl Dros Fro Eco'r Wyddfa) – i gael gweithiwr ieuenctid Cristnogol i'r ardal.

Croeso cynnes i bawb o'r ardal.

DYMUNA Alwyn a Veronica Morris, Merddyn, Ceunant, ddiolch o galon i bawb a gyfrannodd mor hael tuag at y noson 'Hog Roast' lwyddiannus iawn a gynhaliwyd nos Sadwrn, 7 Gorffennaf.

Daeth elw'r noson i £2,020, y swm hynod yma i'w rannu rhwng Ymchwil Cancr ar y Fron a Thŷ Gobaith.

PLAID CYMRU. Cafwyd barbaciw pleserus iawn yn Antur Waunfawr a gwnaed elw o £250. Diolch i Huw Ynyr a Rhys Llew am drefnu ac i bawb am ddod.

Anfonodd y gangen siec o £1,000 i Dŷ Gwynfor yng Nghaerdydd yn ddiweddar i helpu'r Blaid i dalu costau yr ymgyrch fwyaf llwyddiannus yn ei hanes. I ymuno â'r gangen gellir cysylltu â Beryl Jones, Dolcoed, Bodhyfryd (650345).

SEFYDLIAD Y MERCHED. Ar 5 Gorffennaf aeth yr aelodau am drip i Nant Gwrtheyrn ac er fod y tywydd braidd yn siomedig, mwynhaodd pawb eu hunain. Ar ôl ymweld â'r Capel a rhai o'r tai, cawsom de yng Nghaffi Meinir. Cynhelir y cyfarfod nesaf ar 6 Medi, pryd y bydd Mrs Linda Newton o Landegfan yn siarad ar y testun 'Fy Mywyd Mewn Bocs'.

MERCHED Y WAWR. Daeth gweithgareddau'r tymor i ben ddiwedd Mehefin gydag ymweliad â Chae'r Gors, Canolfan Dreftadaeth y Dr Kate Roberts yn Rhosgadfan. Er gwaetha'r glaw a'r niwl roedd y croeso yno'n gynnes iawn.

Dechreuodd y daith yn y Caban, lle cawsom wylio ffilm fer yn trafod cerrig milltir yng ngyrfa a bywyd personol Kate Roberts. Yn yr arddangosfa aml-gyfrwng yn y Beudy, cawsom gipolwg ar fywyd yn Rhosgadfan ar droad yr ugeinfed ganrif a phwy a beth a ysbrydolodd Frenhines ein Llên i ysgrifennu. Camu'n ôl i gyfnod plentyndod Kate Roberts wnaethom yn y Tŷ a mwynhau amgylchedd clyd ond tlodaidd y bwthyn traddodiadol, a chlywed dyfyniadau o waith yr awdures trwy gyfrwng clustffonau.

Derbyniol iawn oedd y baned a'r gacen ar ddiwedd y noson tra'n gwrando ar yr hanesydd, Dewi Tomos, yn crynhoi ac yn rhoi braslun inni o hanes y datblygiad. Roedd yr holl brofiad yn un hynod o bleserus a phawb yn gwerthfawrogi'r gwaith caled a wnaethpwyd ac a wneir i ddatblygu a chynnal y prosiect.

Yn absenoldeb ein llywydd, Sylvia Prys Jones, sy'n gwella ar ôl bod yn yr ysbyty, diolchodd Irene Roberts i Siân a staff y ganolfan am y croeso ac am noson ddifyr. Dymunodd wellhad buan i Sylvia; cydymdeimlodd â Doris Roberts yn ei phrofedigaeth o golli ei modryb, a llongyfarchodd Bethan, merch Gill Wyn, ar ei dyweddïad. Diolchodd hefyd i'r aelodau a gynorthwyodd, a gyfrannodd ac a gefnogodd y noson goffi a drefnwyd ar y cyd gyda Sefydliad y Merched i godi arian tuag ar ysgol newydd Pendalar.

Bydd y tymor newydd yn dechrau ar 27 Medi, a'r swyddogion fydd Sylvia Prys Jones, Heulwen Huws ac Alma Jones. Edrychwn ymlaen at dymor llwyddiannus arall gan ei bod yn argoeli y bydd nifer yr aelodau yn cynyddu eto'r fwddyn nesa. Cofiwch y dyddiad. Rydym yn gangen sy'n tyfu!

EISTEDDFOD WAUNFAWR. Noson Gwis yn Nhafarn Snowdonia nos Iau, 13 Medi, am 8.00 o'r gloch. Yr elw at Eisteddfod Waunfawr.

Dyddiad yr Eisteddfod Bentref fydd Sadwrn, 27 Hydref, yng Nghanolfan Waunfawr am 10.00 y bore a 7.00 o'r gloch yr hwyr.

Cystadlu yn agored i unrhyw un sydd yn byw yn Waunfawr a Betws Garmon ac unrhyw blentyn sydd yn mynychu Ysgol Waunfawr.

LLWYDDIANNAU. Eleni eto mae'n rhaid inni longyfarch plant a phob ifanc y pentref, fu'n gweithio mor galed ar gyfer yr arholiadau yn yr ysgolion a'r colegau, ar eu llwyddiant. Dymunwn y gorau ichi i gyd i'r dyfodol.

Dymunwn yn dda hefyd i bob un, o'r ieuengaf i'r hynaf, fydd yn cychwyn ar yrfa mewn ysgol, coleg a swydd ym mis Medi.

DATHLU PEN-BLWYDD PRIODAS Bu Mr a Mrs Tom H. Williams, Llwydiarth, yn dathlu cyrraedd eu Priodas Aur yn ddiweddar. Llongyfarchiadau a phob dymuniad da ichi.

PRIODASAU. Llongyfarchion a dymuniadau da i Euros Wyn, Y Frenni, ar ei briodas â Catrin Mara o Lanuwchllyn, ac yn eu cartref yng Nghaernarfon.

Yr un yw ein dymuniad i Llion Iwan, Afallon, ar ei briodas â Dawn o Gaernarfon. Maent hwy wedi ymgartrefu yn Y Groeslon, ger Pen-y-groes.

Yng nghapel Bontnewydd priodwyd Kevin Davies, Hafan, ac Einir Jones o'r Bontnewydd. Yma, yn Stad Tŷ Hen yn y Waun y maent hwy wedi ymgartrefu. Dymuniadau gorau i chithau.

Llongyfarchiadau hefyd i Kevin Roberts, Sŵn y Gwynt, ac Amanda ar eu priodas. Dymunwn yn dda iddynt yn eu cartref yn Llanelli.

LLONGYFARCHIADAU a phob dymuniad da i Wyn a Pat Griffith, Collwyn Bach, a fu'n dathlu eu Priodas Arian yn ystod yr haf.

PEN-BLWYDD. Bu Nia Elin, Teras Eilian, yn dathlu ei phen-blwydd yn 18 oed. Llongyfarchiadau a phob dymuniad da i'r dyfodol, Nia.

GENEDIGAETHAU Llongyfarchiadau i Mr Gwynn Davies, Bryn Eithin, ar enedigaeth ei or-ŵyr, Gruffudd Mei, mab bychan i'w ŵyr, Darron a Lowri Harris.

Ganwyd merch fach, Mali Rhys, i Anwen a Jim, wyres fach i Mrs Mary Jones, Llwyn Afon. Llongyfarchiadau ichi, Mary, ar ddod yn nain.

Daeth Mrs Laura Pierce, Ty'n Twll, yn nain hefyd, i Elin, merch fach i'w mab, Gareth a Ceri. Llongyfarchiadau ichi, Laura, ac hefyd ar ddathlu pen-blwydd arbennig iawn.

Llongyfarchiadau i Robin a Megan Williams, Bryn Difyr, ar enedigaeth ŵyr bach, Robin Thomas, mab bach i Mair a Rob, gor-ŵyr i Mrs M. Jones, Glasfryn. Dymunwn wellhad buan i Mr Robin Williams, sydd wedi bod yn derbyn triniaeth mewn ysbyty.

LLWYDDIANT EISTEDDFODOL. Llongyfarchiadau mawr i Alun Williams, Stad Bro Waun, ar ei lwyddiant yn dod yn gydradd gyntaf yng Nghystadleuaeth Gwobr Goffa Lewys yn yr Eisteddfod Genedlaethol.

YMDDEOLIAD. Dymunwn yn dda i Robat Williams, Gwernydd, ar ei ymddeoliad o'i swydd gyda'r Gwasanaethau Cymdeithasol.

YR YSGOL SUL. Dymuna aelodau yr Ysgol Sul ddiolch i Ysgol Sul Llanrug am gael ymuno â hwy ar eu trip blynyddol i Gulliver's World eto eleni.

Bydd yr Ysgol Sul yn ailgychwyn ym mis Medi, yng nghapel Eglwys y Waun.

ADREF O'R YSBYTY. Dymunwn wellhad buan i Dafydd Greasley, Stad Pant y Waun, wedi iddo dderbyn triniaeth i'w benglin yn Ysbyty Gobowen.

Anfonwn ein cofion a'n dymuniadau gorau am wellhad i Mrs Sylvia Prys, Pen-y-Graig a Mrs Glenys Jones, Rhandir Mwyn. Mae'r ddwy wedi derbyn llawdriniaeth yn Ysbyty Gwynedd.

YN YR YSBYTY. Anfonwn ein cofion at Mrs Mair Williams a Mrs Catherine Williams (Angorfa gynt). Mae'r ddwy yn yr ysbyty ar hyn o bryd. Hyderwen y byddwch yn cryfhau.

CYDYMDEIMLWN yn ddwys â theulu y diweddar Mr Richard Owen, Bro Waun: ei ferch, Grace, a'i feibion, Dafydd a Gwyndaf a'u teuluoedd, ac â'i ddwy chwaer, Mrs Catherine Williams a Mrs Laura Pierce.

DYMUNO'N DDA. Yn ystod y misoedd diwethaf daeth teuluoedd newydd i fyw i'r Waun. Croesawn

CLWB BOWLIO. Nos Wener, 3 Awst, aeth yr aelodau i'r Caban ym Mrynrefail i ddathlu eu cinio blynyddol. Ar ôl pryd bwyd blasus cyflwynwyd gwobrau i enillwyr y cystadlaethau fel a ganlyn:

Cwpan i'r Merched
1. Kit Jones; 2. Pearl Wiliams.

Cwpan y Capten
1. Emyr Evans; 2. Dafydd Price.

Tlws Coffa T.A. Thomas (yn cael ei chyflwyno gan Mrs A. Thomas)
1. Dafydd Price; 2. Emyr Evns.

Trefnwyd y noson gan Dafydd Price a Joe Large.

Mae'r Clwb yn cyfarfod yn y Ganolfan ar bnawn a nos Fawrth a phnawn a nos Iau. Croeso cynnes i aelodau newydd. Am fwy o wybodaeth cysyllter â Joe Large ar Waunfawr 650179.

Dylan Griffith

TREFNWR ANGLADDAU ANNIBYNNOL a LLEOL

TROS-Y-WAEN, PENISARWAUN

Yn gwasanaethu'r holl ardal yn cynnwys

PENISARWAUN, DEINIOLEN, LLANRUG A LLANBERIS

Gwasanaeth teimladwy,
urddasol a phersonol.
24 awr y dydd

Ffoniwch: Dylan (Llys) ar 871833

Symudol: 07778 127394

HEFYD

CERBYDAU CLASUROL YR WYDDFA

Cyrhaeddwch mewn steil – mewn cerbyd *Rolls Royce*
ar gyfer priodasau, pen-blwyddi ac achlysuron arbennig eraill

hwy i'n plith a dymunwn yn dda i'r teuluoedd sydd wedi symud oddi yma i ymgartrefu mewn ardaloedd eraill.

YSGOL WAUNFAWR

Er gwaethaf y tywydd ciami cafwyd digonedd o weithgareddau amrywiol.

Ymweld â'r Ysgolion Uwchradd. Aeth 9 o ddigyblion i ymweld ag Ysgol Brynrefail a dwy i Ysgol Syr Hugh Owen ar 14 Mehefin.

Dyma adroddiad Erin Haf a Lois Jones o flwyddyn 6:

Argraffiadu Cyntaf

Pan godais ddydd Iau roeddwn yn teimlo yn nerfus oherwydd roeddwn yn mynd i Syr Hugh Owen am y tro cyntaf ac roedd pawb arall o fy nosbarth yn mynd i Brynrefail yn Llanrug. Ar y bws roeddwn yn eistedd gyda Gwenno. Stopiodd y bws yng Nghaeathro i nôl plant o Gaeathro, wedyn doeddwn i ddim yn teimlo mor nerfus. Roeddym wedi cyrraedd o'r diwedd yn teimlo yn hapus. Roeddynt yn gwneud y Cofrestr ac wedyn aethom i'r ffreutur i gyfarfod ysgolion Llandwrog, Felinheli, Felinwnda, Maesincla, Rhostryfan ac ysgol Waunfawr, sef fi a Stephanie. Roedd Stephanie yn mynd i'r Uned.

Y gwersi cyntaf oedd Cymraeg, ysgrifennodd pawb ansoddeiriau Cymraeg. Y wers wedyn oedd Daearyddiaeth ac enw yr athrawes oedd Miss Roberts. Wedyn cawsom amser egwyl. Wedyn cawsom Cerddoriaeth, oedd yn hwyl, roeddym efo Miss Evans. Wedyn roedd hi yn amser cinio. I ginio cefais *pizza* oedd yn neis iawn. Cefais greision a diod hefyd. Amser chwarae es i i'r llyfrgell ar y cyfrifiadur. Ar ôl amser chwarae cawsom waith Graffeg. Wedyn cawsom wersi gyda halen a dŵr. Wedyn ar ddiwedd y pnawn cawsom goginio *cookies*. Roeddym ond yn cael gwneud 3 yr un.

Roedd y diwrnod bron ar ben felly roedd ein rhieni yn dod i'r ysgol i gyfarfod. Roedd Mr Dai Fôn Williams yn siarad am yr ysgol. Wedyn cawsom fynd i nôl dillad Ymarfer Corff i'r ystafell gerddoriaeh. Prynais siorts, t-shirt a sanau rygbi. Wedyn aethom adref.

Rydw i wedi mwynhau y profiad yma. Diolch

Lois

* * *

Yn y bore roeddwn yn gynhyrfus iawn, aethom i ddisgwyl am y bws wrth yr ysgol yma. Daeth bws Ysgol Brynrefail yn hwyr o ddeg munud, ta waeth am hynny, pan gyrhaeddom cawsom ein gwers gyntaf, sef Coginio. Coginio *flapjacks* apricots a cheirios. Roedd pawb yn gorfod cael partneriaid ac yn rheoli popty eu hunain. Ein hail wers, ar ôl yr egwyl, oedd Cerdd. Ein hathrawes gerdd oedd Mrs Edwards. Chwaraeom gêm cerddoriaeth. Ein trydydd gwers oedd Ffrangeg, ein geiriau oedd Bonjour (Helo) Ca-va? (Sut wyt ti?) Comment tu t'appelles (Be yw dy enw?) Je mapelle Erin (Fy enw i yw Erin)

Ar ôl Ffrangeg cawsom ginio a wedyn cawsom arholiad darllen hefo Mrs Gwenno Bebb. Ein gwers olaf oedd taith o gwmpas Ysgol Brynrefail, doedd hi ddim yn wers arferol ond fel *Treasure Hunt* i ddod i adnabod yr ysgol yn well.

Roeddwn wedi mwynhau fy niwrnod y no, roedd yn arbennig o dda.

Erin Haf

Teithiau Cerdded. Yn anffodus bu'n rhaid gohirio taith noddedig yr Adran Iau i Foel Eilio oherwydd y glaw. Cafodd Adran y Babanod, serch hynny, ddiwrnod sych a mwynhaodd pawb eu hunain yn cerdded drwy'r pentref a chael picnic ger yr afon. Dyma adroddiad Tomos Morgan ac Elin Glyn, Bl. 2 o'r diwrnod:

Dydd Gwener, aethom n i ar daith gerdded. Gwelais i lawer o goed a blodau a gwair. Roedd hi'n ddiwrnod braf iawn. Clywais yr adar bach yn canu. A mi welais afon. A'r peth gorau oedd pan gawsom ni bicnic yn y cae. Mi gefais hwyl

Elin Glyn

* * *

Dydd Gwener aethon ni ar daith gerdded. Gwelais i lawer o goed a blodau a gwair. Roedd hi'n braf iawn. Clywais yr adar yn canu. Ar y ffordd yno gwelais i ddafad yn rhedeg yn wyllt. Ar y ffordd yn ôl aroglais i ddail coed derw a gwelais geffylau. Roeddwn i wedi hoffi mynd ar y daith gerdded.

Tomos Meredydd

Dringo yng Nghanolfan y Beacons. Bydd plant blwyddyn 5 a 6 wedi derbyn 6 sesiwn o wersi dringo yn y Ganolfan erbyn diwedd y tymor.

Y Darian Gerdd. Cyflwynwyd y darian gerdd eleni i Erin Ynyr, blwyddyn 6. Carem fel ysgol ddiolch unwaith eto i Mrs Ann Marston am drefnu i gael Arweinydd Llinynnol Cerddorfa Frenhinol Lerpwl, Mr Cormac Henry, i gyflwyno'r darian.

Trip Adran y Babanod, Mehefin 29. Bu'r Babanod am drip i Sw Caer ddiwedd mis Mehefin. Roedd pawb wedi mwynhau eu hunain. Dyma adroddiad Jac Davies ac Elis Penri o flwyddyn 2 o'u diwrnod.

Dydd Gwener am naw o'r gloch aethom ni i Sw Gaer. Cymerodd awr a hanner i fynd yno. Gwelais anifail od, roedd o'n hanner sebra a hanner giraff. Gwelais rheinosyrys tew yn bwyta gwair yn y cae a gwelais lew yn cysgu ar y gwair. Ron i yn hapus, prynais crystal. Cefais hwyl.

Jac Davies

* * *

Dydd Gwener es i i Sw Gaer gyda'r dosbarth a gwelais tarantiwla slei yn cerdded yn araf. Gwelais chimpansis babis yn chwarae tic ar ben tŵr uchel. Neidiodd un i mewn i rwyd a dilynnodd bob babi arall. Gwelais pengwin yn nofio'n braf yn y dŵr Cefais amser braf.

Elis Penri

Cwrs Gweithgareddau Antur. Bu plant blwyddyn 5 a 6 ar gwrs gweithgareddau tîm yn Rhyd-ddu ddydd Gwener, 29 Mehefin.

Cafwyd diwrnod llwyddiannus iawn yn datrys problemau.

Gŵyl Gyfeiriannu yng Nghlynllifon. Ddydd Mercher, 11 Gorffennaf bu plant blwyddyn 6 yng Nglynllifon mewn Gŵyl Gyfeiriannu. Roedd deg ysgol yn bresennol, gyda 180 o blant yn cystadlu. Cawsant ddiwrnod da er gwaethaf y glaw.

Trip blwyddyn 3 a 4 i Eisteddfod Ryngwladol Llangollen. Tra roedd blwyddyn 6 yng Nglynllifon roedd blwyddyn 3 a 4 yn Eisteddfod Ryngwladol Llangollen. Cawsant deithio ar y gamlas a mwynhau diwrnod o ddawnsio.

Trip gwaith maes Daearyddiaeth blwyddyn 5 a 6 i'r Foryd. Fel rhan o waith maes Daearyddiaeth bu plant blwyddyn 5 a 6 yn astudio bio-amrywiaeth a chynefinoedd gwahanol y Foryd a Dinas Dinlle ddydd Gwener, 13 Gorffennaf. Pleidleisiodd y plant eu bod eisiau mynd er gwethaf y glaw trwm. Diolch i Nia Jones, y Swyddog Morwrol, a Jess, ac i Anna Williams, mam Peter a Tim am drefnu'r gweithgareddau. Diolch hefyd i Mr Tommy Williams, taid Carwyn, Megan a Gwion, am adael i ni ddefnyddio'r clwb carafanau yn Ninas Dinlle i fwyta'n bwyd a chael sesiwn addysgol dan do. Uchafbwynt y dydd i bawb oedd cael defnyddio y pwll nofio cynnes awyr agored. Diwrnod i'w gofio. Yn rhyfedd iawn fe gyfrannodd y glaw di-baid at yr atgofion am y diwrnod.

Trip Meithrin Llanberis. Yr un diwrnod aeth y plant Meithrin ar y trên yn Llanberis a chwsant fore wrth eu bodd.

Noson Rhieni Newydd. Cynhaliwyd noson i rieni'r plant meithrin a fydd yn cychwyn ym mis Medi ar nos Lun, 16 Gorffennaf. Braf oedd gweld cymaint o rieni'n bresennol. Y dydd Mawrth canlynol daeth y plant i dreulio pnawn yn yr ysgol – pob un ohonynt yn blant da ac ni welwyd yr un deigryn. Dwi'n meddwl bod y mamau wedi poeni mwy na'r plant!

Mabolgampau. Yn anffodus, oherwydd y glaw, ni chynhaliwyd y mabolgampau cyn diwedd y tymor. Roedd y cae yn wlyb socian. Sori, blwyddyn 6!

Cyflwyno Tariannau. Ddydd Iau, 19 Gorffennaf, cyflwynwyd Tarian Cywaith yr Adran Iau. Roedd safon y cyweithiau eleni yn uchel tu hwnt, gan achosi cryn gur pen i'r athrawon. Derbyniodd pob plentyn feirniadaeth a thystysgrif am eu gwaith caled a rhoddwyd tocyn llyfr o £5.00 i'r canlynol:

Blwyddyn 3: 1. Dafydd Llwyd; 2. Kushla; 3. Gwion.

Blwyddyn 4: 1. Tesni; 2., Megan Ellen; 3. Meleri.

Blwyddyn 5: 1. Jessica; 2. Faye/ Gruffydd; 3. Dion/Peter.

Blwyddyn 6: 1. Lois; 2. Erin Ynyr; 3. Carwyn.

Dyfarnwyd wedyn y brif wobr rhwng enillwyr y blynyddoedd. Y buddugol eleni oedd Lois Jones o flwyddyn 6. Llongyfarchiadau mawr am wneud cywaith trefnus a diddorol am deithio i Batagonia.

I gloi y tymor a'r flwyddyn addysgol cynhaliwyd y Cyfarfod Gwobrwyo ddydd Gwener, 20 Gorffennaf. Dyma'r enillwyr eleni:

Y Darian Gelf: Erin Ynyr, Bl.6.

Y Darian Ymdrech: Shannen Owen, Bl.5.

Cyflwynwyd geiriaduron i ddisgyblion Blwyddyn 6 sy'n ffarwelio â ni a dymunwn pob llwyddiant iddynt yn Ysgol Brynrefail ac Ysgol Syr Hugh Owen.

Ffair Haf a'r Daith Gerdded Noddedig. Byddwn yn aildrefnu'r ddau weithgaredd yn fuan ym mis Medi. Rhydd hyn fwy o amser i rieni a phlant i gasglu arian a phethau i'w gwerthu! Felly erfyniwn ar bawb i wneud ymdrech arbennig ar gyfer y Ffair gan ein bod, fel ysgol dros yr haf, yn datblygu'r iard fewnol ar gyfer y Cyfnod Sylfaen Adran y Babanod ac rydym angen arian!

Bydd yr ysgol yn ailagor i'r plant ar ddydd Mwrth, 4 Medi. Gobeithio bod pawb wedi cael gwyliau braf a diolch am eich cefnogaeth drwy'r flwddyn.

Gweithgareddau gyda clai.

BETHEL

Geraint Elis, Cilgeran. Ffôn: (01248) 670726

Camera yn ngofal Richard Ll. Jones, 5 Y Ddôl. Ffôn: (01248) 670115

DIOLCH. Dymuna Elizabeth Ellis Evans, Pen Parc, ddiolch yn fawr i'r teulu a ffrindiau am eu caredigrwydd ar achlysur dathlu ei phen-blwydd arbennig, 'Oed yr Addewid'!! ar 13 Gorffennaf. Cefais ben-blwydd i'w gofio.

DYMUNA Ann Parry, 3 Y Rhos, ddiolch o galon i'w theulu, ffrindiau a chymdogion am yr holl gardiau, blodau, y rhoddion a'r dymuniadau da tra roedd yn Ysbyty Gwynedd ac hefyd ar ôl iddi ddod adref.

NOSON ARWERTHIANT. Nos Wener, 14 Medi, am 6.30 o'r gloch yn Festri Capel Coch, Llanberis, cynhelir Noson Goffi gyda stondinau llyfrau, bric a brac, tombola, cacennau ac amryw gystadlaethau.

Bydd yr elw i'w rannu rhwng Ymgyrch Cristnogol Sierra Leone a Chynllun Efe (Efengyl Dros Fro Eco'r Wyddfa) – i gael gweithiwr ieuenctid Cristnogol i'r ardal.

Croeso cynnes i bawb o'r ardal.

PRIODAS. Dydd Sadwrn, 28 Gorffennaf, yng nghapel Cysegr Bethel, priodwyd Lois Angharad Druce, Arfryn, Tan-y-Cae, a John Gwyn Lloyd o Rhuthun, gan y Parchg Marcus Wyn Robinson. Llongyfarchiadau a phob dymuniad da i'r ddau.

DIOLCH. Dymuna Lois a John Gwyn Lloyd ddiolch i'w teuluoedd a'u ffrindiau am yr anrhegion a'r dymuniadau da a dderbyniwyd ganddynt ar achlysur eu priodas.

Diolch arbennig i'r Parchg Marcus Wyn Robinson am wasanaeth priodas annwyl a bendithiol, i Manon Gwynedd am ei gwaith wrth yr organ, i Mrs Margaret Williams, gofalwraig y capel, am ei chymorth gyda'r trefniadau ac i Mrs Edwina Morris ac Iwan am y trefniadau blodau bendigedig yn y capel.

Gwnaethoch ddiwrnod ein priodas yn un arbennig a chofiadwy. Diolch o galon i chwi i gyd.

LLONGYFARCHIADAU i Angela Roberts, Penrhos Villa, ar ennill Gradd B.Sc. ym Mhrifysgol Bangor. Yn yr hydref bydd Angela yn dechrau cwrs hyfforddi i fod yn athrawes yn y coleg ym Mangor.

DIOLCH. Dymuna Ann Ellis Williams, Y Ddolwen Fach, ddiolch i'w theulu, ffrindiau, cymdogion a phawb yn syrjeri y Waunfawr am yr holl gardiau, anrhegion a dymuniadau da a dderbyniodd ar achlysur ei phen-blwydd arbennig a'i hymddeoliad.

Diolch yn fawr iawn hefyd i gleifion syrjeri Waunfawr a Llanrug am eu caredigrwydd.

CLWB 200 Y NEUADD. Enillwyr Mai oedd: £40: (5) Rhianwen Gadd, 3 Y Ddôl; £20: (137) Judith Jones, Gwelfor, 3 Rhes Erw; £10: (15) Mair Williams, 15 Y Ddôl.

Enillwyr Iwcus Mehefin oedd: £40: (76) W. W. Griffiths, Ivy Cottage; £20: (91) Ceris Williams, 1 Tan y Cae; £10: (145) Albert Hughes, 34 Bro Rhos.

DYMUNA John Arfon a Pat a theulu y ddiweddar Mary Catherine Owen ddatgan eu diolch i berthnasau, ffrindiau a chymdogion am bob arwydd o gydymdeimlad, ynghyd â'u rhoddion tuag at gronfa adfer Meddygfa Waunfawr, a dderbyniwyd o golli Mam, Nain a hen Nain annwyl. Diolch i staff Cartref Penisarwaun am ofal arbennig iawn, ynghyd â genethod gofal cartref Cwmni Caredig. Diolch hefyd i feddygon Waunfawr. Diolch i Gors Bach am drefnu lluniaeth arbennig ac i Gwilym Jones a'i Fab am wasanaeth trylwyr.

MERCHED Y WAWR. Cynhelir noson agoriadol cangen Bethel nos Fercher, 12 Medi, am 7.30 o'r gloch yn neuadd yr Ysgol Gynradd. Mae'r pwyllgor wedi trefnu 'Swper Croeso a Chân' yng nghwmni Jonathan, Eleri ac Elen o'r pentref. Croeso cynnes iawn i aelodau hen a newydd.

Mae'r pwyllgor yn awyddus iawn i estyn gwahoddiad cynnes i holl ferched y pentref sydd heb ystyried ymuno â ni o'r blaen. Mae rhaglen amrywiol wedi ei threfnu a byddwn yn falch o gael eich cwmni ar yr ail nos Fercher o bob mis.

CAPEL Y CYSEGR. Yn ddiweddar bu i'r Gweinidog, y Parchedig Marcus Wyn Robinson, gynnal nifer o wasanaethau bedydd pryd y beddyddiwyd pedwar o blant bach yng nghwmni eu teuluoedd a chyfeillion, sef Jessica Mai Williams, merch fach Dewi a Donna, ac yna dau gefnder, Gwion Elis Bee, mab bach Mark a Manon, a Seffan Pyrs White, mab bach Angharad ac Antony, ac wedyn Cian Cyffin Oscar Hughes, mab bach Catrin a Martin. Pob dymuniad da i'r plant a'u teuluoedd.

YSGOL SUL Y CYSEGR. Er gwaetha'r tywydd gwlyb bu i nifer dda o blant, ynghyd â'u hathrawon, rhieni a chyfeillion, gerdded i gefnogi Meurig Huws yn ei ymgyrch i godi arian i Ambiwlans Awyr Cymru drwy feicio o Gaerdydd i Gaernarfon. Bu'r daith yn hynod lwyddiannus a braf oedd cael croesawu Meurig a'i ddau gyfaill tu allan i gastell Caernarfon ar ôl bod wrthi'n beicio am 14 awr. Llwyddwyd i gasglu dros £800 yn enw'r Ysgol Sul er budd yr Ambiwlans Awyr.

CLWB BRO BETHEL. Dalier sylw mai ar yr ail bnawn Mawrth ym mis Medi y bydd y cyfarfod cyntaf o'r Clwb, sef 11 Medi, a hynny am 2.00 o'r gloch yn Festri Bethel. Ceir cyfle i ymaelodi a chymdeithasu yng nghwmni'r gŵr gwadd, y Parchedig Marcus Wyn Robinson. Croeso cynnes iawn i unrhyw un sy'n dymuno ymuno â'r Clwb.

DIOLCH. Dymuna Mark Roberts, Cae Clyd, ddiolch o galon i'w deulu, ffrindiau a chymdogion am y llu cardiau, anrhegion, galwadau ffôn ac ymweliadau a gafodd yn dilyn ei ddamwain a'i lawdriniaeth yn ddiweddar.

DIOLCH. Dymuna Ruth a Nick, Tan y Buarth gynt, ddiolch i gyfeillion, teulu a chymdogion am eu dymuniadau da a'r anrhegion ar enedigaeth Ffion.

DIOLCH. Dymuna Nerys W. Owen ddiolch i'w theulu, ffrindiau ac aelodau Clwb Bro Bethel am bob arwydd o gefnogaeth tra bu yn Ysbyty Gwynedd yn ddiweddar.

LLONGYFARCHIADAU i Angharad ac Antony ar enedigaeth merch fach, Siwan Haf, ar 11 Awst.

DIOLCH. Dymuna Angharad ac Antony ddiolch i deulu a chyfeillion am eu dymuniadau da a'r anrhegion ar enedigaeth Siwan Haf.

DIOLCH. Dymuna Dyfan a Lucy ddiolch am yr holl anrhegion a'r dymuniadau da ar achlysur eu priodas.

LLONGYFARCHIADAU i Richard Llwyd Jones, Y Ddôl, ar ei lwyddiant yn ennill y Gadair, yr Englyn a'r Delyneg yn Eisteddfod Castell Newydd Emlyn. Camp yn wir!

GRŴP CYNGANEDDU BETHEL Bydd y grŵp yn ailgychwyn ar 12 Medi. Eleni bydd un grŵp ar gyfer dechreuwyd llwyr ac yna grŵp i'r rai mwy profiadol. Am fwy o fanylion cysylltwch â Richard ar 670115.

EISTEDDFOD YR URDD. Glyn Wise gyda'r grŵp 'Y Cnafon Chwithig' a ddaeth yn ail yng nghystadleuaeth Grŵp Roc a Phop dan 11 yn Eisteddfod yr Urdd eleni.

Panel Cymdogaeth Bethel

(Parhad O'r Cyngor tud.23)

Cofnodion Cyfarfod nos Fercher, 11 Ebrill am 7.00 o'r gloch yn Neuaff Goffa Bethel.

Yn bresennol:

Y Cwnstabl Andrew M. Abbott (Rheolwr Rhawd y Felinheli a Bethel), Margaret Druce, Euron Hughes, Y Cynghorydd Huw P. Hughes, J. Elwyn Hughes, Maldwyn John a Ieuan Williams.

Cymerwyd y gadair gan y Cynghorydd Huw P. Hughes a rhoes groeso i'r Cwnstabl ac aelodau enwebedig y Panel i'r cyfarfod cyntaf.

1. Nododd y Cadeirydd fod y Cwnstabl yn deall Cymraeg ond na allai ei siarad. Mynegwyd anfodlonrwydd ar unwaith ynghylch y sefyllfa druenus hon. Ar wahân i'r ffaith na chafwyd unrhyw awgrym ymlaen llaw nad yn y Gymraeg y cynhelid y cyfarfod, roedd hi'n fater o bryder mawr fod Heddlu Gogledd Cymru (a'r holl bwyslais ar y Gymraeg ac egwyddor dwyieithrwydd) wedi penodi cwnstabl na allai siarad yr iaith i wasanaethu mewn ardaloedd lle'r oedd cyfran uchel iawn o'r trigolion yn Gymry Cymraeg. Nodwyd bod synnwyr cyffredin a phrofiad yn rhoi prawf diamheuol y câi plant ifainc iawn ac aelodau o'r genhedlaeth hŷn drafferth i gynnal sgwrs yn Saesneg, yn enwedig pe bai gofyn iddynt wneud hynny dan bwysau amgylchiadau dyrys. Byddid yn gwerthfawrogi eglurhad gan Heddlu Gogledd Cymru ynglŷn â'r sefyllfa hon, ynghyd â pha gamrau a gymerir i'w datrys.

2. Pan glywyd y Cwnstabl yn dweud bod Rhiwlas, yn ogystal â Bethel a'r Felinheli, yn rhan o'i rawd, gofynnwyd beth oedd y polisi i blismona'r ardaloedd hyn yn rheolaidd. Casglwyd o'r

Cofiwch ddefnyddio
SWYDDFA POST BETHEL
(01248) 670261
Cewch groeso cynnes gan **CLED A SUSAN**

ORIAU AGOR
6 a.m.–7.30 p.m.
(Llun–Sadwrn)
6 a.m.–3 p.m. (Sul)

Cofiwch am ein gwasanaeth newid pres tramor, yswiriant, talu biliau, etc., yn ogystal â gwasanaethau arferol Swyddfa'r Post.

A hefyd Paypoint, Loteri a Pheiriant • Tynnu Pres (Cashback)

ateb a gafwyd nad oedd unrhyw drefn na phatrwm nac amseroedd penodedig ar gyfer gwneud hynny, ac mai mater o ymateb i alwadau gan y cyhoedd oedd sicrhau presenoldeb plisman yn y cylchoedd hyn. Nodwyd mai plismona 'negyddol' oedd hynny ac y dylid 'gweld' plismon yn cerdded – ac nid yn moduro – drwy'r ardal yn rheolaidd. Byddai hynny'n fodd i atal troseddau *cyn* iddynt godi yn y lle cyntaf yn hytrach na cheisio'u datrys (yn aml yn aflwyddiannus) *wedi* iddynt ddigwydd. Eglurodd y Cwnstabl nad peth anarferol oedd iddo gael ei alw oddi wrth ei ddyletswyddau yn y pentrefi dan ei ofal – pe digwyddai fod yno, wrth gwrs – i fynd i le/ardal arall i gynorthwyo lle'r oedd angen.

3. Mynegwyd syndod yr aelodau hefyd, o glywed mai'r un cwnstabl hwn *yn unig* sydd yn gyfrifol am y tair ardal dan sylw. Mae'n amlwg, felly, fod peth gwir yn yr ystadcegau mai 1 plismon ar gyfer pob 4,500 o bobl yw fformiwla weithredol Heddlu Gogledd Cymru.

4. Soniwyd am droseddau megis parcio anghyfreithlon, baw ci a fandaleiddio'r gysgodfan bws, yn ogystal â'r achosion aml o oryrru drwy'r pentref. Amddiffynnwyd ieuenctid Bethel a soniwyd am eu teyrngarwch i chwaraeon pêl-droed, gan haeru mai tonnau ysbeidiol o gamymddwyn sy'n digwydd, a hynny gan garfan fechan – weithiau gan lafnau ifainc yn dod i Fethel o ardaloedd eraill.

5. Crybwyllodd y Cwnstabl y gwnâi ei orau i geisio gweithredu er datrys rhai o'r uchod, gan nodi bod ambell fesur ar y gweill ar hyn o bryd i roi sylw i'r gor-yrru.

6. Penderfynwyd trosglwyddo pryderon yr aelodau i'r sianelau priodol drwy'r Cwnstabl a thrwy Gofnodydd y Panel, sef Mr Huw P. Hughes. Dywedodd yr olaf y byddai'n anfon cylchneges e-bost at bob aelod yn y dyfodol agos yn cofnodi trafodaethau'r aelodau yn y cyfarfod ac yn cynnig cyfle i bob un ddiwygio neu gywiro yn ôl y gofyn.

7. Bydd cyfarfod nesaf y Panel nos Fercher, 11 Gorffennar 2007, pan ddisgwylir adroddiad yn ôl ar y materion a godwyd.

Ti a Fi... a Fo!

Sut fedrwn ni gyflwyno'r ffydd Gristnogol i'n plant ieuengaf? Mae Eglwys Fach yn cynnig ateb creadigol a lot o hwyl!

Grŵp ar gyfer plant rhwng dwy a phump oed a'u rhieni ydy Eglwys Fach, sydd yn cael ei rhedeg gan Eglwys Sant Padarn, Llanberis. Mae'n cyfarfod bob bore Sul rhwng 10 ac 11 yn y Ganolfan Gymdeithasol yn Llanberis.

Mae'r sesiynau yn cychwyn gyda chaneuon, yn cynnwys gemau cerddorol a rhyngweithiol yn ogystal â chaneuon Cristnogol i blant bach. Wedyn mae 'na stori o'r Beibl, yn aml ar ffurf drama gyda'r plant i gyd yn cymryd rhan. Crefftau sy'n dilyn, ar thema'r dydd; gwneud pethau, paentio, lliwio neu hyd yn oed wneud bwyd a'i fwyta fo wedyn! Ar ôl hynny mae pawb yn eistedd i lawr i ddweud gweddi gyda'i gilydd; cyfle i'r plantos (a'u rhieni!) ddysgu dweud 'Diolch', 'Sori' a 'Help' wrth Dduw. Mae'r sesiwn yn cloi gyda chanu eto.

Mae Eglwys Fach yn mynd ers dechrau'r flwyddyn ac, erbyn hyn, wedi denu cryn dipyn o deuluoedd lleol. Fel y cylchoedd Ti a Fi, Cymraeg ydi iaith y gweithgareddau, er bod croeso i ddysgwyr a rhieni di-Gymraeg. Mae croeso mawr i bawb, yn blant, yn famau a thadau ac yn hen rieni – dowch i wneud ffrindiau ac ymuno yn yr hwyl.

Cysylltwch â'r Parchg Robert Townsend, Y Rheithordy, Llanberis ar (01286) 873678.

Gwesty
Dolbadarn
LLANBERIS Ffôn: 870277

Am groeso cartrefol Cymreig bob amser Aneuryn Jones a'r staff

DINORWIG

Miss Marian Jones, Minallt, 7 Bro Elidir, Dinorwig. 870292

NOSON ARWERTHIANT. Nos Wener, 14 Medi, am 6.30 o'r gloch yn Festri Capel Coch, Llanberis, cynhelir Noson Goffi gyda stondinau llyfrau, bric a brac, tombola, cacennau ac amryw gystadlaethau.

Bydd yr elw i'w rannu rhwng Ymgyrch Cristnogol Sierra Leone a Chynllun Efe (Efengyl Dros Fro Eco'r Wyddfa) – i gael gweithiwr ieuenctid Cristnogol i'r ardal.

Croeso cynnes i bawb o'r ardal.

TYMOR NEWYDD. A'r gwyliau yn tynnu tua'r terfyn dyma ni yn wynebu ar dymor newydd. Llongyfarchiadau i'r ifanc a wnaeth yn dda yn yr arholiadau ac sy'n wynebu ar fywyd newydd yn y coleg neu mewn swyddi ac, wrth gwrs, i'r plant a fydd yn cychwyn yn yr ysgol am y tro cyntaf, a'u bywydau bach yn newid. Pob lwc i holl blant yr ardal i'r dyfodol.

LLONGYFARCHIADAU calonog i Mr a Mrs Andrew Griffith, Tan y Bwlch, ar ddathlu eu Priodas Ddeiamwnd ar 15 Gorffennaf. Pob bendith ac iechyd i'r ddau i'r blynyddoedd a ddêl hefyd.

Llongyfarchiadau hefyd i Andrew ar ddathlu ei ben-blwydd yn 92 yn ystod mis Awst. Y mae'n brysur iawn trwy roi gryn sylw i'r merched ac y mae yn dal i yrru ei gar o hyd ac, wrth gwrs, ar ben y rhestr mae gwylio y bêl-droed. Da iawn Andrew, daliwch ati.

GADAEL EIN CARTREFI. Chwithdod mawr i ni yw gweld 1 Bro Elidir yn wag a Mrs Alice Thomas ddim yno mwyach. Mae Mrs Thomas wedi cartrefu bellach ym Mhlas Pengwaith, Llanberis, a da yw deall ei bod yn setlo i lawr yno hefyd.

Chwith meddwl fod Mrs Laura Williams, Tan y Fron, wedi gorfod gadael ei chartref. Y mae Mrs Williams wedi cartrefu ym Mhlas Garnedd, Llanberis, a hithau yn setlo i lawr yno.

Carem fel ardal anfon ein cofion at y ddwy ac hefyd at Mrs Katie Lloyd Hughes, hithau hefyd ym Mhlas Garnedd. Diolch am gartrefi fel hyn a diolch am y gofal y mae'r tair yn ei gael gan y rhai sydd yn gofalu'n dyner amdanynt.

ADREF O'R YSBYTY. Da yw cael rhoi croeso adref i Mr Derek Williams, Bron Eilian, sydd wedi bod i mewn ac allan o'r ysbyty gryn dipyn yn ystod y gwyliau. Gobeithio, Derek, dy fod yn teimlo yn well ac na fydd yn rhaid mynd i'r ysbyty eto. Brysia wella er mwyn inni gael dy weld allan unwaith eto.

CROESO'N ÔL I'R ARDAL. Croesawyd y Canon Idris Thomas yn ôl i Ddinorwig ar y Sul olaf yng Ngorffennaf, pryd yr oedd yn pregethu yng Nghapel Sardis. Derbyniodd groeso twymgalon gan yr aelodau a oedd yn bresennol. Llwybrau a chraig oedd ei destun, y ddau beth yn berthnasol i Ddinorwig. Mwynhawyd yr oedfa yn fawr

DIOLCH. Mae Andrew ac Alice Griffith, Tan y Bwlch, am ddiolch yn fawr am y dymuniadau da a'r rhoddion hael a dderbyniwyd ganddynt ar achlysur eu Priodas Ddeiamwnt ar 15 Gorffennaf. Diolch yn fawr i Ann, Valerie ac Awen am baratoi gwledd arbennig yn y cartref i'r teulu a'r ffrindiau, a diolch am ganu swynol y côr.

LANSIO LLYFR. Caiff llyfr y Canon Idris Thomas, Trefor (gynt o'r ardal) o'r enw *Gwynfyd Gwaun Gynfi* ei lansio yn Eglwys Llandinorwig ar nos Fercher, 19 Medi am 7.00 o'r gloch. Ym Medi, mae Eglwys Llandinorwg yn dathlu canrif a hanner ers ei sefydlu ac mae llyfr Idris yn gronicl manwl a difyr o'r eglwys ers ei dechreuad hyd heddiw.

Llwyddiant oedd ei lyfr *Pêl Goch ar y Dŵr* yn 1999 a bydd ei lyfr diweddaraf yn siŵr o fod yn boblogaidd hefyd. Bydd croeso mawr i bawb i'r lansio ar 19 Medi a bydd yn llyfr ar werth yno. Diolch arbennig i Idris eto am gofnodi hanes ei blwyf genedigol.

CLWB ORWIG. Mwynhawyd cystadleuaeth Gosod Blodau gan aelodau y clwb uchod yng Nghanolfan Blue Peris yn ddiweddar. Y beirniad oedd Mrs Theta Owen a llongyfarchodd bawb ar safon uchel eu hymdrechion.

Yng nghyfarfod olaf y tymor mwynhaodd yr aelodau ginio ysgafn a chael blasu'r cacennau cartref a oedd yn rhan o gystadleuaeth i'r aelodau. Y beirniad oedd Phillip, cogydd y Ganolfan, a'i ddedfryd oedd fod pob ymdrech yn haeddu'r wobr gyntaf.

Llongyfarchwyd Alice ac Andrew Griffith ar ddathlu 60 mlynedd o fywyd priodasol a chyflwynwyd basged o flodau iddynt.

R.M. (DIC) PARRY
PEINTIWR AC ADDURNWR
PRISIAU RHESYMOL
TAWELFA, PENISARWAUN
Ffôn: (01286) 870846

RAS YR WYDDFA



Llun y cychwyn a llun yr enillydd, sef Andi Jones mewn amser o 01:05:38

Unwaith eto eleni denwyd y torfeydd i gefnogi'r rhedwyr yn y ras arbennig hon. Y mae ymroddiad y cystadleuwyr yn anhygoel, ac oedrannau rhai ohonynt yn rhyfeddu rhywun. Dyma beth yw gwir ymroddiad i gamp – yn adlewyrchu gwir naws yr amatur. Rhaid cydnabod hefyd gynhyrchiad teledu ein cwmni teledu lleol – Cwmni Da – am eu rhaglen raenus ar y ras. Braf oedd gweld y rhedwyr lleol yn cael sylw.

Mae nifer ohonynt wedi cefnogi y ras hon ers blynyddoedd – ac yn edrych ymlaen am y nesaf! Llwyddodd y rhaglen i gyfleu eu hymroddiad wrth baratoi ar gyfer eu diwrnod mawr. Yna crefft y rhedwyr ar y mynydd, gan gofio y grefft arbennig wrth ddod lawr, ac osgoi cerddwyr a gwylwyr ar yr un pryd. Ystyr byd y campau yw herio yr hunan, yr amgylchiad a'r gwrthwynebydd. Yn hyn o beth y mae'r ras hon yn arbennig, a diolch i bawb lleol am eu trefniadau trylwyr pob blwyddyn.

Y tad a'r mab yn rhedeg ras yr Wyddfa.
Dyfed Whiteside Thomas (oed 32) amser 01:34:41
a Dafydd Whiteside Thomas (oed 60) amser 01:39:17.

Caffi Caban

ar Agor

9 y bore tan 4 y pnawn - 7 diwrnod yr wythnos

Cwmni cydweithredol di-elw yw Caban Cyf. wedi ei sefydlu i hwyluso datblygiad economaidd cefn gwlad.

Nod Caban Cyf. yw rheoli gweithrediad cynaliadwy sydd yn cynhyrchu incwm drwy ei brif weithgareddau refeniw (Caffi Trwyddedig, Ystafell Cynhadledd a Gwasanaeth Argraffu a Llungopio) ac ar yr un pryd i gefnogi busnes lleol (Unedau Busnes Caban) er mwyn creu cyfleoedd gwaith.

Caban, Yr Hen Ysgol, Brynrefail

www.caban-cyf.org caban@caban-cyf.org

01286 685 500 (caffi) 01286 685 462 (swyddfa)

Am gymorth:

- i gychwyn prosiect
- i gael hyfforddiant
- i geisio am grant
- i redeg mudiad
- i wirfoddoli

MANTELL GWYNEDD

Yn cefnogi grwpiau gwirfoddol a chymunedol

Supporting voluntary and community groups

cysylltwch â Mantell Gwynedd

– yn cefnogi grwpiau gwirfoddol a chymunedol

ymholiadau@mantellgwynedd.com www.mantellgwynedd.com

01286 672626 neu 01341 422575

Elusen Gofrestredig 1068851 • Cofrestrwyd yng Nghymru • Cwmni Cyfynedig drwy Warant 3420271

CHWILOTA

ATGOFION AM EISTEDDFODAU'R URDD.

Bu cryn dipyn o ymateb i wahanol eitemau a ymddangosodd yn y golofn yn ystod y deufis diwethaf, ond yn enwedig felly, yr atgofion am eisteddfodau cynnar yr Urdd yn ystod y 1930'au. Felly, dyma ddiolch ymlaen llaw i bawb am eu galwadau ffôn a'u llythyrau, a'u lluniau.

Roedd dwy o'r rhai a gysylltodd yn amau mai coron am draethawd a enillodd Jennie Arfon Williams o Frynrefail, ac nid am farddoniaeth. Awgrymwyd mai traethawd ar hanes Cymru oedd y teitl. Un arall yn credu mai am adrodd yr enillodd y goron.

Roedd Ieuan Williams o Reading (gynt o Lwyncoed) yn cofio am eisteddfod Ffestiniog hefyd, ac yn aelod o'r côr buddugol yno. Cofia fel y cafodd orchymyn i **eistedd** ar y llwyfan am ei fod yn canu *'un nodyn yn uwch na phawb arall'*! Roedd bechgyn y côr yn gwisgo crysau gwyn, teis coch a gwyrdd, a throwsusau glas tywyll neu ddu. Gwisgai'r genethod flowsus gwyn, sgertiau du a blazers gwyrdd gyda'r ddraig goch ar y boced. Tarian enillodd y côr yn y gystadleuaeth honno – un fawr i'w chadw am flwyddyn, ac un llai i'w chadw am byth. Tybed beth ddigwyddodd i'r darian fach honno?

Gan Ifan Wyn Williams o Langefni (gynt o Frynrefail) y daeth yr adroddiad llawnaf. Dywed ef nad oedd neb o blant Cwm y Glo yn perthyn i'r Adran ym Mrynrefail, ond fod ambell unigolyn o Benisarwaun a'r Fachwen wedi ymuno. Un ohonynt oedd Napier Williams o Benisarwaun, a gipiodd Fedal y Rhuban Glas i rai dan 25oed yn y Genedlaethol yn 1949. Mae Ifan Wyn Williams yn mynd yn ei flaen i dddweud *'mai canolfan gymdeithasol y pentref yn y 30'au oedd festri'r capel. Pobol y capel oedd yn ein hyfforddi ac yn trefnu'r cyfarfodydd.'* Bryd hynny, roedd dwy gystadleuaeth nad ydynt ar raglen unrhyw eisteddfod bellach, sef parti canu salm dôn a pharti chwibannu. Gan mai capelwyr oedd y mwyafrif o aelodau'r Urdd ym Mrynrefail, doedd hi ddim yn arferiad canu salm, ac felly bu'n rhaid cael eglwyswr – Nathan Williams, Dinorwic House – i'w dysgu.

'Mae'n rhaid fod Eisteddfod Sir wedi bod yn 1936, oherwydd rwy'n cofio i'r Adran fod yn bencampwyr, a hynny tua mis Chwefror neu Fawrth. Dangosodd plant Penygroes eu siomiant drwy bledu ein bws â pheli eira.'

Y cof sydd ganddo am Eisteddfod Ffestiniog yw'r ffaith fod y maes yn ddiflas iawn (ar safle ysgol bresennol y Manod y cynhaliwyd yr eisteddfod honno), a phenderfynwyd mynd i chwilota am un o'r chwareli tanddaearol – peth anarferol iawn i blant y fro hon, gan fod Chwarel Dinorwig ar yr wyneb. Er i griw o'r plant fentro i mewn i'r oerni dan ddaear, gwelwyd clamp o lygoden fawr, a heglodd pawb yn ôl am faes y 'steddfod!

'Nid wy'n cofio i neb o'r Adran fynd i Eisteddfod Caerfyrddin, oherwydd efo trên y byddai bron pawb yn teithio o'r gogledd i'r de bryd hynny. Nid wy'n credu 'chwaith y buasai neb yn gallu fforddio tridiau o'r chwarel i fynd â chriw o blant i 'steddfod. Byddai Jennie Arfon yn ennill yn aml am adrodd, ac yn cael ei hyfforddi gan Mrs Edward Thomas. Byddem hefyd yn cystadlu ar waith llaw a llenyddiaeth. Efallai mai am rai o'r campau hynny yr enillwyd y tlysau sydd ym meddiant Eirwyn.'

Un o'r rhai a fyddai'n ennill ar gystadlaethau arlunio oedd Allan Jones, Yr Allt. Enillodd un gystadleuaeth am wneud darlun penigamp o un o fysus Crosville, a bu'r llun hwnnw yn hongian ar wal yn y cartref am flynyddoedd. Mudodd Allan Jones i Ganada, ac yno y bu farw rai blynyddoedd yn ôl.

Yn Eisteddfod Ffestiniog hefyd y gwelwyd 'bi-plane' ar lawr – y tro cyntaf erioed i blant Brynrefail weld unrhyw fath o awyren ar lawr. Roedd awyrennau mor anarferol bryd hynny fel y byddai plant yn sefyll a syllu ar unrhyw awyren a fyddai'n hedfan uwchben.

Mae cof ganddo hefyd am Fabolgampau'r Urdd ym Mangor.

'Ar gae pêl-droed Bangor y cynhaliwyd hwy, ac roedd cannoedd o blant yno – i gyd o'r gogledd mae'n siŵr. Gwisgai bawb grys gwyn a throwsus llwyd penglin (tair ar ddeg oedd yr oedran i gael trowsus llaes bryd hynny!). Dwi ddim yn cofio unrhyw gystadlu ar redeg a neidio, ond rwy'n cofio gwneud ymarferion 1,2,3. Pawb yn lledu eu breichiau a'u coesau ac yn amseru'r cyfan i fiwsig. Roeddem wedi bod yn ymarfer am hydoedd yn iard yr ysgol fach ym Mrynrefail. Dyna'r tro cyntaf erioed i mi droedio cae pêl-droed Bangor.'

Mae ganddo gof hefyd o Yncl Tomi (sef tad Eirwyn Williams, Llwyncoed) yn adrodd fod *'pobol yr Urdd'* wedi bod yn edrych ar gae ger Tros yr Afon, Brynrefail, fel lle i adeiladu neuadd ar gyfer yr Adran, ond mae'n debyg y byddai'r gost wedi bod yn ormod i'r pentref o gofio mai £1-13-4 yr wythnos oedd cyflog yn y chwarel bryd hynny.

Does dim llawer o gyn-aelodau Adran Brynrefail ar ôl erbyn hyn, ond hoffai Ifan Wyn anfon ei gofion cynnes at bawb ohonynt sy'n darllen yr ychydig atgofion hyn.

Adroddwr arall a gafodd gryn lwyddiant ar ddiwedd y 30'au oedd y diweddar Bob Williams, Fron Hywel, Pontrhythallt; nid yn eisteddfodau'r Urdd, ond yn y Genedlaethol ei hun. Daeth i'r brig yn ddeunaw oed, gan ennill y wobr gyntaf am adrodd dan 25 oed yn Eisteddfod Genedlaethol Dinbych 1939. Adroddai dan yr enw 'Bob y Fron', a chafodd lwyddiant mawr yn eisteddfodau'r cylch hyd nes y torrodd y rhyfel allan ac amharu ar ei iechyd. Y darn gosod yn Eisteddfod Dinbych oedd darn o ryddiaith o waith Kate Roberts – 'Meddyliau Siopwr'. Arferai deithio o Bontrhythallt i Hafod y Rhug ar ei feic yn rheolaidd, lle câi ei hyfforddi gan Griffith Parry. Roedd llawer o adroddwyr eraill y fro yn cael hyfforddiant yno hefyd.



Bob Williams, Fron Hywel, Pontrhythhallt.



EISTEDDFOD GENEDLAETHOL FRENHINOL CYMRU DINBYCH

Awst 7–12, 1939.

Hyn sydd i anrhydedd fod Bob Williams

Wedi ennill y wobr am Adroddiad Unigol

Cadeiryddion y Pwyllgor Cerddorol

Ysgrifennydd Cyffredinol

Y dystysgrif a enillodd Bob am adrodd yn 'Steddfod Dinbych 1939.

Teulu o Gwm y Glo

Daeth gwybodaeth gan Marian Davies, Llanberis, ynglŷn â theulu Bod Gwynedd. Mae'n cadarnhau fod G. Morris Jones o'r un cyff a Syr John, a bod aelodau o'r teulu yng Nghaernarfon, Abergele ac Awstria.

Haf Gwlyb

Do, bu cwyno ynglŷn â'r haf eleni, ar wahân i'r pysgotwyr efallai! Ond bu eraill cynddrwg yn hanes y fro. Dyma gofnodion bras am haf gwlyb iawn a gafwyd yn 1756. Roedd mis Awst yn hynod o wlyb, a chafwyd llifogydd difrifol. Yn wir, sgubwyd y Felin Wen ym Mhontrug ymaith gyda'r llifeiriant, ac y mae cofnodion ar gael sy'n nodi cost ei hatgyweirio. Costiodd y cyfan £5-13-9.

Bu'n rhaid talu i ryw David Owen am gario coed yno, a bu'r saer melinau, Richard Williams, wrthi am 25 niwrnod yn gosod y meini melin yn eu lle, yn llifio a gosod y coed. Talwyd i John Roberts, y gof, am gylchoedd haearn, echel a 'picking hammer' beth bynnag oedd hwnnw. Gini oedd y pris a dalwyd am y meini melin i Evan Griffith, a phunt i Roland Owen am eu cario. Talwyd hefyd i Richard Roberts am y canlynol: 29 English irons, double spicker, malet mould, blister steel a 300 o hoelion. Roedd manion eraill mewn llafur yn gwneud y cyfanswm.

O leiaf, cafodd chwech o ddynion lleol gyflog eithaf o ganlyniad i'r glawogydd!

Medalau Canmlwyddiant yr Ysgol Sul

Ymhlith y medalau o eisteddfodau'r Urdd gan Eirwyn Williams, Llwyncoed, yr oedd un arall, nad oedd yn bosibl darllen yr holl ysgrifen arni. O fewn yr wythnos daeth gwraig o'r fro (fedra' i yn fy myw gofio pwy ar hyn o bryd!) i'r Archifdy yn holi am fedal yn union yr un fath. Felly, er mwyn taflu goleuni ar y ddwy fedal, dyma luniau ohonynt. Fe'i bathwyd i ddathlu canmlwyddiant yr Ysgol Sul. Ar un ochr mae'r geiriau 'Thomas Charles o'r bala, Sylfaenydd yr Ysgol Sabbothol yng Nghymru. Ganwyd Hydref 14, 1755. Bu farw Hyd 5. 1814.' Ac ar ochr arall y fedal mae'r geiriau 'Canmlwyddiant yr Ysgol Sabbothol yng Nghymru 1885.' – ac yna'r adnod 'Chwiliwch yr ysgrythyrau...'



Medalau Canmlwyddiant yr Ysgol Sul.

(Parhad ar dudalen 18)

DODREFN PERKINS
(Safle'r hen Nelson)
CAERNARFON
Ffôn: (01286) 676 040
- **Pob math o ddodrefn tŷ**
- **Cegin, 'stafell fyw, llofft**
- **Prisiau cystadleuol**
- **Carpedi, Llenni a Lloriau Pren**

CYNGOR CYMUNED LLANDDEINIOLEN

Yr Eisteddfod Genedlaethol
Dymuna'r Cyngor longyfarch yr holl berfformwyr a'r cystadleuwyr o'r ardal am eu gwaith graenus a'u llwyddiannau yn yr Eisteddfod eleni.

Llwybrau cyhoeddus
Weithiau bydd camddealltwriaeth ynglŷn ag union leoliad rhyw rwystr ar lwybr. Er mwyn arbed hyn gofynnir, yn garedig, i'r cyhoedd gadarnhau eu cŵyn â llun, os oes modd, neu o leia nodyn byr i ddisgrifio'r rhwystr a'r lleoliad.

Crynodeb O Cyfarfodydd 3 a 31 Gorffennaf 2007.

Penodi swyddogion y flwyddyn
Etholwyd Huw P. Hughes, Bethel, yn Gadeirydd a Geraint Hughes, Deiniolen yn Is-Gadeirydd.

Llwyddiant
Cyfeiriodd y Cadeirydd at lwyddiant Richard Llwyd Jones yn ennill Cadair Eisteddfod Castell Newydd Emlyn a dwy gystadleuaeth arall yn yr un Eisteddfod. Penderfynwyd ei longyfarch ar ran y Cyngor.

Materion o'r cofnodion
Dywedodd Len Jones bod arwydd 'Marchlyn' ger Erw Fair wedi ei Gymreigeiddio, gan ddiolch am hynny.

Chwarel Fachell
Derbyniwyd ateb Gwynedd nad yw'r arwyddion 'Perygl' yn golygu bod bodolaeth y teithwyr yn barhaol. Eglurodd y Cadeirydd bod rhybudd swyddogol iddynt fynd oddi yno erbyn y 7ed o Dachwedd.

Cysgodfannau bws Dinorwig.
Cafwyd prisiau am eu hatgyweirio: G.J.K. Builders Ltd, Deiniolen a G.W. Owen, Bethel. Gan bod y cysgodfannau yma o adeiladwaith gwahanol i'r gweddill ac heb eu hatgyweirio erioed penderfynwyd rhoi archeb i G.J.K. Builders.
Cyfeiriodd Len Jones at y 50mya ar hyd rhan o'r A4244 ond bod y 60mya yn parhau ar rai o'r ffyrdd llai sy'n mynd ohoni, e.e. Ffordd Perthi, Ffordd Cae Coch – llythyr i Wynedd.

Atebion Gwynedd:
1. Car oedd wedi ei adael o flaen ysgol Penisa'rwaun, mae'r car wedi ei symud bellach.
2. Glanhau ffordd Cae Hywel – bydd peiriannydd ardal Arfon yn edrych i mewn i'r mater yma
3. Arwydd 'Caban', Brynrefail yn tywys ymwelwyr drwy'r pentref – hon yw'r ffordd fyraf, hefyd mae hyn yr un cyfeiriad â'r bwsiau.
4. Llinellau melyn trwy Frynrefail – bydd Swyddog Ffyrdd yn ymweld â'r safle yn fuan.
5. Hen geir ger pont Brynrefail – bydd Rheolwr Gofal Stryd yn delio â hyn.
6. 30mya Allt Sam i gyfeiriad Racca – nid yw'r safle yn cydymffurfio â'r canllawiau i gyfyngu'r cyflymder gan nad oes llawer o ddatblygiadau yno.

Gangiau cymunedol Ardal Arfon.
Cafwyd cyflwyniad manwl gan Geraint Hughes ar y math o waith a wneir gan y gangiau. Yr Arolygwr Ffyrdd sy'n trefnu'r rhaglen waith yn ôl y galw. Y prif waith yw glanhau a thwtio ochrau ffyrdd a llwybrau, barbio a thacluso ardal. Pedwar dyn sydd mewn gang.

Croesawodd awgrymiadau gan yr aelodau i wella safleoedd, ac addawodd y Clerc gydlynnu'r ceisiadau a'u danfon i'r Adran.
Trafodaeth: Datganodd Len Jones bryder mai dim ond chwe gang sydd trwy Wynedd gyfan a bod posibilrwydd i'r trefi gael blaenoriaeth. Dywedodd Huw P. Hughes bod bosiblrwydd y bydd mwy oherwydd llwyddiant y cyllun presennol. Cyfeiriodd Richard Ll. Jones at waith arbennig o dda a wnaed ganddynt ym Methel, mae llai o luchio ysbwriel lle mae gwair wedi ei dorri'n daclus. Diolchodd y Cadeirydd i Geraint am ei gyflwyniad cryno ac am y drafodaeth.

Cyfeiriodd Len Jones, yn yr ail gyfarfod, at y rhagen waith a'r dyddiad o ddechrau yn Neiniolen ar y 6ed o Orffennaf.

Gohebiaethau a materion eraill.
Un Llais Cymru. Cynhelir y Gynhadledd Flynyddol yn Llandrindod ar y 13eg o Hydref. Enwebwyd Huw P. Hughes a Richard Ll. Jones i gynrychioli'r Cyngor.

Gorchymyn Gwynedd i gyfyngu'r cyflymder i 40mya o Fethel heibio i Erw Buan.

Dywedodd Hefin Williams bod y clo yn parhau ar gât ar lwybr Carreg y Gath a bod camddealltwriaeth wedi digwydd ynglŷn ag union leoliad y clo. Awgrymodd gofyn i'r cyhoedd, trwy gyfrwng y Papurau Bro, i dynnu llun neu anfon nodyn i ddisgrifio unrhyw anhawster ar lwybr i arbed hyn ddigwydd eto.

Cyflwynwyd ateb Gwynedd nad oes bwriad cyfyngu'r cyflymder i 50mya ar y ffyrdd bychain o'r A4244 – amlygwyd anfodlorwydd. Dywedodd Mrs Larsen y dylai'r 50mya gyrraedd at Groeslon Tŷ Mawr, neu o leia at Efail Castell. Bu llawer o ddamweiniau ar y gyffordd honno. Penderfynwyd hysbysu Gwynedd o hyn ac amlygu'r anfodlonrwydd.

Mynwent Macpelah – ateb Gwynedd yn gofyn am £1.44 am bob casgliad 'bin brown' – ateb i'w hatgoffa mai eu Cyngor hwy sy'n gyfrifol am y fynwent.

Dywedodd Phyllis Ellis bod llythrennau yn dal ar goll o arwydd 'Penisa'rwaun' – llythyr i atgoffa Gwynedd.

Ymddiriedolaeth Deiniolen. Penodwyd Len Jones i gynrychioli'r Cyngor ar Fwrdd yr Ymddiriedolaeth.

Cyfeiriodd Len Jones y gŵyn a wnaed gan Gwilym Williams ynglŷn â'r tyfiant i'r ffordd heibio i Gerlan, Clwt y Bont. Dywedodd y Clerc, gan bod cymaint o amser ers y llythyr gwreiddiol i Wynedd, ei fod wedi gofyn iddynt am ddyddiad eu rhybydd i'r tirfeddiannwr i'w dorri, ond ni ddaeth ateb. Penderfynwyd ysgrifennu eto gan ychwanegu bod tyfiant ar rannau o'r ffordd o Glwt y Bont at Groesffordd Racca.

Cynllunio
Cais Cefn Coch, Deiniolen: Lladd-dy newydd ar gyfer defnydd masnachol ac amaethyddol ar dir Pen y Cefn (Cynllun diwygiedig i'r hyn a ganiatawyd eisioes).

Derbyniwyd pum llythyr yn Saesneg oddi wrth gymdogion: dau yn gwrthwynebu'r cais, un yn gofyn am ail-leoli'r datblygiad i diriogaeth Cefn Coch ac un arall yn pwyso ar amodau gweithredu a thrafnidiaeth.

Trafodwyd hyn yn fanwl gan ystyried bod lladd-dy wedi ei ganiatáu ym 1986 ac mai ychwanegiad, i brosesu cig, yw'r cais presennol. Penderfynwyd cefnogi'r cais.

Y rheswm i Gyngor Gwynedd yw bod hyn yn gam ychwanegol i'r hyn a ganiatawyd eisioes.

Derbyniwyd 11 cais cynllunio, caniatawyd 14 a gwrthodwyd 2. Os oes rhywun angen gwybod mwy amdanynt cysyllter â'r Clerc (01286 871416)

Llwybrau
Dywedodd Pat Jones bod gwir angen torri gwair ar y llwybr o Llain Hir i Stablau – gofyn i Menter Fachwen ei wneud yn fuan. Atgoffodd Hefin Williams y Cyngor bod y clo yn parhau ar lwybr Carreg y Gath – cwyn eto i Wynedd. Cyfeiriodd Len Jones at or-dyfiant ar y llwybr o Glwt y Bont at yr Hen Felin – hysbysir Menter Fachwen. Dywedodd Hefin Williams ei fod wedi trafod anghenion llwybr Carreg y Gath a llwybr Tros y Waen gyda Swyddogion Gwynedd.

Camymddwyn ieuenctid
Dywedodd Len Jones mai'r arfer diweddaraf yw gwneud peli *papier-mâché* a'u lluchio at ffenestri. Maent hefyd yn dringo'r Gofgolofn. Deiniolen yw'r dynfa o bentrefi eraill ar hyn o bryd. Nid yw'r Heddlu yn ymateb yn ddigon buan, weithiau bydd hyd at dair awr rhwng galwad ffôn a'r ymweiliad.

Penderfynwyd ysgrifennu at y Prif Uwcharolygydd Gareth Pritchard.

(Parhad o dudalen 17)

Ydych chi'n Cofio?
Ydych chi'n cofio y tri llun a ymddangosodd ar dudalen 9 o rifyn Gorffennaf o'r *Eco?* Daeth gwybodaeth am ddau o'r lluniau, ond hyd yma, does neb wedi cysylltu i ddweud unrhyw beth am y llun o'r hogia ysgol mewn hetiau caled.

Gan Alwen Roberts o Lanberis y daeth yr enwau ar gyfer y dosbarth o blant ysgol Dolbadarn – Standard 4 yn 1958, a dyma'r enwau:
Rhes flaen (chwith i'r dde): Maureen Owen, Alwen Mai Burford, Ann Owen, Mary Wyn Pritchard, Ceridwen Glyn Roberts, Judith Laird (?), Ann Roberts, Ann Gwendoline, Muriel Vaughan Thomas (yn tynnu ei thafod!) a Helen (?).
Rhes ganol (chwith i'r dde): Leon Lambrecht, Vivian Owen, Gwyndaf Hughes, Sheila Roberts, Eurwen Pritchard, Kathleen Riley, Sylvia Williams, Pat Vyrnwy Jones, Leslie Wyn Roberts, Ray Roberts.
Rhes gefn (chwith i'r dde): Barry Thomas, Colin Jones, Glyn Williams, Selwyn Allsupp, Ieuan Roberts, Iwan Williams.
Y prifathro oedd R. E. Jones, a'r athrawes, Miss Pat Burgess (Mrs Larsen).
Enwau morwynol y genethod yw'r uchod i gyd.

* * *

Mae'r ail lun yn dangos rhai o hogia ifanc (bryd hynny) Llanberis a'r cylch ar ymweliad â Rasus y TT yn Ynys Manaw. Daeth y wybodaeth gan Clifford Williams, Llanrug, ac y mae cyd-ddigwyddiad go arbennig yn gysylltiedig â'r llun hwn.

Dyma'r enwau (chwith i'r dde): Wil Ty'n Fawnog, Dinorwig; Elwyn Lloyd Hughes, Llanberis; Griffith Humphreys (Guto Gwyndy); Richard Owen Roberts (Dic Cochyn). Credir mai Glyn Harries yw un o'r tri yn y rhes flaen.

Mae mab Clifford, sef Iwan Williams, yn ŵyr i Guto Gwyndy, ac wedi priodi Meinir, wyres Dic Cochyn.

Atgofion am yr 'Home Guard'
Os oes gan unrhyw un ohonoch atgofion, neu'n fwy arbennig, luniau o'r 'Home Guard' yn yr ardal hon, yna cysylltwch.

Rwy'n ymwybodol fod eraill wedi cysylltu ynglŷn ag agweddau eraill o hanes lleol, ond am y tro rhaid cau pen y mwdwl. Bydd cyfle yn ystod misoedd y gaeaf i grybwyll rhai o'r ymholiadau eraill. Cofiwch gysylltu â Dafydd Whiteside Thomas, Bron y Nant, Llanrug (Ffôn: 01286 673515).

O SIAMBAR SELWYN

Er gwaetha'r ofn am 'eisteddfod fwd' fe gawsom eisteddfod heulog a hapus yn Sir y Fflint eleni. Seremonïau i'w cofio, cystadlu o safon a chyngherddau y gallai unrhyw genedl fod yn falch o'r talentau. Cawsom, fel Gorsedd y Beirdd, gyfarfod yn wyneb haul llygaid goleuni ar y ddau fore, a gorymdeithio i'r seremonïau yn y pafiliwn ynghanol y gwres. A choeliwch chi fi, mae cerdded dros y maes mewn gwisg mor dew a thrwm yn dipyn o straen.

Profiad hapus i mi oedd cael coroni Tudur Dylan yn fy eisteddfod olaf fel Archdderwydd, gan i mi gael y fraint o'i gadeirio fo yn fy eisteddfod gynta' ar Barc y Faenol. A phrofiad yr un mor hapus oedd cael cadeirio ei 'Yncl Jim' yn fy seremoni olaf brynhawn Gwener. Jim Parc Nest yn un o aelodau ffyddlon Bwrdd yr Orsedd ac yn un o'r ffyddloniaid yn seremonïau'r Orsedd bob blwyddyn.

Yn ystod y seremoni fore Llun mi gefais y fraint o dderbyn nifer o aelodau newydd ifanc i'r Orsedd gan i ni eleni, am y tro cynta, anrhydeddu enillwyr prif gystadlaethau llenyddol Prifwyl yr Urdd. Roeddwn yn hynod falch o gael yr anrhydedd, ac o weld y talentau ifanc hyn yn derbyn y cyfle. Gobeithio yn wir y byddant yn deyrngar i'r delfrydau y saif Gorsedd y Beirdd drostynt, sef Ffyddlondeb i Gymru, i'r Iaith Gymraeg ac i'r Eisteddfod, a boed iddynt gofio nad anrhydedd am un bore yn unig ydi cael eich derbyn yn aelod o'r Orsedd. O na, mae'n anrhydedd am oes.

Roeddwn yn falch iawn o weld cymaint o brifeirdd a phrif-lenorion yn bresennol eleni ar ôl i mi erfyn arnynt y llynedd. Rhaid cofio mai o blith y rhain yr etholir Archdderwyddon y dyfodol.

Roeddwn yn falch iawn hefyd o weld y Prif Gopyn yn ei goban wen. Mae'n arferiad gen i, cyn i Feistres y Gwisgoedd fy ngwisgo, fynd i'r tŷ bach. Yn wir fe â i yno fwy nag unwaith, a hynny yn fy siorts. Mi fyddai yn gwbl amhosibl i mi fynd i'r lle chwech ar ôl i Siân Aman fy nghaethiwo yn fy nghlogyn. Dychwelyd o un o'r teithiau hyn yr oeddwn pan welodd y Prif Gopyn fi a gorchymyn i mi ddod ato a mynnu cael tynnu ei lun hefo fi. Fo, wrth gwrs, yn barchus yn ei goban wen, a minnau yn fy siorts fel petawn ar fin mynd i chwarae ffwtbol. Cyn y medrwn symud i fy ystafell roedd 'na gamerâu o'm cwmpas ymhobman.

Daeth nifer helaeth o Orseddogion ata i ar ddiwedd seremoni'r Cadeirio i ddymuno'n dda mi, a geiriau ola'r Prif Goppyn i mi oedd, 'Hwyl fawr, Sel,' a gwên fawr ar ei wyneb. Ia, hen foi iawn a digon o hiwmor ganddo, ac er i mi gael tri phwynt ganddo tua blwyddyn yn ôl, fe roddwn i ddeg iddo fo am iddo ddysgu Cymraeg, ac yn fwy na hynny am iddo fynnu ei defnyddio.

Bore Gwener, mi gefais y fraint o dderbyn hen gyfaill arall i'r Orsedd, sef Trefor Lloyd Hughes, aelod o Gymdeithas Pêl-droed Cymru. Roeddwn i wedi crybwyll hyn yn y Seremoni Cyhoeddi yng Nghaerdydd, ond manteisiais ar y cyfle i ofyn yn gyhoeddus i Trefor oddi ar y Maen Llog iddo sicrhau bod aelodau tîm pêl-droed Cymru yn dysgu geiriau ein Hanthem Genedlaethol, ac yn ei chanu hi gyda balchder ar ddechrau pob gêm. Ychwanegais y byddai gnddynt well gobaith o ennill gemau o wneud hyn, yn hytrach na sefyll yno mor fud â phost gôl. Roedd hi'n amlwg fod y dyrfa fawr o gwmpas y meini yn cytuno hefo fi yn ôl y gymeradwyaeth.

Ia, Steddfod arall i'w chofio a thair blynedd hapus iawn yn dod i ben. Roedd fy rhagflaenydd, Robyn Llŷn yn bendant o'r farn fod y swydd o Archdderwydd y swydd bwysica y gellid ei chael yng Nghymru. Doeddwn i ddim o'r un farn ag o. Ond erbyn hyn, ar ôl cael yr anrhydedd a'r profiad am dair blynedd, rwy'n tueddu i gytuno ag o. Pob dymuniad da i fy olynydd – y Prifardd Dic yr Hendre. Fe wêl Dic hefyd ei bod hi yn 'joban' eitha pwysig ac fe gaiff dair blynedd brysur a hapus, gobeithio.

Yn swyddogol mi fydda i yn parhau yn y swydd hyd nes y bydda i yn gorseddu Dic ar ddiwrnod y Cyhoeddi yn y Bala yr haf nesa, ond cyn hynnny mae 'na fisoedd prysur o'm blaen, ac edrychaf ymlaen at gael ymweld â nifer o Gymdeithasau ymhell ac agos, a gobeithiaf gael cyfle i fynd am ychydig o wyliau hefyd.

Diolch i bawb am eich geiriau caredig, y cardiau a'r galwadau ffôn. Diolch yn fawr.

GWASANAETH LLEOL AR GYFER
PARTÏON • PRIODASAU
PEN-BLWYDD
BEDYDD • DAWNS • GWYLIAU

RHOSTIO MOCHYN
AR GYFER POB ACHLYSUR

* Cig o ffermydd lleol
* Partïon rhwng 40 a 400!
* Gyda saws afal a stwffin mewn rholiau
* Efo salad hefyd os dymunwch

DEWCS, MAE O'N FLASUS!
Cysylltwch â
JOHN BRYNAFON
LLANRUG
Y DYN CIG ar 675190 / 673188
Ffôn symudol: 07798 718788
wefan: www.ydyncig.co.uk

UN FUNUD FACH

GWEDDI

Fe sylweddolais ar unwaith be roeddwn wedi ei wneud. Fe gaeais ddrws y festri yn ofalus a chofio'r eiliad honno fy mod wedi gadael goriadau'r car yn y capel. A'r un pryd, fe gofiais lle'r oedd goriadau'r capel – yn y car!!! Goriad y car dan glo yn y capel, a goriad y capel dan glo yn y car. Fe allasai fod yn broblem go fawr, yn arbennig gan fod goriad arall y car gan yr hogia yn Y Bala! Ond, diolch am hynny, mae gan fwy nag un oriad i'r capel, ac o fewn ychydig funudau roeddwn wedi cael gafael ar oriad ac wedi agor y drws, ac roedd y broblem drosodd.

Problem fach iawn oedd hi, wrth gwrs, ond byddai'n dipyn o argyfwng oni bai fy mod yn gallu ceisio cymorth. O ofyn amdano ddoe, fe gefais help mewn dim o dro. Mae yna broblemau llawer mwy yn ein hwynebu o bryd i'w gilydd, a gallwn gloddio tyllau dyfnach o lawer i ni'n hunain ar adegau eraill. Gallwn fynd i banic; gallwn ofni nad oes ffordd o'r argyfwng; gallwn deimlo fod y problemau yn cael y gorau arnom.

Peth digalon, mewn unrhyw argyfwng, yw teimlo eich bod ar eich pen eich hun heb unrhyw gymorth wrth law. A dyna braf yw hi ar y Cristion sy'n gwybod y gall gyflwyno pob problem a thrafferth a gofid i'w Dad Nefol sy'n gofalu amdano ac yn ei garu. Dyna braf yw gwybod y gellir galw am help Duw beth bynnag y broblem a pha mor ddwfn bynnag yw'r twll.

Nid wyf am eiliad yn awgrymu bod y cyfan mor syml â chael gafael ar y goriad ddoe. Mae gofidiau go iawn yn fwy dyrys na hynny. Ac nid wyf yn honni bod cael ateb i weddi bob amser yn beth mor rhwydd, fel petai gweddïo yn golygu bod pob problem wedi ei datrys ar unwaith. Ambell dro, byddwn yn gweddïo ac yn teimlo nad oes neb yn gwrando ac nad oes dim byd yn newid. Ond diolch am allu credu ar adegau felly fod Duw yn gwrando ac yn cymryd sylw o'n cri.

Fyddwn i ddim wedi cael goriad y car oni bai i mi ofyn am help. Faint o bobl sydd heb obaith dod o'u trafferthion am nad ydynt yn gallu gofyn am help Duw? Mae gan Dduw ei gysur mewn adfyd, a'i obaith mewn profedigaeth, a'i ddiddanwch mewn tristwch i'r rhai sy'n ceisio'r pethau hyn ganddo. A phwy ŵyr na allai ddatrys ambell broblem a dod â phobl o sawl twll petai pobl yn gallu mynd ato a gofyn am iddo eu helpu?

Os gwyddom am werth gweddi, ac os credwn fod y Brenin Mawr yn gwrando'n cri, mynnwn fynd yn amlach ac yn daerach ar ei ofyn. Mynnwn geisio ei gymorth bob dydd, pa mor fawr neu fach ein hanghenion.

JOHN PRITCHARD

FINE ART TRADE GUILD
ORIEL CWM
Cwm y Glo
Ffôn/Ffacs: (01286) 870882
Gwasanaeth Fframio
Lluniau o bob math
ar gael ar y safle
Prisiau Rhesymol
Arddangosfa o luniau
gwreiddiol gan
Artistiaid Lleol
Richard S. Humphreys

Côr LL55

Cafwyd noson i'w chofio yn y Rheithordy nos Iau, yr unfed ar bymtheg o Awst, wrth i Gôr LL55 gynnal noson gymdeithasol. Rhostiwyd mochyn a cyflwynwyd siec o £500 i drysorydd Cynllun 'Efe' gan aelodau o'r côr.

Diolch i bawb a gyfrannodd tuag at lwyddiant y noson mewn unrhyw ffordd, yn arbennig i Linda, Valerie a Kath am wneud y trefniadau ac hefyd i'r Parchedig Robert Townsend a Kath, ei wraig, am agor eu haelwyd.

AROS PRYD

hefor' 'un garw am ei fol'

(1) Caban, Brynrefail

Cefais gyfle yr haf hwn i daro draw yma ac acw, ac eistedd mewn steil yn rhai o'r lleoedd bwyta yn nalgylch *Eco'r Wyddfa*. Y mae'r wraig 'cw'n poeni'n enbyd erbyn hyn fy mod yn dal mor denau ag erioed, ac nad ydwyf heb ychwanegu'r un gronyn lleiaf at fy mhwysau, er imi f'yta ac yfed hyd lawnder, a hynny mewn nifer go dda o fwytai tra rhagorol. Ond dyna fo, teithio'r dalgylch a wnes i'n ddi-fodur, a cherdded o gaffi i fwyty, ac o dafarn i westy.

Un o'r bwytai tra rhagorol y cefais bryd da o fwyd ynddo ydoedd y Caban, Brynrefail, a hynny am lai na chwe phunt. Caffi trwyddedig ydyw hwn sy'n agored i'r cyhoedd, (9.00 hyd 4.00) bob diwrnod o'r wythnos.

Cwmni cydweithredol cyfyngedig dan warrant sydd yng ngofal y sefydliad, eglurodd Sallie Ellis wrthyf, ac fel y siaradwn â hi rhyfeddais ati. Er mai dieithryn oeddwn i mi roedd y croeso'n fawr a'r diddordeb a gymerai hi'n y Caban yn dra canmoladwy – dyna'n wir yr hyn a ganfyddais yn yr Alban tra yno ar wyliau, a rhywbeth a berai i un ar grwydr fynnu aros a bwyta mewn man arbennig, a'r cof amdano'n parháu, hyd nes mynd ati i ddychwelyd yno ar deithiau eraill.

Oes! mae yma ddau lawr, hefo lifft a grisiau'n arwain i'r llawr isaf, ble y mae'r toiledau, ac oriel darluniau ynghyd â stafelloedd cyfforddus ar gyfer cynnal cynadleddau. Lleolwyd hwylusfa i'r anabl mewn man cyfleus ar y llawr uchaf, ac os ydych mewn cadair olwyn, dyma'r union gaffi y dylech fynd iddo. Ceir digonedd o le rhwng y byrddau, a drefnwyd ar gyfer deuoedd, pedwarawdau, neu deuluoedd. Campus a chanmoladwy'n wir!

Fel y datgelir ar y fwydlen Gymraeg ei hiaith, Cwmni Caban sy'n rheoli'r adeilad a'r safle ym Mrynrefail, a hynny er mwyn darparu, ymysg pethau eraill, unedau fforddiadwy ar gyfer mentrau creadigol lleol, i ddarparu gwasanaethau cynhaliol i'r gymuned busnes leol, a darparu gwasanaethau am ddim i'r ysgolion lleol. Caiff unrhyw elw a wneir ei ddefnyddio'n ddoeth er mwyn gweithredu'r amcanion uchod.

Disgrifiwyd y Caban ar gerdyn hysbysebu o'u heiddo fel caffi cyfeillgar mewn lleoliad ysblennydd, ac ar y diwrnod dan sylw un ymhlith llawer oeddwn i, a nifer o bobl a phlant yn eistedd, gan fod y tywydd mor braf, oddi allan i'r caffi. Mewn un congl tu mewn i'r caffi bu imi sgwrsio hefo mamau a'u plant, a chanmolent y bwyd, gan ddweud ei fod yn dda, a chwbl rhesymol o ran ei bris, a'u bod yn ymwelwyr cyson hefo'r caffi.

Sylwais hefyd fod lleoedd addas i barcio moduron gerllaw. Tu allan i'r caffi goleuedig gosodwyd cewyll bwydo adar hawdd eu gweld drwy'r ffenestri mawrion. Y diwrnod hwnnw nid pobl oedd yr unig rai a gâi eu bwydo. Yn ystod yr awr a phum munud y bûm yn y Caban ymwelodd teulu'r titw tomos las nifer o weithiau hefo'r cewyll cnau.

A'r staff? Doedd 'na ddim byd yn ormod o drafferth gan y personau a weinyddai arnaf. Y ferch ifanc a ofalai amdanaf ydoedd Gemma. Un o Luton, Lloegr, ydyw Gemma, ac yn rhugl ei Chymraeg. Yn y Gymraeg y cymerodd yr archeb, a phan ddychwelodd hefo'r bwyd, y Gymraeg a ddefnyddiodd bob cyfle. Sgwrsai fel Cymraes cwbl naturiol. Pwy fuasai'n meddwl iddi ddysgu'r iaith Gymraeg. Da iawn chdi Gemma.

Fel y gweinyddwyr eraill mi roedd hi'n gwenu, ac yn gofalu fod popeth ar gael, yn gyllell a fforc, cyflenwad da o lefrith, cwpan de fawr, tebot hefo te blasus, (oes mae 'na ddewis o wahanol fathau o de, ac hefyd digonedd o goffi amrywiol, a gwinoedd, hynny ydy' os ydych eisiau rhyw newid bach).

Defnyddir yn y caffi gymysgedd o gynhwysion ffres, cynnyrch organig, a brynir gan gyflenwyr lleol, ynghyd â ffrwythau a llysiau a dyfir yn yr ardd sydd ar y safle. Y bwyd a ddewisiais oedd salad, bara coch wedi ei wneud hefo grawn organig, caws godidog, a chawl cennin, a hynny o'r rhestr gynhwysfawr, a gynhwysir ar fwydlen arbennig ac a newidir yn ddyddiol. Ew! bendigedig wir! Popeth yn ffres, a bwyd hynod flasus, ac iach. A digonedd ohono. Blas mwy? Oedd, ond byddai'n rhaid aros tan rhyw dro eto!

Dyma yn wir i chi goginio cartref creadigol penigamp, a dylem fel Cymry fod yn falch ohono, ac yn dra diolchgar bod y Caban, sy'n bodoli ers tair blynedd, ar gael gennym ni. Ond dyna ddigon! Ewch yno da chwi er mwyn i chwi gael gweld drosoch eich hunan. Gallaf eich sicrhau y bydd mwyniant a chroeso gwych yn eich aros.

Manylion pellach:
Caban Cyf. Yr Hen Ysgol,
Brynrefail LL55 3NR
Caban Cyf. (01286) 685 500
caban@caban.cyf.org
www.caban.cyf.org

Cuddio yn y Cilfannau
Pwy oedd Smyglwyr Cymru?

Mae'n debyg fod y rhelyw ohonom yn cofio cael ein cyfareddu gan straeon plentyndod am Siôn Cwilt yn nofelau T. Llew Jones, a *Madam Wen* nofel enwog W. D. Owen, neu'n cofio mynd am dro ar hyd arfordir Cymru a mam neu dad yn adrodd ryw hanesion dirgel ambell dwnnel cudd neu ogofau'n llawn trysor gwerthfawr.

Bwriad *Smyglwyr Cymru*, cyfrol newydd o stabl Gwasg Carreg Gwalch, yw datgelu pwy oedd gwir smyglwyr Cymru, a sut a pham yr oeddent mor barod i beryglu eu rhyddid a'i bywydau yn glanio nwyddau di-dreth.

Daeth y llyfr i fodolaeth wedi i'r ddau awdur, Twm Elias a'r diweddar Dafydd Meirion, ddarganfod eu bod yn rhannu diddordeb yn hanes y smyglars. Fel yr esbonia Twm Elias am y bartneriaeth,

'Peth hawdd oedd cydweithio – buom yn bownsio defnyddiau rhyngom fel ping-pong ar yr e-bost ac o wampio ac ailwampio dipyn, fe ddaeth y gyfrol hon i law. Fe fwynheais yn fawr iawn gydweithio efo Dafydd. Roedd o'n un hwyliog, brwd a llawn syniadau i'r diwedd. Mae'n golled fawr ar ei ôl.'

CEFNAU

PA bryd y buoch chwi ar daith gerdded ddiwetha? Yn ddiweddar? Y flwyddyn 2006, neu erioed wedi bod ar daith. Dyma un weithgaredd y gallwch ei gyflawni, sef taro ar ddernyn o bapur sawl Cefn a geir yn enwau lleoedd eich bor. Dyma ddechrau hefo Cefn Gwyn, ger pentref prydferth Bethel.

Telynegwr y Flwyddyn

Enillodd Nia Môn, tîm y Ship, Caernarfon, wobr 'Telynegwr y Flwyddyn' ar raglen *Y Talwrn* gan Gerallt Lloyd Owen am y delyneg orau o'r flwyddyn a aeth heibio.

Roedd Nia yn arfer byw yn Llanberis ond ar hyn o bryd mae'n byw yn Ninbych.

Enillodd gyntaf hefyd am y *vers libre* yn yr eisteddfod.



LLANBERIS

Gwyneth ac Eifion Roberts, Sŵn-y-Gwynt. Ffôn: 870740

Griffith Whitsun Hughes (Griff Hughes)

Mae amryw o ffrindiau, ac yn arbennig, drigolion Llanberis, yn holi am yr uchod. Rwy'n cyfeirio at y diweddar 'Griff Postman' fel y cawsai ei adnabod gan bentrefwyr Llanberis. Bu farw Griff ar y 27ain o Chwefror eleni yn St. John's, Newfoundland, Canada.

Brodor o'r Felinheli oedd Griff ac fe symudodd i lety yn Stryd Warden, Llanberis lle bu'n bostmon yn y pentref am flynyddoedd.

Yn 1966 cafodd ei symud o Lanberis i fod yn bostmon ym Mhenygroes. Ni setlodd yno o gwbl ac o fewn blwyddyn cododd ei bac ac aeth at ei frawd i St. John's, Newfoundland.

Ymhen blwyddyn roedd wedi cael gwaith mewn ystordy archfarchnad ac wedi priodi merch o St. John's, sef Pearl. Bu'r ddau yn treulio eu gwyliau yn flynyddol yn Llanberis a chafodd Pearl ei mabwysiadu fel un o ferched y pentref. Yn anffodus datblygodd yr aflwydd Alzheimers arni tua wyth mlynedd yn ôl, ond er hyn, parhau i ymweld â Llanberis wnâi'r ddau. Aeth Griff a Pearl i fyw i gartref o'r enw St. Luke's yn St. John's ond yno, ar y 27ain o Chwefror 2007, cafodd Griff drawiad ddifrifol ar y galon.

Mae Pearl dan ofal cartref St. Luke's ac, oherwydd ei chyflwr, yn ddiarwybod o'r golled. Mae Griff yn gadael chwaer, Nell, o'r Felinheli.

DIOLCH. Dymuna Paul, Gillian, Megan a Gwilym ddiolch o galon i'w teulu, cymdogion a ffrindiau yn Llanberis a'r cylch am y rhoddion at elusen Clefyd Parkinsons, hefyd am yr ymweliadau, y cardiau a'r galwadau ffôn a dderbyniwyd er cof am Bet Williams, 8 Coed y Glyn ac Erw Fair, gynt. Mam, Nain a chwaer annwyl iawn.

Carem ddiolch i'r meddygon lleol, ac yn enwedig i Delyth a'i staff yng Nghartref Foelas, Llanrug, am eu gofal tyner. Diolch hefyd i'r Parch John Pritchard BA, BD, am ei wasanaeth, i'r organyddes ac i Gwynfor (E.w. Pritchard) am ei drefniadau teimladwy.

DIRTY WORDS. Mae 'The Dirty Words', band a ffurfiwyd gan griw o hogia Ysgol Brynrefail: Hywel Pitts, David Thomas a Daniel Thomas o Lanberis a Siôn Foulkes o Fethel, wedi bod yn brysur iawn dros yr haf. Cawsant wahoddiad i chwarae yn 'The Cavern Club' Lerpwl, y clwb a wnaed yn enwog gan y Beatles. Roedd yn noson lwyddiannus iawn.

Cawsant hefyd y profiad gwych o chwarae ar lwyfan Maes B yn Eisteddfod Genedlaethol Sir y Fflint mewn 'Brwydr y Bandiau', a ddarlledwyd yn rhannol ar y rhaglen *Bandit* ar S4C. Enillodd Siôn Foulkes, y drymiwr, wobr 'Cerddor Gorau'r Gystadleuaeth'. Roedd gigs 'The Dirty Words' dros yr haf yn cynnwys 'Party in the Park' ym Mae Colwyn a gig elusennol i godi arian i Oxfam a CLIC yn Neuadd Hendre.

Mi fyddant yn chwarae yng Nghaerdydd ar Fedi 1af a'r 2il ac yn Cofi Roc, Caernarfon, ar y 20fed o Fedi. Mae nhw hefyd yn brysur yn trefnu gigs eu hunain yn lleol ar gyfer y misoedd nesaf.

Gallwch glywed Dirty Words ar: www.myspace.com/ydirtywords a www.myspace.com/thedirtywordsband. Rhwng y ddwy dudalen MySpace, mae eu caneuon wedi cael eu chwarae oddeutu 43,000 o weithiau a'r hogia wedi gwneud ffans a ffrindiau newydd o bob rhan o'r byd.

NOSON ARWERTHIANT. Nos Wener, 14 Medi, am 6.30 o'r gloch yn Festri Capel Coch, Llanberis, cynhelir Noson Goffi gyda stondinau llyfrau, bric a brac, tombola, cacennau ac amryw gystadlaethau.

Bydd yr elw i'w rannu rhwng Ymgyrch Cristnogol Sierra Leone a Chynllun Efe (Efengyl Dros Fro Eco'r Wyddfa) – i gael gweithiwr ieuenctid Cristnogol i'r ardal.

Croeso cynnes i bawb o'r ardal.

DIOLCH. Dymuna Heulwen Lewis, 13 Stryd Ceunant, ddiolch i'w theulu, ffrindiau a chymdogion am yr holl alwadau, cardiau a blodau a dderbyniodd ar ei phen-blwydd yn ddiweddar. Hefyd am bob caredigrwydd sydd wedi ei ddangos iddi pan nad oedd yn dda yn ddiweddar. Llawer o ddiolch i bawb.

LLONGYFARCHIADAU i Awen Parry Griffith, 85 Maes Padarn, ar ennill Gradd BA mewn Hanes ym Mhrifysgol Cymru Bangor. Pob llwyddiant yn y dyfodol.

HOFFAI Margaret, Gwynfor a Gwynfryn, ddiolch am y llu cardiau a dderbyniwyd ar farwolaeth eu chwaer, Eurwen, gynt o Bro Glyder, Nant Peris. Aeth y rhoddion tuag at Eglwys Nant Peris. Diolch yn fawr.

DYMUNA Lisa a Barry, 7 Stryd Newton, ddiolch am yr anrhegion a chardiau a dderbyniwyd ar enedigaeth Cian Rhys ym mis Mehefin.

CYDYMDEIMLWN â Dilys Baylis ar farwolaeth ei brawd, Huw Berwyn Jones, Cwmbrân, yn 83 mlwydd oed. Roedd Berwyn yn derbyn yr *Eco* ers blynyddoedd ac yn mwynhau cadw cysylltiad â bro ei febyd.

PRIODAS AUR. Dymuna Eddie a Moreen, Plas Tirion, ddatgan eu gwerthfawrogiad i bawb am y caredigrwydd a ddangoswyd tuag atynt ar achlysur dathlu eu Priodas Aur ar 10 Awst. Diolch am y cardiau, blodau, anrhegion a'r galwadau ffôn a diolch arbennig i Ruth, Catrin a Gwyn am drefnu'r trip i Lundain ac i Miriam am eu chwmni difyr ar y daith.

CAPEL COCH. Roedd yr Ysgol Sul yn brysur cyn diwedd tymor yr haf. Aeth y trip Ysgol Sul i Gullivers' World yn Warrington ddydd Sadwrn, Gorffennaf 7. Er gwaetha'r glaw mawr am ddyddiau lawer cyn y trip cawsom ddiwrnod heulog braf ac aeth llond dau fws (o Ysgol Sul Capel Coch ac Ysgol Sul Deiniolen) i fwynhau diwrnod o hwyl. Ar y ffordd adref cawsom swper yn McDonalds yng nghyffiniau Treffynnon. Diolch yn fawr i bawb a ddaeth ar y trip. Fe fwynhaodd pawb ei hun yn arw, gobeithio.

Cyn hynny roedd plant y dosbarthiadau hynaf wedi treulio dau neu dri Sul yn cynllunio a gwneud baneri i'w harddangos yn y festri. Cawsant hwyl ar y gwaith, ac mae'r baneri'n werth eu gweld. Yn anffodus, bu'n rhaid gohirio'r picnic blynyddol a'r daith gerdded noddedig oedd wedi eu trefnu ar gyfer dydd Sul, Gorffennaf 15 oherwydd y pryder am y glaw. Gobeithiwn allu aildrefnu'r gweithgarwch hwnnw os cawn dywydd go lew ym mis Medi.

Bydd yr Ysgol Sul yn ailddechrau am 11.15 o'r gloch ddydd Sul, Medi 9, ac edrychwn ymlaen at groesawu'r plant yn eu hôl. Bydd croeso cynnes hefyd i blant eraill sydd eisiau dod i'r Ysgol Sul atom. Ffoniwch 872390 am ragor o fanylion neu dowch i festri Capel Coch y bore hwnnw neu unrhyw fore Sul.

DIOLCH. Dymuna Mrs Kathleen Williams, 1 Glanrafon, Tŷ Du Road, ddiolch i'w theulu, ffrindiau a chymdogion am yr holl garedigrwydd a dderbyniodd tra y bu yn Ysbyty Gwynedd a Cerrig yr Afon yn ystod mis Mehefin. Diolch hefyd i'r Staff yn Ysbyty Gwynedd ac hefyd i'r Matron a Staff Cerrig yr Afon.

DIOLCH. Dymuna Glenys a Gwilym Owen, 9 Snowdon Street, ddiolch i'w teulu, ffrindiau a chymdogion am y cardiau a'r anrhegion a dderbyniasant ar achlysur dathlu eu Priodas Ruddem ar Orffennaf 22ain.

LLONGYFARCHIADAU i Caryl Wyn Williams, Carlinig, ar dderbyn gradd B.A. Anrhydedd mewn Troseddeg a Chyfiawnder Troseddol (*Criminology and Criminal Justice*) ym Mhrifysgol Cymru Bangor.

Pob hwyl iddi gyda'r cwrs M.A. mewn Troseddeg Gymharol a Chyfiawnder Troseddol (*Comparative Criminology and Criminal Justice*) a da iawn am ennill Ysgoloriaeth gan y Brifysgol.

Llongyfarchiadau hefyd i'w brawd, Iwan Wyn Williams, ar ganlyniadau ardderchog yn ei arholiadau TGAU. Llwyddodd Iwan i dderbyn 5a*, 4a ac 1b. Mae Iwan am ddychwelyd i'r ysgol i astudio ar gyfer ei lefel A. Da iawn tithau hefyd.

Pob lwc i'r ddau, gan Mam a Dad a'r teulu oll.

'The Dirty Words', band a ffurfiwyd gan griw o hogia Ysgol Brynrefail.

CERIS JONES
Teglan, Stâd Talybont
LLANRUG
677362
neu symudol
07979 620996

- Trwsio ceir a faniau
- Gwaith MOT
- Mecanic profiadol iawn
- Prisiau cystadleuol

CDH
Ymgynghorwyr Ariannol Annibynnol
27 Stryd y Bont, Caernarfon
(01286) 672727
a hefyd ein swyddfa newydd
8 Llys Onnen, Ffordd y Llyn, Parc Menai, Bangor
(01248) 355055
Dewch atom am gyngor ynghylch yswiriant a materion ariannol
Awdurdodir a rheolir gan yr Awdurdod Gwasanaethau Ariannol

E. W. Pritchard
CENTRAL GARAGE, Llanberis
Ffôn: (01286) 870202
TREFNWYR ANGLADDAU
CEIR AR GYFER PRIODASAU

Fframia **Gwasanaeth Fframio Lluniau**
Arbenigwyr ar fframio gwaith edau a nodwydd
Nifer helaeth o luniau ar werth • Dewis eang yn cynnwys:
WILLIAM SELWYN • KEITH ANDREW
KEITH BOWEN • ROB PIERCY
PARC PADARN, LLANBERIS (870922)
(Ar gau dydd Sul a dydd Llun yn ystod y gaeaf)

Dyddiadur Evan Jones Tŷ'r Mawn

Rwyf yn dechrau'r dyddiadur y tro hwn yn y flwyddyn 1904.

6 Chwefror 1904: Priodi Griffith Jones, Tŷ Capel.

9 Chwefror: Marw John Griffith, Newton Street.

27 Chwefror: Claddu David Jones, Bing, a hefyd claddu Elizza Martret Jones, Ceunant Street.

10 Mawrth: Marw Mrs Rowlands, Victoria Villa.

19 Ebrill: Marw E. Anderson, Castle Hotel.

22 Ebrill: Marw Mrs Hughes, Fatric.

10 Mai: Geni mab i Mrs Brikemon, Glan Bala.

21 Mai: Marw Ritchard Owen, Printer.

25 Mai: Priodi John Hughes, Pentre Castell.

24 Mehefin: Priodi Nell Parry, Ceunant Street.

7 Medi: Marw Ellen Evans, Pen y Bont, Llanberis.

8 Hydref: Claddu Margaret Evans, Rallt Goch.

16 Tachwedd: Priodi Ellis Jones, Ceuant, Waenfawr.

22 Tachwedd: Marw George W. Duff Ashton-Smith a cael ei gladdu ar y 26, dydd Sadswrn, a ninnau yn cael 6/- (30p) stem.

24 Rhagfyr: Priodi John Roberts, Cae'r Frân.

Nawr i fis Awst, gan mlynedd yn ôl, sef 1907.

27 Awst 1907: Claddu hen wraig Plas Coch

28 Awst: Claddu Morris Thomas, Newton Street.

Ac erbyn hyn mi rydym wedi cyrraedd y bedwaredd flwyddyn o'r Rhyfel Mawr, sef 1917.

4 Ionawr, 1919: Tua modfedd o eira yn syrthio ar ddydd Sadwrn, a'r chwarel yn cau.

22 Ionawr: Claddu mab i Thomas Rowlands, Llainwen.

23 Ionawr: Priodi Kate, Mur Mawr, yn Nant Uchaf.

24 Ionawr: Claddu William Parry.

26 Ionawr: Claddu Evan Hugh Evans yn Awstralia ac o Ddinorwig gynt.

27 Ionawr: Claddu Hannah Owen, Pant Du, Llanberis.

29 Ionawr: Claddu William Jones, Glan Dwr, a fu farw yn Lerpwl.

1 Chwefror: Claddu William Elias Pritchard, Newton Street, Llanberis.

2 Chwefror: Llyn Padarn wedi rhewi a bu'n agos i fab Bob Hughes, Pant Dwr, â boddi ynddo.

3 Chwefror: Y chwarel yn dechrau gweithio yn llawn unwaith eto. Ac hefyd claddu gwraig Robert Owen, Car Post.

5 Chwefror: Claddu Thomas Williams, Cwm y Glo.

26 Chwefror: Marw Mary Thomas, Dinorwig, a cael ei chladdu ar y 3 o Fawrth. Ac hefyd marw D. Jones yn Wrecsam a cael ei gladdu yn Llanberis ar Fawrth yr 2.

27 Chwefror: Claddu Tom Roberts, Llainwen Uchaf.

9 Mawrth: Claddu John O. Jones, Bala gynt.

24 Mai: Claddu Lowri, merch William Williams, Gof, Ceunant Street.

29 Mai: Cafodd Moss Pritchard ei ladd mewn gwaith calch a dod ac o adref i Lanberis i'w gladdu.

25 Mehefin: Ar ddydd Gwenar priodi David Evans, Tanffordd.

8 Gorfennaf: Claddu mab i William Jones, llwythwr o Cwm y Glo.

31 Gorffennaf: Daeth newydd am Bob Evans, Ceunant Streeet, ei fod wedi cael ei ladd yn Ffrainc.

15 Awst: Claddu John D. Jones, Blaen y Ddôl, Llanberis.

26 Awst: Marw Jane Griffith, Cwm Uchaf.

27 Awst: Claddu mam Mrs Roberts, Cae'r Frân.

15 Medi: Claddu Catherine Morris, Cwm y Glo.

23 Medi: Marw Hugh Williams, Cwm y Glo.

29 Medi: Priodi Thomas Griffith, Bryngwyn, Llanrug.

3 Hydref: Priodi George Closs Jones.

16 Hydref: Priodi Sidney Hughes, Snowdon View.

7 Tachwedd: Priodi Morris Rowlands, Tŷ Newydd.

7 Tachwedd: Kate Williams, Fron Goch yn New York.

22 Tachwedd: Pregeth gan Thomas C. Williams i ddathlu 50 mlynedd ers sefydlu Capel Gorffwysfa.

R. ELWYN GRIFFITH

DYSGU SGWENNU YN LLANRUG A DEINIOLEN

Cyrsiau Cymunedol Arfon
Ysgrifennu Creadigol
gyda Mari Gwilym

24 Medi am 23 wythnos
Llanrug: rhwng 10–12 y bore,
Deiniolen: rhwng 1–3 y pnawn.
Cost £55 ond consesiwn ar gael.

Rhaid ymaelodi cyn gynted â phosibl. Cysylltwch â Doreen Wiliams, Swyddog Gweinyddol Coleg Menai, Caernarfon

(01286) 673 450

I drin a thrwsio pob math o beiriannau gwnïo

MENAI SEWING MACHINE CENTRE

21 Stryd Fawr
PORTHAETHWY

Ffôn: **(01248) 714043**
neu **Caernarfon**
Ffôn: **(01286) 674520**

Edau, Nodwyddau ac ati mewn stoc

Briwsion Byd Natur

Dafydd Guto

MAE O'N DIGWYDD!

Yn ôl astudwyr medrus ym maes *draenogod* dywedir bod, ar gyfartaledd, un draenog yn cael ei ladd bob 100Km, a hynny tra'n croesi lonydd yng ngwledydd Prydain.

Ym mis Mai eleni, tra'n teithio wrth ochr Linda yn ei modur, gwelais ddraenog marw ar erchwyn y lôn, heb fod ymhell o Bontrug. Mewn man syth gorweddai'n dwmpath llonydd, a'i einioes ar ben. Yr un mis, tra ar daith eto ym modur Linda i'r Llyfrgell Genedlaethol yn Aberystwyth, bu imi gyfrif pedwar draenog marw ar ochr y ffordd fawr. Oedolion oeddynt. Tybed pam fod cymaint o'r draenogod yn diweddu eu hoes ar ein ffyrdd, a hynny'n flynyddol rhwng misoedd Ebrill ac Awst?

Dau beth yn fy marn i sy'n gyfrifol am hyn i gyd. Fe'u lleddir gan gerbydau sy'n teithio ar hyd y ffyrdd (ffaith amlwg ddigon ydyw hynny!), ac yn aml yr oedolion, nid y rhai bach, a leddir. Yn ail, y mae'n debyg bod yr oedolion yn prowla, h.y. yn chwilio am bardneriaid, neu'n hela am fwyd i'r rhai bach a aned, sylwer, ym mis Gorffennaf.

Ym mis Gorffennaf y flwyddyn 2006 cyhoeddwyd 'Arolwg Draenogod', a drefnwyd y flwyddyn flaenorol, sef gwaith arsylwi yn nhrymder nos o eiddo'r Ymddiredolaeth Famaliaid. I'r diben o gynnal yr Arolwg dewiswyd lôn hynod ddistaw o ran trafnidiaeth; lôn 5 metr o led, wedi ei lleoli ym Mharc Mawr Windsor, Lloegar. Roedd y draenogod a ddewiswyd eisoes wedi arfer hefo'r mynd a'r dŵad dinesig, ac ar ddiwedd bob shifft nos fe'u dychwelwyd i'w hen gynefinoedd. Yn eu cynefin newydd, fodd bynnag, bachwyd ar gefn pob creadur olau ffosfforws ac fe'u gadawyd mewn blychau ar ochrau'r glaswellt-diroedd a oedd o bobtu'r lôn, ble cynhelid yr arbrawf. Roedd agoriad pob blwch yn wynebu'r lôn.

Dechreuwyd cofnodi ar bapur symudiadau'r draenogod, – y modd y cerddent, rhedeg, oedi, fferru, a dyfalu ble nesaf yr ânt. Gyrrwyd car ar gyflymder o 20 milltir yr awr tuag atynt, gan ofalu peidio â'u lladd. Canfyddwyd bod y creaduriaid yn symud ddwy waith yn gyflymach ar y lôn nag a wnaent ar y glaswellt-diroedd, a'u bod, tra'n oedi ar erchwyn y lôn, yn codi mymryn ar eu cyrff, ac yna'n rhedeg ar draws!

Ond beth a ddigwyddai pan oedd modur yn nesáu? Yr hyn a ganfyddwyd oedd na fyddai'r draenogod yn gwneud unrhyw ymdrech i symud oddi wrth berygl pan oedd y modur 17 metr oddi wrthynt, yna pan oedd y cerbyd 8 metr oddi wrthynt, ceisient wneud rhyw fath o ymdrech i ddianc. Braidd yn hwyr, onide! Hyd yn oed wrth sylweddoli bod cerbyd ar eu gwarthaf, a ffurfio eu hunain yn dwmpathau, ychydig o siawns sy' gan ddraenogod i osgoi mynd o dan deiars olwynion sy'n tramwyo ar hyd lonydd.

Llygaid duon bychain sydd gan pob draenog normal, a'r rheiny wastad yr un lefel â'r llawr. Gwêl rai pethau, sydd ran fynychaf o'i flaen. Rhai o'i gryfderau ydyw ei bigau ac hefyd, yn bendifaddau, ei drwyn! Tra'n symud y mae'n snwffian, a deil ei damaid trwyn yn agos at y llawr. Weithiau cyfyd hwnnw, er mwyn cael gweld a geir, ym meinder yr aer o'i ddeutu, arogleuon sy'n mynd â'i fryd, neu sydd yn ei wahardd rhag mentro gam ymhellach. Creadur y nos, a chysgadur y gaeaf ydyw, ac fe'i breintiwyd hefo ffroenau penigamp; ffroenau, a all arogli bwyd a hyd yn oed arogl cymar pigog o ddeniadol! Ac y mae'n rhaid i'r draenog, welwch chwi, baru, caru, a bwyta – hyd yn oed pan fo lonydd i'w tramwyo!

Dydy o, ysywaeth, ddim yn poeni'r un gronyn lleiaf am lori sment, bws trymlwythog o bobl, beic cyflym hogan drws nesaf nac unrhyw Fini Cooper, Daimler neu Porche, marweddog, mae'n ddrwg gennyf, mawreddog o fawr!



O'r Cyngor

Tydi amser yn hedfan, blwyddyn arall wedi mynd heibio a phawb ychydig yn hŷn. Ond fel yna mae pethau ac yn sicr ni allwn wneud dim i'w newid, gwaetha'r modd.

Er hyn, mae wedi bod yn flwyddyn brysur gan ein bod wedi dal ati i geisio cael y maen i'r wal gyda materion sy'n rhygnu 'mlaen ers peth amser. Does dim dwywaith mai'r materion sydd wedi cymryd y mwyaf o amser i'w setlo yw'r broblem gorlif dŵr a charthffos, sy'n achosi pryder mawr i rannau o'r pentref ar adegau o law trwm. Mae'n wir fod y system garthffos yn y Cremlyn a Tan y Cae wedi ei hadnewyddu a'r problemau yno wedi dod i ben, ond mae problemau yn dal i fodoli yn ardal Penrhos, Saron, a chyda'r rhedfa dŵr oddi ar ffordd Crawia.

Fe adroddais y llynnedd fy mod wedi bod mewn trafodaethau gyda Asiantaeth yr Amgylchedd a'r Cyngor ynglŷn â'r materion yma ers 2004 ond, o'r diwedd, rydym yn dechrau gweld golau dydd go sylweddol, fel â ganlyn:

Afon Cadnant, Penrhos

Ar 11 Rhagfyr 2006 fe gynhaliwyd cyfarfod yn Festri Capel Bethel, dan ofalaeth swyddogion Adran Llifogydd, Asiantaeth yr Amgylchedd. Trafodwyd gyda phreswylwyr Penrhos ddarpar-gynlluniau a hefyd dderbyn eu sylwadau. Roedd y cyfarfod yn hynod o adeiladaol a thrwy hyn cafwyd cynnydd sylweddol yn y dyluniadau. Fe gynhaliwyd cyfarfod arall ar 9 Mai eleni, ble rhoddwyd eglurhad pellach ar y gwaith sydd i'w wneud. Bydd y rhan gyntaf o'r gwaith, sef glanhau gwely'r afon ac addasu'r bont ffordd, wedi'i gwblhau cyn y gaeaf.

Ardal Saron

Fel y gŵyr pawb, mae problem dŵr gwyneb, yn enwedig ar y ffordd o Corra Linn i lawr heibio'r Neuadd, yn go ddrwg ar gyfnodau o law. Mae rhai tai, wrth gwrs, wedi dioddef gorlifo ac mae arolwg o'r system ddraenio yn dangos fod hen ddraeniau, sydd i fod i gymryd dŵr gwyneb, wedi eu blocio neu eu llenwi i mewn yn gyfan gwbl fel mae'r pentref wedi cael ei ddatblygu dros y blynyddoedd. Fe geisiwyd, yn aflwyddiannus, am arian o'r Cynulliad Cenedlaethol yn ystod 2006 i ailagor ac adnewyddu'r hen systemau yma. Bydd cais arall yn cael ei wneud eleni a gwir obeithiwn y bydd hyn yn gweld golau dydd.

Rhan arall o'r pentref sy'n cael ei effeithio gyda gorlifo yw'r ardal o fordd Crawia i lawr hyd at Ceir Cymru. Mae gwteri newydd wedi eu gosod ar y ffordd, ger mynedfa'r cae pêl-droed, ond nid ydynt wedi llwyddo i ymdopi â'r holl lif. Mae gwaith wedi'i raglennu yn ystod yr wythnosau nesaf i osod draen newydd ar hyd maes parcio'r clwb. Gobeithio y bydd y gwaith yma yn atal dŵr rhag llifo o'r caeau i'r ffordd ac i lawr at y pentref.

Diogelwch a Gwella Ffyrdd

Gwaith sydd wedi'i gario allan i ychwanegu at wella amgylchedd y fro yw ailwynebu'r ffordd o'r ffordd fawr, sef B4366, hyd at Stad Rhoslan, gyda'r pafin hyd at Tan y Cae yn cael ei adnewyddu'n gyfan gwbl.

Pafin newydd wedi ei adeiladu o fynedfa Tyddyn Andrew Isaf hyd at Erw Bian. Mae'r gwaith yma yn arbennig, gan ei fod yn rhan o gynllun diogelwch cerddwyr, gyda ardal uchafswm gyrru yn 40 milltir yr awr yn cael ei sefydlu o ochr Gors Bach i Erw Bian.

Rhan arall o waith i wella'r ffyrdd oedd creu manau pasio o'r Gors Bach hyd at Gelli Gyffwrdd. Yn anffodus ofer fu'r ymdrech i gael pafin yma oherwydd y gost.

Wrth gwrs, y rhan bwysicaf o ddiogelwch ffyrdd yw be fydd yn bosib ei wneud tu allan i'r ysgol. Rwyf wedi cael ar ddeall y bydd gwybodaeth i'w gael ar hyn yn yr wythnosau nesaf ond, yn ôl pob golwg bydd y cynllun yn cynnwys rhyw elfen o symud ceir y staff i gefn yr ysgol, ac addasu'r tir o flaen yr ysgol fel man gollwng a chodi i fyny. Mae'n angenrheidiol symud ymlaen gyda hyn ar frys o ystyried y cynnydd mewn defnydd fydd ar gyfleusterau'r ysgol yn yr wythnosau nesaf. Mae'r Ysgol Feithrin ar fin symud o dir y Neuadd i'r caban newydd yng nghefn yr ysgol, a hefyd y Clwb ar ôl Ysgol, sydd newydd ddechrau gweithredu yn ddiweddar.

Teithiwyr Chwarel y Fachell

Dyma fater sy'n destun trafodaeth feirniadol iawn ar sut mae'r Cyngor wedi gweithredu yn achos y teithwyr sydd wedi gwersylla yn hen Chwarel y Fachell. Rwy'n teimlo'n gryf bod llusgo traed wedi bod i gael rhain i symud. Ond heb ymhelaethu mwy, rwy'n falch o ddweud fod rhybudd gorfodaeth i symud wedi ei roi ar y trigolion yma ers dechrau Ebrill. Roedd mis i apelio yn erbyn y rhybudd ac yn ôl fy nealltwriaeth i nid oes apêl wedi ei wneud. Nid oes gennyf sicrwydd am hyn, ond beth bynnag am hynny, mae'n rhaid yn awr roi cyfnod o 6 mis iddynt symud. Os na fydd hyn wedi digwydd, yna fe fyddant yn cael ei gorfodi i adael y llecyn. Bydd gennyf fwy i'w ddweud am hyn pan fydd y mater wedi'i derfynu.

Panel Cymdogaeth

Ers dechrau'r flwyddyn mae trefniadau wedi bod ar y gweill i drefnu Panel Cymdogaeth, sef panel o gynrychiolwyr o sefydliadau yn y pentref i gyfarfod yn rheoliadd efo'r heddlu i drafod materion yn ymwneud â thorcyfraith, difrodi, ymddygiad gwrth-gymdeithasol a materion arwynebol i amgylchedd y pentref, fel ysbwriel ac ati. Strategaeth newydd yw hyn er mwyn i'r heddlu gael gwell teimlad o anghenion a dyheadau'r trigolion lleol. Gobeithio'n wir y bydd sylw yn cael ei roi i argymhellion y panel.

Bu cyfarfod cyntaf y panel ar 11 Ebrill 2007 yn y Neuadd Goffa, ac atodaf at eich sylw gofndion o'r cyfarfod. Gobethio yn wir y bydd rhai o'r pryderon wedi derbyn sylw erbyn y cyfarfod nesaf, ar 11 Gorffennaf, neu bydd yn rhaid cwestiynu dyfodol y fenter.

Gwaith Ychwanegol

Mae cryn bryder oherwydd gor-yrru drwy bentref Seion. Mae adolygiad drwy osod cyfrifydd wedi ei gario allan rhyw ddwy flynedd yn ôl, a'r adeg yma yr ateb a gefais oedd nad oedd y canlyniadau yn cyfiawnhau tynnu cynllun allan. Gan fod y pryderon yn dal i gael ei mynegi rwyf wedi tynnu sylw eto at hyn. Fe adroddaf ymhellach pan ddaw sylwadau i law.

Gwaith i'w gyflawni yn ystod 2007–08

Rwy'n gwir obeithio y bydd gwaith ailwynebu'r stadau tai yn cael ei gario allan yn ystod misoedd yr haf. Yr unig ymateb rwyf wedi ei gael hyd yn hun yw bod y ffordd o'r B4366 hyd at Stad Tan y Buarth ar y rhaglen i'w chwblhau eleni. Mae gwir angen edrych ar stadau y pentref sef Rhoslan, Eryri a'r Ddôl, i enwi dim ond rhai. Byddaf yn ymdrechu i gael ymateb i'r gwaith yma yn ystod yr wythnosau nesaf.

'Sgwn i a yw'r rhai sy'n defnyddio'r ffordd i Lanrug wedi sylwi'n ddiweddar ar y difrod sy'n cael ei wneud i'r cloddiau gan ddamweinaiu ceir. Rwyf ar ddeall fod chwe damwain wedi digwydd rhwng Erw Fforch a Bethel ers y Pasg. Byddaf yn beicio yn aml y ffordd yma i gael golwg ar yr afon, wrth gwrs, ond mewn difri mae'r gor-yrru yma yn warthus, ac mae'n prysur fynd yn rhy beryglys un ai i gerdded neu feicio. Byddaf yn trefnu cyfarfod yn fuan hefo'r Adran Briffyrdd i geisio cael rhyw syniad ar sut i leihau'r broblem yma.

Yn ystod ail hanner 2006 fe osodwyd goleuadau stryd newydd ar hyd ymylon y B4366 drwy'r pentref. Gwaith taclus, heblaw o flaen rhan o'r Cremlyn, ble mae'r gwaith wedi gadael tipyn o lanastr. Mae ceisio cael adrannau Goleuadau Stryd, Tai a Priffyrdd i gytuno gyda'i gilydd ar sut i gyd-gyfarfod, heb sôn am eu cael i gydweithio i dacluso'r llecyn yma, tu hwnt i'm deall i – ond dyfal donc!

Tra ar y mater o olau stryd, mae trigolion Cremlyn wedi mynegi'r farn y buasai golau yng ngwaelod y stad yn fuddiol iawn. Mae cais eisoes wedi ei wneud i Gyngor Cymuned Llanddeiniolen, sy'n gyfrifol am y math yma o waith, ond yn anffodus gwrthodwyd ariannu'r cynllun. Dyna hefyd oedd canlyniad yr ymdrech drwy ddeiseb i Gyngor Gwynedd. Efallai felly y bydd amser i'r Cyngor Cymuned ailystyried !!

Huw Price Hughes
Cynghorydd Plaid Cymru
Bethel/Seion
(01248) 670 666
e-bost huw.hughes@lineone.net

Cefnogwch ein Hysbysebwyr

J.M. JONES A'I FEIBION
GWAITH CERRIG BEDDAU

Y Sgwâr Llanrug

Crefftwyr gwaith llaw traddodiadol Cerrig o bob math ar gael –

Ffôn: (01286) 672898 (dydd) 676285 (nos)

CHWARAEON

TLWS YR ECO 2007

Unwaith eto eleni cafwyd cystadlu brwd ac, yn y diwedd, aeth y tlysau i wahanol rannau o'r plwyf. Yn anffodus, fe chwaraewyd y rhan fwyaf o'r gystadleuaeth mewn tywydd echrydus. Diolch arbennig felly i bawb a frwydrodd trwy'r dilyw i gyrraedd tir sych ar ddiwedd y dydd.

Un nodwedd amlwg eleni – ym mhob oedran – oedd y diffyg goliau. Yn amlwg mae elfennau fel taclo a phasio yn safonol, ond gwantan yw'r gallu i roi y bêl yn y rhwyd. Tueddiad i geisio cerdded y bêl i'r rhwyd yn lle rhoi 'clec iddi', efallai! Eraill yn awgrymu gan fod maint y plant ar gynnydd erbyn hyn, fod y goliau i'r oedrannau hŷn yn rhy fach.

Bethel groesawodd yr oedran dan 11 ar y noson gyntaf. Rhannwyd yr 8 tîm yn ddau grŵp. Yn y rownd gyn-derfynol roedd Bethel A yn herio Llewod Llanrug. Cafwyd gêm agos iawn rhwng yr 'hen elynion', cyn i gôl hwyr roi Bethel trwodd. Yn yr ail gêm – eto'n agos – dipyn o sioc wrth i Bethel B guro Llanrug Utd. o 1–0. Brwydr rhwng y ddau dîm cartref felly. Gêm glòs, ond gyda fawr yn digwydd yng ngheg y gôl. Aeth y gêm ymlaen nes cael y gôl aur, a honno'n dod i Bethel B. Byddent yn ôl i amddiffyn y tlws y flwyddyn nesaf felly.

I Lanrug – y cae Ysgol a Bryn Moelyn – ar gyfer y rhai dan 9. Gan fod angen dwy safle diolch i'r rheolwyr am eu cyd-weithrediad parod. Daeth 9 tîm ymlaen, eto mewn dau grŵp. Erbyn y rownd gyn-derfynol roedd dau dîm Deiniolen, Llanrug A a Llanberis yn cystadlu. I mi dyma gemau gorau y gystadleuaeth. Sôn am ymdrech!

Doedd dim rhwng y timau, ond Deiniolen A oedd yn herio Llanberis am y tlws. Dyma gêm deilwng iawn, ond i'r 'topia' yr aeth y tlws, o 2–0. Yr oedd rhywun yn ymwybodol o gefnogaeth y rhieni o Ddeiniolen i'w tîm a'u rheolwyr. Mae cryn ymdrech wedi ei wneud yn ddiweddar i aildanio'r fflam bêl-droed yn Neiniolen. Gobeithio y bydd hyn yn ddechreuad i'r ymdrech honno.

I Lanrug y daeth y criw dan 7 hefyd, ac ymddangosodd rhywfaint o haul o'r diwedd!

Dyma noson boblogaidd, a thorf dda yn cefnogi ymdrech y rhai iau. Yn y rownd gyn-derfynol, curodd Llanrug dîm Deiniolen – oedd yn chwilio am y dwbwl – o 3–1. Yna gêm glòs iawn, cyn i Fethel guro Waunfawr o 1–0. Tipyn o ddisgwyl am y gêm derfynol, cyn i Lanrug gipio'r tlws gyda unig gôl y gêm

Yn y gemau pêl-rwyd, diolch unwaith eto i Catrin Jones a'i chyfeillion am eu cyd-weithrediad parod. Chwaraewyd y ddau oedran ar yr un noson ac aeth y tlws hŷn i Ysgol Lanrug, a'r tlws iau i Ysgol Bethel.

Diolch unwaith eto eleni i Dlysau Gwynedd, ond yn fwy na dim i'r llu o bobol sy'n mynnu bod y gystadleuaeth yma yn cario 'mlaen, ac yn rhoi y fath foddhad i nifer o ieuenctid.

PEN-BLWYDD RHEDWYR ERYRI

Mae Clwb Rhedwyr Eryri yn dathlu ei ben-blwydd yn ddeg ar hugain oed eleni, ac i ddathlu'r achlysur, bydd parti pen-blwydd arbennig yn cael ei gynnal yng Ngwesty Fictoria, Llanberis ar nos Wener, 7fed o Fedi.

Ffurfiwyd y Clwb gan nifer o redwyr a threfnwyr brwdfrydig o'r ardal hon flwyddyn wedi sefydlu Ras yr Wyddfa, ac y mae'r ddau sefydliad wedi mynd o nerth i nerth ers y dechreuad hwnnw. Bu Rhedwyr Eryri yn feithrinfa arbennig i rai o redwyr mynydd gorau Cymru a Phrydain, ac y mae aelodau o'r Clwb ar hyd y blynyddoedd wedi ennill llu o dlysau ym mhencampwriaethau rhedeg led-led Prydain.

DEFNYDDIO DONIAU I HYRWYDDO

Bob blwyddyn yng nghlwb criced Bangor, byddwn yn gofyn i'r chwaraewr 'tramor' am adroddiad, ble y maent yn awgrymu gwelliannau i strwythr y clwb. Mae cael rhywun o'r 'tu allan' i fwrw llygad o werth, yn fy marn i. Deon Smith o Dde'r Affrig sydd yma eleni. Mae yn hyfforddwr proffesiynnol yn nhalaith Boland ac yn gweithio ar staff eu Academi. Mae'r ieuenctid acw wedi elwa.

Bu'r ddau ohonom yn gwylio Morgannwg ym Mae Colwyn ac, yn ystod ein sgwrs gofynnodd beth oedd cyfraniad chwaraewyr Morgannwg i ddatblygiad y gêm yn y gogledd. Ychydig iawn, meddwn i.

Yn yr un modd, does fawr o gyfraniad gan y Sgarlets i'w cyfoedion gogleddol. Roedd Deon wedi synnu. Yn Ne Affrig, mae'r chwaraewyr prawf yn symud o gwmpas y wlad yn cynnal 'clinigau'.

Tristwch yw gweld sêr rygbi'r gorffennol yn mynegi barn fel sylwebwyr neu yn y Wasg. Oherwydd yr hen reol 'amaturiaid' – a dorrwyd yn rheolaidd, os gwir y sôn – ni allant gael eu defnyddio i arwain a chefnogi talentau'r dyfodol. A thrist yw cofnodi y byddai nifer o'r unigolion yma yn barod i gynnig eu gwasanaeth. Pa well sbardun i unrhyw fachgen ysgol na chael yr unigolion hyn yn mynychu eu hysgolion i gynnal sesiynnau hyfforddi. Ffordd y Cymro yw trosglwyddo o un genhedlaeth i'r llall. Pan glywaf hyfforddwyr cenedlaethol Cymru yn siarad heddiw, maent wedi colli y ffordd Gymreig syml yna o gyfathrebu a thrafod a throsglwyddo. Rydym yn ceisio bod yn rhywbeth nad ydym wrth reddf – yn cuddio tu ôl i jargon ac ystadegau.

Brysied y dydd pan fydd Gweinidog Chwaraeon yn y Cynulliad – gyda dyletswyddau at fyd y campau yn unig.

APÊL

Mae'r rhan fwyaf o'r darllenwyr yn ymwybodol fod pentref Llanberis yn enwog mewn dau faes chwaraeon – pêl-droed a rhedeg mynydd / marathon.

Tybed a oes gan rai ohonoch wybodaeth neu luniau am chwaraeon eraill yr arferid eu cynnal yn y pentref.

Beth am edrych yn y drôr am hen luniau / gwybodaeth am fowlio, tennis, badminton, nofio, rhwyfo, treiathlon ac, efallai, beicio, moto-beicio a chriced!

Byddaf yn cyflwyno'r wybodaeth i R. L. Jones, Adran Chwaraeon yr *Eco* i'w gynnwys yn yr papur yn ystod y misoedd i ddod.

Gellir cysylltu â mi ar (01286) 870740.

Diolch ymlaen llaw,

EIFION ROBERTS

EHANGU'R TEULU

Un o'r pethau anoddaf yn swydd Golygydd Chwaraeon yw ceisio cael straeon o bob pentref yn yr ardal. Rwyf wedi cael fy nghyhuddo yn aml o 'ffafrio' rhai pentrefi, neu yn wir ambell gamp. Fy ateb yw nad lle y golygydd yw mynd i chwilio am straeon, ond golygu y straeon ddaw i law. Ymbiliaf felly arnoch i'm boddi gyda straeon.

Un datblygiad eleni yw cael ail adran i Gynghrair Pêl-droed Arfon. Ymysg y timau mae Deiniolen a'r Waunfawr. Rwyf wedi sôn am ailddyfodiad Deiniolen yn barod.

Braf croesawu'r Waun yn ôl. Bu tîm yma am gyfnod byr o'r blaen. Dros y tymhorau bu nifer o fechgyn y Waun yn cynhyrchioli nifer o'n timau lleol. Diolch i'r rhai a gadwodd y fflam ynghyn drwy'r timau ieuenctid, a gobeithio rŵan y bydd ffordd glir o'r timau hyn drwodd i'r tîm oedolion.

Dechreuodd y Beganifs yn dda drwy guro ail dîm Llanystumdwy o 3–1. Syniad da yw'r ail adran. O'r diwedd hefyd mae gan dinas Bangor a Chaernarfon dimau yn y gynghrair. Ni wnaf flino mynegi fy marn hyd syrffed mai dyma'r ffordd i feithrin y talentau lleol fydd yn arwain, yn y diwedd, i fwy o gynrychiolaeth leol yn ein timau yn y Cynghrair Cenedlaethol.

Gorsaf Betrol Beran Deiniolen.

Golchi a ll'nau Ceir

Ar agor 7yb - 9yh bob diwrnod
Petrol, Diesel, Nwy Calor a Glo
Loteri, Papurau Newydd
Off Licence, Bake'n Bite
Brechdanau a Diodydd Poeth

Costcutter

01286 871521